

2024/25

ADRODDIAD HUNANASESU

**ADOLYGIAD BLYNYDDOL O BERFFORMIAD AC
AMCANION LLESIANT**

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg
This document is also available in English





Cyflwyniad gan Arweinydd y Cyngor	2
Am Geredigion	4
Y Cyngor	5
Asesiad Perfformiad Panel	13
Cefndir i Hunanasesiad 2024-25	15
Crynodeb o Berfformiad 2024-25	16
Cynllun Gweithredu'r Hunanasesiad: Cyfleoedd i Wella	21
Beth yw Hunanasesiad?	27
Sut yr ydym yn Cynnal Hunanasesiad	28
Hunanasesiad yn Ein Fframwaith Rheoli Perfformiad	29
Rheoli ein Perfformiad	30
Asesiad Seiliedig ar Dystiolaeth	31
Dysgu o Ymgynghori ac Ymgysylltu	33
Adolygiad o'n Hamcanion Llesiant	41
Cyfraniad at y Nodau Llesiant Cenedlaethol	59
Yr Egwyddor Datblygu Cynaliadwy	61
Uno ein Cynlluniau: Cysylltiadau i Adnoddau Allweddol	62
Trawsfurfiad Digidol a Cyswllt Cwsmer	65
Dyletswydd Partneriaeth Cymdeithasol	67
Ble wnaethom ni Blaenoriaethu ein Cyllideb yn 2024/25?	68
Ein Perfformiad 2024/25	69

Llun: Pier Brenhinol, Aberystwyth

Llun clawr: Pont Aberteifi ar draws yr afon Teifi

Wedi'i Chymeradwyo: Heb ei gymeradwyo eto

Cynhyrchwyd y ddogfen hon gan ddefnyddio adnoddau o Freepik.com, tudalennau 41, 45, 49 & 53.
(www.Freepik.com)

Gan Arweinydd Cyngor Sir Ceredigion

Croeso i Adroddiad Hunanasesu diweddaraf Cyngor Sir Ceredigion. Mae'r adroddiad hwn yn adolygu ein perfformiad cyffredinol a'n cynnydd tuag at gyflawni ein Hamcanion Llesiant Corfforaethol yn ystod 2024/25.

Mae'n bleser gennyf adrodd, er y bu'r flwyddyn ddiwethaf yn un eithriadol o brysur i'r Cyngor, ei bod wedi bod yr un mor gynhyrchiol.

Ym mis Hydref 2024, cynhaliom ein Hasesiad Perfformiad Panel cyntaf, sy'n ofyniad statudol newydd i bob awdurdod lleol. Bu'r asesiad yn llwyddiant ysgubol i'r Cyngor – roedd yn cadarnhau cryn dipyn o'r hyn yr oedd y data perfformio yn ei ddweud wrthym yn barod. Daeth y panel adolygu annibynnol i'r casgliad bod Ceredigion yn gyngor a gaiff ei redeg yn dda, er gwaethaf y galw mawr sydd ar y gwasanaeth a'r pwysau ariannol sylweddol iawn y mae awdurdodau lleol yn eu hwynebu.

Roedd hwn yn dilyn arolygiad gan Estyn o Wasanaeth Addysg y Cyngor, a fu'n ganmoliaethus iawn, gan amlygu sawl maes arfer da gan gynnwys arweinyddiaeth, cydweithio a hyrwyddo'r iaith Gymraeg.

Yn y cyfamser, rydym hefyd wedi bod yn bwrw ymlaen gyda'r gwaith o gyflawni'r ymrwymïadau yn ein

Strategaeth Gorfforaethol ac mae cynnydd rhagorol yn cael ei wneud o hyd.

Er enghraifft, mae gweinidogion wedi cadarnhau bod ail gyfran cyllid Bargaen Tyfu Canolbarth Cymru, sy'n werth £11.8m, wedi cael ei datgloi i wireddu potensial yr economi leol, gwella ffyniant rhanbarthol a chreu cyfleoedd i bobl leol.

Ymhellach, mae'r gwaith ar gynllun amddiffyn arfordirol Aberaeron, a fydd yn costio £32m, ar fin cael ei gwblhau, a bydd yn diogelu'r dref a'r arfordir cyfagos rhag lefel y môr sy'n codi, gan atal llifogydd ac erydu arfordirol.

Cyhoeddwyd ein Strategaeth Iaith Gymraeg newydd, a fydd yn cynyddu cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac yn helpu'r iaith i ffynnu ar draws y Sir.

Agorwyd Ysgol newydd Dyffryn Aeron yn swyddogol ym mis Mawrth 2025 gan Brif Weinidog Cymru, Eluned Morgan AS, gan gynnig addysg cyfrwng Gymraeg i 240 o ddisgyblion wrth gyfoethogi'r profiad dysgu ac addysgu yn yr ardal leol.

Agorwyd Canolfan Byw'n Annibynnol Penmorfa yn ystod y flwyddyn hefyd, sy'n cynnig dyfeisiau clyfar er mwyn helpu pobl i fanteisio ar wybodaeth

a'u grymuso i fyw bywyd annibynnol am gyfnod hwy yn eu cartref.

Roedd hi'n ffrainc fawr i Geredigion fod yn Sir Nawdd Sioe Frenhinol Cymru y llynedd, gan arddangos y diwylliant cyfoethog a'r ysbryd cymunedol sy'n diffinio ein Sir wledig.

Roedd llwyddiant Rali Ceredigion, un o rowndiau'r Bencampwriaeth Ralio Ewropeaidd, ac sy'n cael ei chefnogi gan y Cyngor, wedi cael effaith economaidd uniongyrchol o dros £4m i Geredigion.

Yn ystod haf 2024, buom yn gweithio'n agos gyda chydweithwyr ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda i ddarparu gofal i gleifion yng nghartref gofal preswyl Hafan y Waun yn Aberystwyth oherwydd bod Ward Meurig wedi cau dros dro yn Ysbyty Bronglais tra bod atgyweiriadau brys yn cael eu gwneud i do'r ward.

Rydym hefyd yn parhau i fuddsoddi mewn ffyrdd newydd o weithio ac mewn technoleg newydd er mwyn trawsnewid y ffordd y darparir gwasanaethau i bobl leol.

Er enghraifft, gall tanysgrifwyr 'Fy Nghyfrif' ddewis cael cylchlythyr sy'n hyrwyddo amrediad y gwasanaethau yr ydym yn eu cynnig, darparu gwybodaeth ddefnyddiol, a rhannu



Cynghorydd Bryan Davies
Arweinydd Cyngor Sir Ceredigion

straeon newyddion gyda chi. Hyd yn hyn, mae dros 5,000 o breswylwyr Ceredigion wedi cofrestru amdano.

Gan gydweithio fel un tîm, 'Tîm Ceredigion', rydym wedi gallu cynnig gwelliannau go iawn a mynd i'r afael â'r pethau sydd bwysicaf i bobl yng Ngheredigion trwy gydol y flwyddyn.

Fodd bynnag, fel pob awdurdod lleol, rydym yn wynebu heriau yn ogystal â chyfleoedd. Mae'r darlun ariannol yn hynod o heriol ac wrth i ni barhau i archwilio ffyrdd arloesol o ddarparu gwasanaethau, bydd yn rhaid gwneud rhai penderfyniadau anodd iawn yn y dyfodol.

Mawr obeithiwn y byddwch o'r farn bod yr adroddiad hwn yn un diddorol ac yn ffordd ddefnyddiol o gadw mewn cysylltiad â'n taith i wella perfformiad.

EIN SIR MEWN RHIFAU

Mae poblogaeth Ceredigion wedi cynyddu 1,923 ers y Cyfrifiad yn 2021 oherwydd cynyddiad mudo o fewn y DU. Y grŵp oedran 15-19 welodd y cynyddiad fwyaf.

72,599
o breswylwyr

31,709
aelwyd

47mlwydd oed
oedran cyfartalog

2,955
menter gweithredol

22%
gydag anabledd

90km
o arfordir

45.3%
yn siaradwyr Cymraeg

2,265km
o ffyrdd

8,320
myfyrwyr prifysgol

18.4%
mewn amddifadedd materol

4%
o gefndiroedd ethnig
lleiafrifol

2,500km
o lwybrau ceffylau a
llwybrau troed

43
ysgol a 9,460
disgybl

2.95m
ymwelwyr i Geredigion
yn flynyddol

8,800
person yn
hunangyflogedig

3
Canolfan hamdden sy'n
cael eu rhedeg gan y
Cyngor ac 1 Canolfan
Llesiant

AM GEREDIGION



Mae Ceredigion yn 1,900km² o ran maint ac mae'n dir amaethyddol, yn rhostir ac yn goedwigoedd ar y cyfan, ac mae'r ardaloedd ucheldirol i'r dwyrain yn creu cyfran sylweddol o Fynyddoedd Cambria.

Mae gan Geredigion amrywiaeth o dirluniau a chynefinoedd naturiol: traethau a chlogwyni arfordirol ac ucheldir agored. Mae pobl leol ac ymwelwyr yn gwerthfawrogi tirluniau ac amgylchedd naturiol y sir yn fawr.

Mae Ceredigion yn cynnwys cyfran uchel o dir a gydnabyddir am ei werth amgylcheddol uchel trwy gyfrwng dynodiadau swyddogol, gan gynnwys dwy ardal gwlypdir o bwysigrwydd rhyngwladol (aber afon Dyfi a Chors Caron); 13 Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA); tua 100 Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA), saith Gwarchodfa Natur Genedlaethol a thair Gwarchodfa Natur leol. Mae ucheldiroedd Mynyddoedd Cambria yn bwysig ar gyfer bywyd gwyllt, yn ogystal â'r 'rhostiroedd' gwlyb.

Mae gan Geredigion dros 90 cilomedr o arfordir. Mae pedair adran o arfordir Ceredigion (tua 35 cilomedr) yn Arfordir Treftadaeth dynodedig. Mae Llwybr yr Arfordir Cymru yn dilyn llwybr 60 milltir (96km) rhwng aberoedd Teifi a Dyfi. Mae Llwybr yr Arfordir yn cysylltu trefi a phentrefi ar hyd arfordir ysblennydd Bae Ceredigion.

Mae'r tirluniau deniadol a'r lleoliadau anghysbell yng Ngheredigion yn cynnig

sylfaen ar gyfer twristiaeth 'lles gwledig', sy'n denu twristiaid i'r ardal. Mae bron 3 miliwn o ymwelwyr â Cheredigion yn blynyddol.

Er bod yr amgylchedd wastad wedi bod yn nodwedd lles a werthfawrogi, dros y blynyddoedd diwethaf, mae diogelu'r amgylchedd wedi dod yn rhywbeth llawer pwysicach i bobl. Mae effeithiau andwyol newid hinsawdd ar yr amgylchedd a natur yn cael eu cydnabod yn llawer mwy ac mae pobl eisiau gwneud mwy i warchod ein hamgylchedd. Yn 2020, datganwyd argyfwng newid hinsawdd gan Gyngor Sir Ceredigion, a chyn hyn, roedd y Cyngor wedi ymrwymo i fod yn gyngor carbon sero net erbyn 2030.

Mae economi Ceredigion yn eithaf nodweddiadol o economi nifer o ardaloedd gwledig ac arfordirol. Mae cyfran uchel o swyddi ym maes iechyd dynol a gwaith cymdeithasol (15.4%), masnach cyfanwerthu a manwerthu (15.4%) ac addysg (15.4%). Mae maes Llety a Gwasanaethau Bwyd, sy'n cynnwys Twristiaeth, yn faes cryf hefyd (13.5%). Yn y cyfamser, amaethyddiaeth, coedwigaeth a physgota yw'r sector mwyaf o hyd, gan bod un o bob tair menter yn y Sir yn perthyn i'r sector hwn.

Maint poblogaeth Ceredigion yw 72,599 a hon yw'r ail sir fwyaf prin ei phoblogaeth yng Nghymru. Mae tua 10% o'i phoblogaeth yn fyfyrwyr.

Mae'r Sir yn gartref i Brifysgol Aberystwyth a sefydliadau cenedlaethol

fel Llyfrgell Genedlaethol Cymru. Mae'r economi wybodaeth yn gryf yng Ngheredigion ac mae ganddi 'economi werdd' sy'n tyfu, gan ganolbwyntio ar allyriadau carbon isel, defnyddio adnoddau mewn ffordd effeithlon a bod yn gynhwysol yn gymdeithasol.

Mae hunangyflogaeth yn elfen bwysig o'r economi leol, ac yn aml, mae Ceredigion yn cynnwys y cyfran uchaf y bobl hunangyflogedig ar lefel genedlaethol. Mae nifer yn ffermwyr ac mae eraill yn gweithio mewn amrediad o fentrau bychain sefydledig megis trwsio a chynnal a chadw adeiladau.

Mae mwyafrif helaeth (99%) y mentrau yng Ngheredigion yn rhai maint 'micro', h.y. hyd at 9 cyflogai neu'n rhai 'bach' (10 i 49 cyflogai). Dim ond 1% o fentrau yng Ngheredigion sy'n cynnwys hanner cant o cyflogeion neu fwy. Mae cyfraddau goroesi busnesau newydd eu sefydlu yn gyson ymhlith yr uchaf yn genedlaethol, gan wneud Ceredigion yn lle gwych i ddechrau a thyfu busnes.

Mae gan Geredigion weithlu cymwys iawn ac mae'r cyrhaeddiad addysgol ar bob lefel ymhlith y gorau yng Nghymru yn gyson.

Ystyrir bod Ceredigion yn un o gadarnleoedd yr iaith Gymraeg, er gwaethaf y ffaith ei bod yn cynnwys poblogaeth sylweddol o fyfyrwyr. Dangosodd canlyniadau o Gyfrifiad 2021 bod 45.3% o breswylwyr Ceredigion yn gallu siarad yr iaith Gymraeg, y drydedd ganran uchaf o blith yr holl awdurdodau

lleol eraill yng Nghymru.

Ceir 43 o ysgolion yng Ngheredigion, y maent yn gymysgedd o ysgolion cynradd, uwchradd a phob oed. Mae 37 yn ysgolion cyfrwng Cymraeg, sy'n golygu bod mwyafrif ein poblogaeth iau yn dysgu ac yn defnyddio'r Gymraeg o oedran ifanc.

Mae Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg Ceredigion 2022-32 yn anelu at sicrhau bod holl ddisgyblion ysgolion yr awdurdod yn mynychu addysg trochfa cyfrwng Cymraeg hyd at saith oed ac yn cynyddu dewis y disgybl i ddilyn llwybr cwbl ddwyieithog drwy ei yrfa ac yn ei bywyd cymdeithasol yn y dyfodol. Mae hefyd yn cyfrannu at nod llesiant cenedlaethol Cymru a nod Llywodraeth Cymru o gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg i 1 miliwn erbyn 2050.

Mae Ceredigion yn sir sy'n adnabyddus am ei safleoedd diwylliannol a threftadaeth. Mae yna hefyd nifer o draethau, yn cynnwys tri a gafodd Wobr Baner Glas yn ystod 2024, sy'n denu nifer o dwristiaid i'r ardal trwy gydol y flwyddyn.

Y CYNGOR

Yn yr etholiadau lleol ym mis Mai 2022, dychwelodd trigolion Ceredigion 38 o gynghorwyr mewn 34 o wardiau ar draws y Sir. Ym mis Mawrth 2023, mae'r weinyddiaeth newydd yn fwyafriaf Plaid Cymru gyda 21 o gynghorwyr, ynghyd â 9 aelod annibynnol, 7 o Ddemocratiaid Rhyddfrydol Cymru a 1 o Gwlad.

Arweinydd y Cyngor yw'r Cynghorydd Bryan Davies a'r Cynghorydd Ann Bowen Morgan yw Cadeirydd presennol y Cyngor.

Mae Ceredigion yn buddsoddi mewn technoleg newydd i trawsffurfio'r ffyrdd mae gwasanaethau yn cael ei darparu i bobl leol. Mae hyn er mwyn sicrhau ei bod yn cwrdd â'r galw sy'n tyfu ac yn gynaliadwy yn y dyfodol, mae hefyd er mwyn darparu profiad gwell.

Mae'r Rhaglen Llesiant Gydol Oes sydd yn trawsffurfio gofal cymdeithasol a'r Canolfan Cyswllt Cwsmer, 'CLIC' yn ddwy enghraifft dda o hyn.


Rydym yn gweithredu mewn amgylchedd heriol gyda pwysau ariannol sy'n cynyddu. Er mwyn cyflawni ein Hamcanion Llesiant Corfforaethol tra'n cynnal gwasanaethau effeithiol ac effeithlon, rhaid i daith ein gweithlu fod yn un o adolygu a newid parhaus. Mae'n hanfodol ein bod yn cynnal dull arloesol ac ystwyth, yn agored ac yn wydn i newid, gyda'r sgiliau i gefnogi ffyrdd callach o weithio mewn byd digidol.

Ein nod yw gwella effeithlonrwydd ein prosesau a systemau mewnol, gan ein galluogi i fesur ein perfformiad yn effeithiol.

Mae'r Cyngor yn cyflogi cyfanswm o 3,462 o staff gan gynnwys staff ysgolion*. Ein nod yw eiriol dros, ac adeiladu ar, ein hethos 'Tîm Ceredigion'. Hyrwyddo ein hymdeimlad o berthyn, cysylltiad a phwrpas cyffredin. Rydym yn dyheu am bob aelod Tîm Ceredigion i ymfalchïo yn y gwaith y maent yn ei wneud, ac i gydnabod arwyddocâd eu cyfraniad i lwyddiant cyffredinol y Cyngor.

* Dyma "cyfrif pen" o gyfanswm nifer y staff a gyflogir.

STRWYTHUR RHEOLI CYNGOR SIR CEREDIGION (O Awst 2025)



NI YW 'TÎM CEREDIGION'

Mae'r dull Un Tîm yn rhan o diwylliant
y Cyngor ac mae'n ammatod i'r ffyrdd
newydd o weithio

Mae Un Tîm yn cefnogi'r
Hunanasesiad wrth hwyluso cyd-
weithio, meddwl cysylltiedig â
chefnogaeth ar draws y gwasanaeth er
mwyn cyflawni ein nodau Llesiant
Corfforaethol a gwella canlyniadau i
bobl leol a rhanddeiliaid

Rydym yn gweithredu mewn
amgylchedd heriol gyda phwysau
cyllidebol cynyddol. Mae'n hanfodol
ein bod yn cynnal ymagwedd arloesol
ac ystwyth, ein bod yn agored ac yn
wydn i newid, gyda'r sgiliau i gefnogi
ffyrdd callach o weithio mewn byd
digidol.

Llun: mae cynllun Amddiffyn Arfordirol Aberaeron gwerth £32 miliwn yn mynd rhagddo a bydd yn
amddiffyn y dref a'r arfordir cyfagos rhag lefelau'r môr yn codi, gan atal llifogydd ac erydiad arfordirol.



MEINCNODI - PROFFIL PERFFORMIAD YR AWDURDOD LLEOL

Proffil Perfformiad Awdurdod Lleol

Mae Data Cymru wedi datblygu offeryn meincnodi i gefnogi awdurdodau lleol i deall ei pherfformiad cyffredinol yn well.

Enw'r offeryn newydd ydy'r Proffil Perfformiad Awdurdod Lleol ac mae'n cynnwys detholiad o 34 mesur perfformiad allweddol ar draws 11 thema, ynghyd ag amrywiaeth o ddata cydestunol i helpu i osod yr olygfa.

Mae'n meincnodi holl berfformiad awdurdodau lleol gyda'r cyfartaledd cenedlaethol, chwartelau ac efo canlyniadau awdurdodau arall i sefydlu

ble mae'n perfformio yn well a ble sydd angen gwella. Mae'r canlyniadau yn cael i'w ddiweddarau yn barhaol fel bod modd i'r offeryn darparu ciplun o unrhyw bwynt mewn amser.

Defnyddiwyd y Proffil i gefnogi Asesiad Perfformiad Panel cyntaf y Cyngor ym mis Hydref 2024. Roedd yn un o nifer o ddarnau o dystiolaeth i helpu i lywio barn y Panel ar sut mae'r Cyngor yn perfformio.

Rydym hefyd yn defnyddio canlyniadau'r Proffil drwy gydol y flwyddyn i helpu i nodi meysydd i'w gwella a meysydd i'r pwyllgor craffu eu sylw.

Canlyniadau Diweddaraf

Mae'r canlyniadau diweddaraf ym mis Mehefin 2025 yn dangos bod Ceredigion yn parhau i berfformio'n dda ar draws y mesurau allweddol ac yn un o'r awdurdodau sy'n perfformio orau yn gyson yn genedlaethol.


Er enghraifft:

- Ceredigion sydd â'r ail nifer uchaf ar y cyd o fesurau perfformiad yn y chwarter uchaf gyda 13 (gweler y siart isod ar y chwith).
- Ceredigion sydd â'r nifer trydydd uchaf o fesurau perfformiad yn y chwarter


canol uchaf ac uchaf gyda 22 allan o 34 (gweler y siart isod).

- Ceredigion sydd â'r cydradd ail uchaf o'i mesurau yn y chwarter canol uchaf ac uchaf yn genedlaethol, sef 66.7%.
- Yn gyffredinol, mae gan Geredigion 13 o fesurau yn y chwarter uchaf, 9 yn y chwarter canol uchaf, 5 yn y chwarter canol isaf a 6 yn y chwarter isaf fel y dangosir yn y siart isod ar y dde.
- Ers y diweddariad diwethaf, mae perfformiad Ceredigion wedi gwella mewn 6 o'r mesurau, wedi aros yr un fath mewn 17, ac wedi gostwng mewn 10. (Mae 1

NIFER Y MESURIADAU YN Y CHWARTEL UCHAF



NIFER Y MESURIADAU YN Y CHWARTEL CANOL UCHAF AC UCHAF



mesur na ellir ei asesu ac sydd wedi'i eithrio o'r siartiau isod).

Beth mae'r Canlyniadau'n dweud

Ers lansio'r Proffil gyntaf, mae Ceredigion wedi bod yn gyson yn un o'r awdurdodau sy'n perfformio orau ledled y wlad.

Er gwaethaf yr heriau sylweddol y mae Ceredigion yn eu hwynebu drwy fod yn un o'r awdurdodau sy'n cael y cyllid isaf, ynghyd â'r heriau sy'n ymwneud â gwledigrwydd a phoblogaeth wasgaredig, mae'r canlyniadau hyn yn darparu tystiolaeth ddefnyddiol bod y Cyngor nid yn unig yn perfformio'n dda o gymharu ag

awdurdodau ledled Cymru, ond hefyd yn gwneud defnydd effeithiol o'r adnoddau sydd ar gael iddo.

Dyma ddwy o brif themâu Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) sef bod y Cyngor yn 'arfer ei swyddogaethau'n effeithiol' ac yn 'defnyddio ei adnoddau yn ddarvoudus, yn effeithlon ac yn effeithiol'.

Camau Nesaf

Mae'r mesurau sy'n is na'r cyfartaledd ac sy'n disgyn o fewn y chwarter canol isaf ac isaf yn cael eu harchwilio'n fanylach gan y Grŵp Arweiniol a'r Bwrdd Perfformiad.

Mewn rhai achosion, byddant yn cael eu galw i'r pwyllgor craffu perthnasol i helpu i nodi pam mae perfformiad islaw'r cyfartaledd a sut y gellir ei wella. Mae hyn yn rhan o'n cylch parhaus o wella a amlinellir yn fanylach ar dudalen 28.


Cynlluniau i'r Dyfodol

Bydd yr offeryn Proffil Perfformiad yn parhau i gael ei ddatblygu, felly bydd yr ystod o fesurau sydd wedi'u cynnwys a'r swyddogaeth yn gwella ymhellach yn y misoedd i ddod. Mae'r Proffil yn rhan annatod o drefniadau rheoli perfformiad y Cyngor ac yn enghraifft dda o gwelliant a arweinir gan y sector. Byddwn yn parhau i


weithio'n rhagweithiol gyda ein cydweithwyr yn Data Cymru a Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i rhannu a dysgu o arfer gorau ar draws y sector.

(Sylwch fod cyfyngiadau ar hyn o bryd ar ba ddata y gellir eu cyhoeddi o'r offeryn, felly dim ond Ceredigion a nodir yn y siartiau ar y tudalen gyferbyn).

NIFER Y MESURIADAU YN ÔL CHWARTEL: CEREDIGION



CRYNODEB O BERFFORMIAD (Y DATA DIWEDDARAF O'I GYM HARU Â'R CYFNODAU ADRODD BLAENOROL): CEREDIGION



MESURAU PERFFORMIAD CEREDIGION FESUL CHWARTEL

Mesur perfformiad	Dyddiad presennol	Gwerth cyfredol	Safle chwarter presennol	Safle presennol	Perfformiad presennol yn seiliedig ar werth
Chwarter uchaf					
% y cwynion a gadarnhawyd gan yr Ombwdsmon yn erbyn yr awdurdod lleol	2022 Ebrill-Medi	0	1	1	↔
Nifer y cwynion a dderbyniwyd fesul 1,000 o drigolion	2022 Ebrill-Medi	1.7	1	4	↑
% debyd y dreth gyngor a ddilëwyd yn ystod y flwyddyn	2024-25	0	1	1	↔
Swm yr ôl-ddyledion treth gyngor a dderbyniwyd fel % o'r ôl-ddyledion debyd	2024-25	32	1	5	↓
% y rhai sy'n gadael yr ysgol; Blwyddyn 11; NEET (hysbys nad yw mewn cyflogaeth, addysg amser llawn na hyfforddiant seiliedig ar waith i bobl ifanc)	2023	1.5	1	5	↓
% y dysgwyr sy'n cyflawni 3 chymhwyster Safon Uwch neu fwy; A* - C	2021/22	62	1	5	↑
Nifer sy'n cael llety dros dro fesul 10,000 o aelwydydd	2023-24 Ionawr-Mawrth	27.4	1	4	↓
Nifer yr anheddau a gafodd eu gwella gyda Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl fesul 10,000 o aelwydydd	2022-23	49.9	1	4	↑
% y plant a roddwyd ar y gofrestr a oedd wedi'u cofrestru'n flaenorol yn y 12 mis blaenorol	2023-24	0.9	1	3	↑
% yr ymweliadau statudol a gwblhawyd o fewn graddfeydd amser statudol/cymeradwy	2023-24	101.8	1	4	↑
Cyfanswm nifer yr achosion o dipio anghyfreithlon a gofnodwyd fesul 1,000 o'r boblogaeth	2023-24	0.8	1	2	↑
% y gwastraff dinesig sy'n cael ei aildddefnyddio, ei ailgylchu neu ei gompostio (Targed Statudol)	2023-24	71.3	1	4	↑
% y disgyblion oedd yn dysgu Cymraeg fel iaith gyntaf	2023/24	57.7	1	3	↑
Chwarter canol uchaf					
Swm y dreth gyngor a dderbyniwyd fel % o gyfanswm y debyd	2024-25	98.5	2	10	↑
% y rhai sy'n gadael yr ysgol; Blwyddyn 13; NEET (hysbys nad yw mewn cyflogaeth, addysg amser llawn na hyfforddiant seiliedig ar waith i bobl ifanc)	2023	2.8	2	8	↓
Nifer y dysgwyr sydd wedi'u cofrestru ar gyfer dysgu cymunedol awdurdodau lleol fesul 1,000 o'r boblogaeth	2022/23	6.6	2	7	↑
Cymhareb hylifedd (cyfalaf gweithio).	2022-23	2	2	6	↓
Cyfanswm Cronfeydd Defnyddiadwy Wrth Gefn fel % o gost net gwasanaethau	2022-23	42.7	2	10	↓

Mesur perfformiad	Dyddiad presennol	Gwerth cyfredol	Safle chwarter presennol	Safle presennol	Perfformiad presennol yn seiliedig ar werth
Chwarter canol uchaf					
Aelwydydd sydd wedi llwyddo i gael rhyddhad rhag digartrefedd - Canran (%)	2023-24 Blynyddol	24.8	2	10	↓
Aelwydydd a gafodd eu hatal yn llwyddiannus rhag digartrefedd - Canran (%)	2023-24 Blynyddol	64.6	2	7	↓
% y cynlluniau gofal a chymorth a gafodd eu hadolygu o leiaf unwaith yn ystod y flwyddyn	2023-24	64.5	2	10	↑
% y pecynnau ailalluogi a gwblhawyd lle mae'r angen am gymorth yn cael ei gynnal, ei leihau neu ei liniaru	2023-24	97.4	2	7	↑
Chwarter canol isaf					
% y cwynion a gadarnhawyd	2022 Ebrill-Medi	51	3	15	↓
Swm y dreth gyngor a gasglwyd fel % o gyfanswm y gyllideb	2024-25	95.5	3	12	↓
Aelwydydd sydd wedi'u rhyddhau'n gadarnhaol o ddigartrefedd - Canran (%)	2023-24 Blynyddol	66	3	14	↓
Cilogramau o wastraff cartref gweddilliol yn cael ei gasglu fesul person	2023-24	184	3	12	↓
Cilogramau o wastraff cartref gweddilliol a gasglwyd fesul annedd	2023-24	362	3	12	↓
Chwarter isaf					
% y cwynion a gyfeiriwyd at yr Ombwdsmon	2022 Ebrill-Medi	32.7	4	21	↑
% y cwynion a gaewyd o fewn 20 diwrnod	2022 Ebrill-Medi	55.1	4	21	↓
Cyfanswm nifer yr anheddau a gafodd eu gwella drwy gymorth awdurdod lleol fesul 10,000 o aelwydydd	2023-24	0	4	17	↔
nifer yr unedau tai fforddiadwy ychwanegol a ddarparwyd fesul 10,000 o aelwydydd	2023-24	13.6	4	19	↑
% y Plant sy'n Derbyn Gofal (CLA) sydd ag un neu fwy o newid ysgol	2023-24	14.8	4	21	↑
% yr asesiadau lle mae tystiolaeth bod y plentyn wedi'i weld	2023-24	28.7	4	19	↑
Ni ellir ei asesu					
% yr ymholiadau a gwblhawyd o fewn 7 diwrnod (gofal cymdeithasol oedolion)	2023-24				–

BETH WNAETHOM GYFLAWNI YN 2024/25...



Cadarnhaodd llywodraethau Cymru a'r DU ryddhau ail gyfran o gyllid **Bargen Twf Canolbarth Cymru** gwerth £11.8m ym mis Mawrth 2025



Agorwyd **Ysgol Dyffryn Aeron** newydd yn swyddogol ym mis Mawrth 2025 gan ddarparu cyfleusterau dysgu modern o'r radd flaenaf i ddisgyblion



Cafodd Ceredigion flwyddyn nodedig yn 2024 fel sir nawdd **Sioe Amaethyddol Frenhinol Cymru**, gan arddangos ei diwylliant cyfoethog a'i ysbryd cymunedol



Roedd y Cyngor yn falch o gefnogi **Rali Ceredigion** ym mis Awst 2024 gydag effaith economaidd amcangyfrifedig o dros £4 miliwn i'r economi leol



Agorodd **Canolfan Byw'n Annibynnol Penmorfa** ym mis Mai 2024 gyda'r nod o rymuso unigolion i fyw'n annibynnol gartref am hirach




Trosglwyddwyd Cartref Gofal **Hafan y Waun** yn Aberystwyth i berchnogaeth y Cyngor i sicrhau parhad yr adnodd hanfodol hwn ar gyfer y dyfodol

...A BETH SY'N DOD YN 2025/26!



Yn dilyn trafodaethau rhwng Cyngor Sir Ceredigion a Phrifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant, mae cynlluniau cyffrous yn cael eu datblygu i ddarparu addysg alwedigaethol ôl-16 ar **Gampws Llambed**, gyda phwyslais arbennig ar gyrsiau seiliedig ar sgiliau sy'n hanfodol i economi wledig Cymru, megis amaethyddiaeth, garddwriaeth, gastronomieg ac adeiladu




Mae gwaith adeiladu ar **Gynllun Amddiffyn Arfordirol Aberaeron** yn mynd rhagddo'n dda a disgwylir iddo gael ei gwblhau yn haf 2025



Mae momentwm yn cynyddu ar draws **Bargen Twf Canolbarth Cymru** gyda llawer o fentrau'n paratoi i fynd i mewn i'r cyfnod cyflawni dros y flwyddyn nesaf



Mae gwaith yn mynd rhagddo i ddarparu'r ail **Ganolfan Llesiant** yn y Sir, wedi'i lleoli yn Aberteifi ac yn gwasanaethu de'r Sir



Bydd **Llyfrgell Aberaeron** a'r ddarpariaeth gwasanaeth cwsmeriaid wyneb yn wyneb yn cael eu hadleoli i swyddfeydd y Cyngor ym Mhenmorfa, gan gynnig gwasanaeth llyfrgell a chwsmeriaid gwell ynghyd â mynediad i'r Ganolfan newydd ar gyfer Byw'n Annibynnol



Mae **Cynllun Graddedigion** newydd wedi'i lansio gan y Cyngor, sy'n cynnig cyfle i raddedigion diweddar ddatblygu eu gyrfaoedd mewn amrywiaeth o feysydd allweddol o fewn y rhanbarth a'r cymunedau lle cawsant eu magu



Bydd cam nesaf y gwelliannau yng **Nghanolfan Hamdden Aberaeron** yn cynnwys addurno'r neuadd chwaraeon a gosod llawr newydd yn ystod hydref 2025



Bydd y Cyngor yn cynnal gwaith i wella'r **llwybr sy'n cysylltu â Llyfrgell Genedlaethol Cymru** yn dilyn penodi contractwr lleol

ASESIAD PERFFORMIAD PANEL

Cefndir

Bwriedir i Asesiadau Perfformiad Panel roi persbectif annibynnol ac allanol o'r graddau y mae'r Cyngor yn bodloni gofynion perfformiad Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, sef:

- ei fod yn arfer ei swyddogaethau'n effeithiol;
- ei fod yn defnyddio ei adnoddau yn ddarbodus, yn effeithlon ac yn effeithiol;
- mae ei lywodraethu yn effeithiol ar gyfer sicrhau'r uchod.

Y nod yw cefnogi cyngorau i gyflawni eu dyheadau trwy ddatblygu dealltwriaeth o sut maent yn gweithredu a sut y gallant sicrhau eu bod yn gallu darparu gwasanaethau effeithiol yn yr hirdymor.

Canfyddiadau'r Panel

Cynhelir yr Asesiad gan banel o gyfoedion hyfforddedig ar draws y sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol. Cynhaliwyd Asesiad Perfformiad Panel cyntaf Ceredigion rhwng 30 Medi a 3 Hydref 2024.

Bu'r Asesiad Perfformiad Panel yn llwyddiant i'r Cyngor ac adlewyrchir hyn ym mhrofiad cadarnhaol y Panel a'r casgliadau y daethpwyd iddynt yn ei hadroddiad terfynol.

Daeth y Panel i'r casgliad bod gan ystyried y galwadau uchel presennol ar wasanaethau a'r pwysau ariannol heriol iawn, mae Cyngor Sir Ceredigion yn

awdurdod lleol sy'n cael ei redeg yn dda.

Amlygodd y Panel y canlynol fel enghreifftiau o hyn:

- Mae gan y Cyngor arweinyddiaeth glir ac effeithiol, gyda pherthnasoedd cadarn ar draws y strwythurau gwleidyddol a swyddogion gweithredol a'r strwythurau ehangach.
- Mae'r Cyngor yn cyflawni ei swyddogaethau mewn ffordd effeithiol yng ngoleuni pwysau ariannol, strategol a gweithredol y mae'n delio â nhw yn ddyddiol.
- Mae gan y Cyngor drefniadau llywodraethu ac adrodd effeithiol mewn grym.
- Mae'r Cyngor wedi gwneud defnydd effeithiol ac effeithlon o adnoddau hyd yn hyn.
- Mae'r Cyngor wedi sefydlu ac mae'n datblygu meysydd arloesi gan gynnwys Canolfannau Lles, Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu, a gweithio hybrid.

Yn ystod yr wythnos, ymwelodd y Panel â'r Ganolfan Lles a lansiwyd yn ddiweddar yn Llanbedr Pont Steffan, cartref gofal Hafan y Waun yn Aberystwyth a'r Ganolfan Byw'n Annibynnol ym Mhenmorfa i weld drostynt eu hunain sut y mae'r Cyngor yn arloesi ac yn buddsoddi mewn technoleg newydd er mwyn cynorthwyo lles corfforol, meddyliol a chymdeithasol preswylwyr y Sir.

Mae'r adroddiad yn amlygu'r heriau y mae'r Cyngor yn eu hwynebu hefyd:

- Pwysau ariannol anodd, yn enwedig trwy wasanaethau a arweinir gan y galw.
- Cynaliadwyedd cyllid ym maes gofal cymdeithasol o ystyried y pwysau ariannol.
- Yr anfanteision i awdurdodau gwledig a achosir gan rai elfennau o'r gwaith adrodd ariannol am y fformwla cyllid, a gweithrediad anghyson mecanweithiau cyllido gwaelodol.
- Effaith diboblogi gwledig a'r heriau ehangach sy'n gysylltiedig â gwledigrwydd a phoblogaeth brin.
- Recriwtio a chadw staff mewn rhai gwasanaethau megis gofal cymdeithasol.

Argymhellion

Mae gofyn i'r Panel wneud unrhyw argymhellion i dywys y Cyngor hefyd wrth nodi camau a fydd yn cynyddu'r graddau y mae'n cyflawni'r gofynion perfformiad.

Mae cyfleoedd ar gyfer gwella wedi'u nodi, a fydd yn gwella'r trefniadau sydd ar waith, i gefnogi cyfathrebu effeithiol, rheoli perthnasoedd a pherchnogaeth gyfunol o heriau'r presennol a'r dyfodol.

Roedd y Panel wedi gwneud cyfres o wyth argymhelliad a restrir ar dudalen 12, ynghyd ag ymateb y Cyngor i'r Asesiad.

CASGLIADAU CYFFREDINOL

“Gan ystyried y galwadau uchel presennol ar wasanaethau â'r pwysau ariannol heriol iawn, mae Cyngor Sir Ceredigion yn awdurdod lleol sy'n cael ei redeg yn dda.”

“Mae gan y Cyngor arweinyddiaeth glir ac effeithiol gyda pherthnasoedd cryf ar draws y weithrediaeth wleidyddol a swyddogion a'r strwythurau ehangach ”

“Mae'r Cyngor yn cyflawni ei swyddogaethau'n effeithiol yng ngoleuni'r pwysau ariannol, strategol a gweithredol sylweddol y mae'r Cyngor yn delio â o ddydd i ddydd.”

“Mae gan y Cyngor drefniadau llywodraethu ac adrodd effeithiol ar waith.”

“Mae'r Cyngor wedi dangos ei fod wedi gwneud defnydd effeithiol ac effeithlon o adnoddau hyd yma.”

YMATEB I'R PANEL ASESU PERFFORMAID

Mae'r Cyngor yn croesawu Adroddiad Asesu Perfformiad y Panel ac yn ddiolchgar i'r Panel am eu gwaith wrth ddarparu persbectif annibynnol ac allanol o'r graddau y mae'r Cyngor yn bodloni'r gofynion perfformiad o dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.

Mae'r Cyngor yn cydnabod y meysydd gwella a nodwyd gan y Panel Asesu Perfformiad hefyd, ac mae'n derbyn eu hargymhellion.

Rhestrir ymateb manwl y Cyngor a'r camau cytunedig yn yr Ymateb i'r Aseiad Perfformiad Panel. Dangosir crynodeb o'r argymhellion a chamau'r Cyngor er mwyn ymateb iddynt yn y tabl ar y dde.

Cyflwynir adroddiad dilynol ymhen chwe mis (Medi 2025) i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio er mwyn adolygu'r cynnydd a chynnig sicrwydd bod yr argymhellion yn cael sylw.

Argymhelliad y Panel	Er mwyn mynd i'r afael â'r argymhelliad, byddwn yn	Amserlen
1) Bydd angen i'r Cyngor ystyried y ffordd orau o ymgynghori ar doriadau posibl yn y gyllideb o ystyried yr amserlen gul ar gyfer ymgynghori oherwydd y terfynau amser statudol ar gyfer pennu'r gyllideb.	Ystyried cynnal ymgynghoriad corfforaethol cyffredinol cyn cymeradwyo cyllideb 2026/27.	31/03/2026
2) Hyd yn hyn, mae'r Cyngor wedi gallu darparu cyllid ychwanegol sylweddol ar gyfer darparu gofal cymdeithasol, a bydd angen ystyried pa mor gynaliadwy y mae hyn yn symud ymlaen o ystyried y pwysau ariannol.	Sefydlu cartrefi â staff o'r sir ar gyfer plant sy'n derbyn gofal Lleihau dibyniaeth ar weithwyr asiantaeth lle mae'n ddiogel gwneud hynny.	31/03/2027
3) Dylai'r Cyngor ystyried y cyfleoedd ar gyfer gwaith partneriaeth pellach.	Archwilio ffyrdd newydd ac arloesol o ddarparu gwasanaethau gyda'r holl bartneriaid, gan gynnwys mynd ar drywydd cyfleoedd pellach ar gyfer darparu gwasanaethau a swyddogaethau a chyfleusterau a rennir gyda phartneriaid.	Cyfredol
4) Mae angen brys i'r Cyngor ailystyried a yw eu strategaeth bresennol ar gyfer recriwtio gwaith cymdeithasol yn effeithiol ac archwilio dewisiadau eraill.	Darparu a buddsoddi yn y strategaeth i ddatblygu gweithwyr cymdeithasol eu hunain, gyda'r nod y gellir ennill 21 o unigolion yn cymhwyso fel gweithwyr cymdeithasol dros y 4 blynedd nesaf.	Cyfredol
5) Dylai'r Cyngor ystyried sut i fynd i'r afael â thema gyson o gyfathrebu aneffeithiol ar draws yr awdurdod yn enwedig gyda phartneriaid a phreswylwyr ac effeithiolrwydd "Clic".	Ymgymryd â dadansoddiad rheolaidd o ryngweithio postiadau cyfryngau cymdeithasol, fideos ac e-gylchlythyrau corfforaethol a defnyddio'r wybodaeth i lywio strategaethau'r dyfodol. Datblygu Strategaeth Gyfathrebu sy'n amlygu'r arddull a'r parodrwydd i ymgysylltu.	31/03/2026
6) Mae yna ychydig o ddatgysylltiad rhwng aelodau'r fainc gefn a'r timau gweithredol / uwch arweiniol y mae angen mynd i'r afael â nhw.	Bydd yr Arweinydd yn parhau i alw cyfarfodydd anffurfiol gydag arweinwyr grwpiau'r gwrthbleidiau er mwyn rhoi gwybod iddynt am y materion a'r heriau sy'n wynebu'r Cyngor sydd ar ddod, er mwyn ennyn ysbryd o gydweithredu a chyd-ddealltwriaeth.	Cyfredol
7) Mae angen datblygu'r berthynas rhwng y swyddogaeth graffu a'r corff gweithredol ymhellach.	Darparu hyfforddiant pellach i aelodau Pwyllgor Trosolwg a Chraffu ac i Aelodau'r Cabinet ynghylch rôl craffu a dwyn Aelodau'r Cabinet i gyfrif. Bydd yr hyfforddiant yn darparu gwybodaeth am sut i nodi a blaenoriaethu pynciau y dylid eu craffu.	30/09/2026
8) Mae'r system rheoli perfformiad yn gynhwysfawr ond mae angen canolbwyntio mwy ar ganlyniadau.	Ail-gydbwyso'r mesurau perfformiad cyfanredol sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau ac allbwn o fewn Cynlluniau Busnes Lefel 1 ar draws y Cyngor.	31/05/2026

CEFNDIR I HUNANASESIAD 2024-25

Dyma pedwerydd Adroddiad Hunanasesu Cyngor Sir Ceredigion, sydd yn adolygu'r flwyddyn 2024/25. Rydym wedi dysgu llawer ers dechrau gweithredu'r drefn hunanasesu perfformiad llywodraeth leol a ddaeth i rym yn sgil Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.

Yn ystod hydref 2024 aethom ati i adolygu ein dulliau hunanasesu a gwneud nifer o fân addasiadau i'r broses. Roedd hyn yn cynnwys cynhyrchu pac data mwy manwl o'r adolygiad o dystiolaeth, parhau'r gweithdai ychwanegol y Grŵp Arweiniol i adolygu sgoriau cyn cyhoeddi a darparu mwy o fanylder ar yr ymgynghoriad a waned i gefnogi'r Hunanasesiad a sut mae'r ymgynghoriad yma yn cael ei defnyddio i gyfarwyddo penderfyniadau'r Cyngor.

Y prif ddatblygiad yn adroddiad eleni, fodd bynnag, yw'r pwyslais cynyddol ar adrodd canlyniadau. Mae ysgogi canlyniadau gwell i bobl a chymunedau lleol yn un o egwyddorion sylfaenol y broses Hunanasesu.

Rydym wedi cynnwys astudiaethau achos sy'n ystyried sut yr ydym yn gwneud i wella canlyniadau yn erbyn yr Amcanion Llesiant Corfforaethol, ynghyd â'n prif fesurau canlyniad. Bydd hyn yn parhau i ddatblygu dros y misoedd nesaf gyda'r rownd cynllunio busnes nesaf, lle y byddwn yn cynnwys cyfres gryfach o fesurau sy'n seiliedig ar ganlyniadau.

Rydym hefyd yn cydweithio'n agos â Data Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i ddatblygu fframwaith canlyniadau newydd ar gyfer llywodraeth leol. Mae hyn yn rhan o'n hymrwymiad ar y cyd i gydweithio ar draws y sector i ysgogi canlyniadau phrofiadau gwell i bobl.

Bwriad yr adolygiad oedd mireinio'r proses yn seiliedig ar ein profiadau yn y blynyddoedd blaenorol. Byddwn yn parhau i adolygu'r

ffordd yr ydym yn cynnal hunanasesiad, yn flynyddol.

Roedd yr adolygiad wedi cydnabod bod y broses Hunanasesu yn parhau i ymwreiddio yn y sefydliad, mae hyder y Cyngor wrth ddefnyddio'r proses yn tyfu, ac yn hanfodol mae'r Cyngor yn dysgu mwy am ei chryfderau, heriau a'i chyflleoedd. Cefnogwyd hyn gan ganfyddiadau'r Aseiad Perfformiad Panel ym mis Hydref 2024, y gallwch ddysgu mwy amdano ar dudalen 11.

Rydym wedi dysgu llawer eleni wrth lunio'r Adroddiad Hunanasesu. Mae'r ymarfer wedi dod ag amrywiaeth eang o dystiolaeth ynghyd i asesu ein perfformiad ac adolygu ein Hamcanion Llesiant Corfforaethol.

Mae hefyd wedi tynnu ein sylw at yr heriau sy'n ein hwynebu. Mae'n bwysig i ni barhau i addasu i ateb yr heriau hyn er mwyn sicrhau bod ein gwasanaethau'n gynaliadwy yn ogystal â'n bod yn nodi cyfleoedd i wella lefelau perfformiad, nodi arbedion effeithlonrwydd, neu'r ddau.

Rydym wedi datblygu Adroddiadau Hunanasesu blaenorol trwy gynnwys gwybodaeth bellach am y gwaith ymgynghori ac ymgysylltu a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn, gan gryfhau'r adran ynghylch meincnodi ar ddiwedd yr adroddiad a chynnwys manylion yr Aseiad Perfformiad Panel cyntaf.

Mae'r hunanasesiad yn rhoi golwg i ni ar berfformiad y sefydliad cyfan. Mae saith thema yr ydym yn asesu ein hunain yn eu herbyn, sef:

- Cyflawni ein swyddogaethau yn effeithiol
- Defnyddio ein hadnoddau yn ddarbodus, yn effeithlon ac yn effeithiol
- Sicrhau bod ein llywodraethu yn effeithiol
- Arloesedd a chreadigrwydd

- Cydweithio
- Cynnwys pobl
- Rheoli Risg

Mae'r themâu hyn yn deillio o gyfuniad o'r Canllawiau Statudol ar y Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 ynghyd â'r Egwyddor Datblygu Cynaliadwy. Maent yn adlewyrchu saith gweithgaredd craidd cyrff cyhoeddus fel y'u diffinnir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Ar gyfer pob thema rydym yn asesu a oes gennym gynlluniau ac amcanion ar waith, a yw'r cynlluniau a'r amcanion hynny'n cael eu

cyflawni ac a ydynt yn gynaliadwy dros y tymor hwy ai peidio. Mae'r rhain yn ffurfio ein Prif Lwybrau Ymholi a dyma'r ffordd yr ydym yn asesu ein perfformiad cyffredinol.

Mae'r tudalennau canlynol yn rhoi crynodeb o'r canfyddiadau a sgôr bob thema. Mae'r system sgorio a ddefnyddir yn gyson â Datganiad Llywodraethu Blynyddol y Cyngor. Mae Fframwaith Llywodraethu'r Cyngor yn seiliedig ar fframwaith Cyflawni Llywodraethu Da mewn Llywodraeth Leol CIPFA/SOLACE. Mae'n darparu graddfa Coch-Ambr-Gwyrdd i ddangos lle mae perfformiad yn dda a lle mae angen cymryd camau pellach, gweler y diagram isod.

ALLWEDD I'R ASESIAD

-  **DA IAWN**
Ar y cyfan fe'i hystyrir yn dda iawn ac yn bodloni arfer orau nid oes angen unrhyw gamau pellach
-  **DA**
Ystyrir yn dda ar y cyfan ond efallai y bydd angen mân addasiadau
-  **BODDHAOL**
Boddhaol ond camau i'w cymryd
-  **O DAN BODDHAOL**
Angen Gweithredu Brys (o fewn 3-6 mis)
-  **ANNERBYNIOL**
Angen gweithredu ar unwaith

CRYNODEB O BERFFORMIAD 2024-25

CYFLAWNI EIN SWYDDOGAETHAU MEWN Ffordd EFFEITHIOL

Cyhoeddodd y Cyngor ei Strategaeth Gorfforaethol yn 2022, gan nodi ei weledigaeth hirdymor a'i Amcanion Llesiant Corfforaethol. Cefnogir hyn gan gyfres o strategaethau allweddol er mwyn cynorthwyo a chyflawni'r Amcanion. Mae'r rhain yn cynnwys y Strategaeth Ariannol ar gyfer y Tymor Canolig, y Strategaeth Llesiant Gydol Oes, a'r Strategaeth Economaidd.

Yn ystod 2024/25, cyhoeddodd Strategaeth Ariannol Tymor Canolig wedi'i diweddarau, Strategaeth Hyrwyddo'r Iaith Gymraeg a chyfres o bolisiau Adnoddau Dynol. Roedd cyhoeddi'r Strategaeth Ddigidol newydd yn gam newydd yn ystod 2024/25, sy'n nodi sut yr ydym yn bwriadu creu Ceredigion sy'n hyderus yn ddigidol.

Yn ogystal, rydym yn adolygu ac yn diweddarau ein Strategaeth Caffael a Chomisiynu ar y Cyd, a'n Cynllun Rheoli Asedau Strategol ar hyn o bryd.

Mae'r cynnydd wrth gyflawni strategaethau allweddol yn parhau i fod yn dda. Yn ystod 2024/25, llwyddwyd i gyflawni carreg filltir arwyddocaol pan gadarnhaodd llywodraethau Cymru a'r DU y byddai ail gyfran cyllid Bargen Twf Canolbarth Cymru, sy'n werth £11.8 miliwn, yn cael ei ryddhau er mwyn datgloi potensial economi canolbarth Cymru.

Roedd lansio Canolfan Byw'n Annibynnol Penmorfa yn garreg filltir arwyddocaol yn yr agenda atal, gan ddarparu adnoddau dan un to i gynorthwyo pobl i fyw yn eu cartref am gyfnod hwy.

Mae adroddiadau rheoliadol yn cefnogi'r casgliad hwn hefyd. Bu Arolygiad Estyn o'r Gwasanaethau Addysg yn llwyddiant ysgubol i'r Cyngor, gan amlygu'r ddarpariaeth addysg o ansawdd uchel i ddysgwyr yng Ngheredigion. Yn y cyfamser, daeth yr Asesiad Perfformiad Panel i'r casgliad bod y Cyngor yn awdurdod lleol sy'n cael ei redeg yn dda, o ystyried y galwadau uchel ar y

gwasanaeth ar hyn o bryd, a'r pwysau ariannol heriol iawn sydd arno.

Ystyrir bod gweithgarwch gosod blaenoriaethau yn gadarn yng Ngheredigion hefyd, a gwelir tystiolaeth o hyn trwy gyfrwng y gwaith cadarnhaol gyda gweinyddiaeth y Cyngor i ddatblygu'r Amcanion Llesiant Corfforaethol sy'n seiliedig ar waith ymchwil ac ymgynghori helaeth, gan gynnwys Asesiad Llesiant Lleol Ceredigion.

Mae gan y Cyngor Fframwaith Rheoli Perfformiad corfforaethol yn ei le, sy'n caniatáu i ni adolygu ac olrhain ein cynnydd yn rheolaidd, archwilio sut yr ydym yn perfformio a sicrhau ein bod yn cyflawni'r Amcanion Llesiant Corfforaethol er mwyn gwella'r canlyniadau ar gyfer pobl a chymunedau Ceredigion. Mae'r Fframwaith yn seiliedig ar gylch gwella parhaus safonol y diwydiant.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi datblygu dangosfyrddau newydd er mwyn cynnig mynediad cyflymach a haws i ddata ynghylch perfformiad, risg a meincnodi, er mwyn ein helpu i asesu ein cynnydd a chyfleu ein taith o ran perfformiad i'r cyhoedd ac i randdeiliaid. Mae hyn yn rhan o'n gweledigaeth o gael ein hysgogi gan ddata yn gynyddol ac o ddefnyddio dirnadaeth a gaiff ei sicrhau o ddata er mwyn helpu i nodi cyfleoedd i sicrhau gwelliant neu arbedion effeithlonrwydd.

Fodd bynnag, er bod yr Asesiad Perfformiad Panel wedi dod i'r casgliad bod y broses yn gynhwysfawr, roedd wedi mynegi pryder y dyldid rhoi mwy o ffocws ar fonitro "canlyniadau" yn hytrach nag "allbynnau". Gan ymateb i hyn, rydym yn adolygu ein cynlluniau busnes er mwyn cynnwys mwy o fesurau sy'n seiliedig ar ganlyniadau, rydym yn cynnwys data pellach yn yr Adroddiad Hunanasesu ac rydym yn gweithio gyda Data Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i ddatblygu fframwaith

YMARFER EIN SWYDDOGAETHAU YN EFFEITHIOL

Oes gan y Cyngor set o strategaethau corfforaethol a gwasanaeth mewn lle sydd yn gosod allan gweledigaeth y Cyngor a'i phriodweddau?

Da iawn

A yw'r strategaethau hyn yn cyflawni eu nodau a'u hamcanion?

Da

A yw'r strategaethau hyn yn gynaliadwy o ran addasu i anghenion y sefydliad yn y dyfodol?

Da iawn

A oes gan y Cyngor fframwaith rheoli perfformiad effeithiol a chraffu democrataidd ar waith i gefnogi'r gwaith o gyflawni gweledigaeth a blaenoriaethau'r Cyngor?

Boddhaol

A yw Cynlluniau Busnes Gwasanaethau yn cyflawni eu hamcanion a'u targedau perfformiad?

Da

cenedlaethol er mwyn monitro canlyniadau.

Mae lansio gwasanaeth 'FyNghyfrif' yn golygu bod gan breswylwyr ffordd gyfleus a hawdd i'w defnyddio nawr o ryngweithio gyda'r Cyngor pryd bynnag y byddant yn dewis gwneud hynny, ac mae dros 6,000 o breswylwyr wedi cofrestru hyd yn hyn. Mae FyNghyfrif yn cynnig dulliau ychwanegol i'r Cyngor o gasglu adborth ac ymgysylltu.

Ceir cydnabyddiaeth bod strategaethau'r Cyngor yn cael eu llunio yn unol â'r 5 Ffordd o Weithio, sy'n cynyddu lefel eu cydnerthedd a'u cynaliadwydd.

Mae gan y Cyngor weledigaeth uchelgeisiol ar gyfer y dyfodol, a'r asesiad cyffredinol yw bod y strategaethau sydd yn eu lle yn gynaliadwy ac yn ystyried y cyd-destun yn y tymor byr, y tymor canolig a'r tymor hir.

Fodd bynnag, fel pob awdurdod lleol, ceir heriau wrth gyflawni'r uchelgais hon; y cam

o ddychwelyd i fesurau cyni, wedi'i gyfuno â'r adnoddau a'r capasiti cyfyngedig, tra bod y galw gan gwsmeriaid yn parhau i dyfu. Er bod gan y Cyngor hanes o arloesi ac o fod yn greadigol wrth ddarparu gwasanaethau a cheisio ffyrdd newydd o weithio, cydnabyddir bod rheoli disgwyliadau yn bwysig hefyd wrth i ni symud ymlaen.

Mae diweddarau'r strategaethau hyn a'u diwygio yn ôl y gofyn yn un ffordd o'n helpu i gyflawni hynny, trwy greu sylfeini cadarn er mwyn gallu buddsoddi mewn technoleg newydd, darganfod ffyrdd newydd o ddarparu gwasanaethau a chynnal lefelau perfformio.

Rydym yn cydnabod, fodd bynnag, bod diffyg cysylltiad rhwng y lefel perfformio go iawn mewn metrigau allweddol megis y Proffil Perfformio Lleol, ac argraffiadau nifer o breswylwyr Ceredigion. Mae'r gwaith yn

CRYNODEB O BERFFORMIAD 2024-25

parhau i wella'r ffordd y mae'r Cyngor yn rhoi adborth i'r cyhoedd ac i randdeiliaid am ei gynnydd

Er y bu'r cynnydd ar ein taith berfformio yn gadarnhaol iawn yn ystod y flwyddyn, rydym yn cydnabod bod cryn dipyn o waith i'w wneud eto, wrth gwblhau'r gwaith o ddiweddar strategaethau allweddol ac wrth ddatblygu'r gwaith o adrodd am ganlyniadau yn arbennig. Er enghraifft, mae'r Strategaeth Gaffael a Chomisiynu ar y Cyd, a'r Cynllun Rheoli Asedau Strategol, yn cael eu hadolygu ar hyn o bryd.

Mae pob awdurdod lleol yn wynebu nifer o heriau ar hyn o bryd, megis y cyllid ar gyfer awdurdodau lleol, recriwtio mewn meysydd megis gofal cymdeithasol, yr argyfwng costau byw a'n gwaith parhaus i fynd i'r afael â thlodi yn y sir. Er mwyn ein helpu i leddfu'r heriau hyn, rydym yn parhau i fonitro eu heffeithiau ac addasu ein cynlluniau gweithredu mewn ffordd briodol.

DEFNYDDIO EIN HADNODDAU YN ECONOMAIDD, YN EFFEITHLON AC YN EFFEITHIOL

Asesir bod y sefyllfa gyffredinol o ran gwneud defnydd effeithlon o adnoddau yn dda, yn enwedig mewn perthynas â rheoli sefyllfa ariannol y Cyngor.

Gwelir tystiolaeth o hyn yn y farn archwilio ddiamod am gyfrifon y Cyngor, y sefyllfa ariannol gydnerth, a'r adborth cadarnhaol gan yr Asesiad Perfformiad Panel, a amlygodd berthnasodedd gwaith da rhwng aelodau gweithredol a swyddogion uwch, ynghyd ag arweinyddiaeth gadarn ar lefel swyddogion Uwch ac Aelodau.

Mae hyn yn rhoi'r Cyngor mewn sefyllfa gref i gyflawni'r Strategaeth Gorfforaethol newydd a'r Amcanion Llesiant Corfforaethol.

Mae adroddiadau rheoliadol yn gadarnhaol hefyd. Daeth yr Asesiad Perfformiad Panel i'r

casgliad bod y Cyngor wedi dangos ei fod wedi gwneud defnydd effeithiol ac effeithlon o adnoddau hyd yn hyn, a bod llinyn clir rhwng y Strategaeth Gorfforaethol a'r adnoddau ariannol. Roedd Arolygiad Estyn o Wasanaethau Addysg yn canmol y ddarpariaeth o ansawdd uchel i ddysgwyr, ac nid oes unrhyw rai o ysgolion y Cyngor yn destun mesurau dilynol. Roedd arolygiad Arolygiaeth Gofal Cymru wedi myfyrio mewn ffordd gadarnhaol ar y Rhaglen Llesiant Gydol Oes, ac mae'r rhan fwyaf o'r argymhellion bellach wedi cael eu cyflawni.

Dros y tymor hwy, llwyddwyd i sicrhau arbedion effeithlonrwydd cronol o £68m er 2012, o ganlyniad i ailstrwythuro, ailgynllunio'r gwasanaeth a phrosiectau trawsnewid.

Gwnaethpwyd defnydd dros dros y blynyddoedd diwethaf o wariant cyfalaf, gan gynnwys buddsoddi mewn meysydd allweddol megis yng nghyfleusterau plant y sir, sefydlu Canolfannau Lles, Cartrefi Gofal Awdurdodau Lleol a pheilotia Gofal wedi'i Alluogi gan Dechnoleg.

Mae cydnerthedd ariannol y Cyngor yn gryfder, yn enwedig wrth asesu cynaliadwyedd gwasanaethau. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod yr heriau cyllidebol parhaus sy'n bodoli a'r effaith y gallent ei chael ar gyflawni ein huchelgais.

Dros y ddwy flynedd diwethaf, cydnabuom hefyd bod gofyn gwneud gwaith pellach i gynyddu'r gwariant cyfalaf gymaint ag y bo modd, ynghyd ag effaith y Rhaglen Gyfalaf. Rhoddwyd sylw i hyn trwy ein Cynllun Gweithredu Hunanasesu.

Gwelir rhwystredigaeth ymhlith aelodau etholedig a chan swyddogion hefyd ynghylch yr anawsterau wrth berswadio Gweinidogion a swyddogion Llywodraeth Cymru i werthfawrogi cyd-destun gwahanol heriau gwledig, a bod angen gwneud newidiadau i'r model cyllido er mwyn rhoi sylw i hyn.

DEFNYDDIO EIN HADNODDAU YN ECONOMAIDD, YN EFFEITHLON AC YN EFFEITHIOL

A oes gan y Cyngor strategaethau cynhwysfawr ar waith ar gyfer Cynllunio'r Gweithlu, Rheolaeth Ariannol, Caffael a Rheoli Asedau?

Da

A yw'r strategaethau hyn yn cyflawni eu nodau a'u hamcanion datganedig ar gyfer Cynllunio'r Gweithlu, Rheolaeth Ariannol, Caffael a Rheoli Asedau?

Da

A yw'r strategaethau hyn yn gynaliadwy o ran addasu i anghenion y sefydliad yn y dyfodol?

Da

SICRHAU EIN LLYWODRAETHU YN EFFEITHIOL

Yn gyffredinol, mae'r dystiolaeth yn dangos bod trefniadau llywodraethu y Cyngor yn gadarn a'u bod yn cynorthwyo gwaith y Cyngor wrth gyflawni ei Amcanion Llesiant Corfforaethol a gwella canlyniadau i breswylwyr. Mae'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol a'r Fframwaith Llywodraethu ar waith ac mae'r berthynas â rheoleiddwyr yn gynhyrchol.

Mae adolygiadau mewnol ac adroddiadau rheoleiddwyr allanol yn dangos tystiolaeth o hyn. Er enghraifft, roedd y Datganiad Llywodraethu Blynyddol ar gyfer 2024/25 yn cynnig "sicrwydd sylweddol" bod system gadarn o ran craffu a chadernid yn ei lle, a bod y systemau a'r gweithdrefnau wrth baratoi a sgorio'r Fframwaith Llywodraethu yn foddhaol. Mae'n dod i'r casgliad bod

cynnydd da wedi cael ei sicrhau yn ystod y flwyddyn, gyda chyflawniadau cofnodedig yn erbyn y saith egwyddor craidd.

Llywodraethu yw un o themâu craidd y gyfundrefn perfformiad Hunanasesu. Yn benodol, mae gofyn i awdurdodau lleol feddu ar drefniadau llywodraethu effeithiol er mwyn sicrhau eu bod yn cyflawni eu swyddogaethau mewn ffordd effeithiol ac yn defnyddio eu hadnoddau mewn ffordd effeithlon.

Aseswyd y themâu hyn fel rhan o'r Asesiad Perfformiad Panel ym mis Hydref 2024. Daeth y panel adolygu annibynnol i'r casgliad bod gan y Cyngor drefniadau llywodraethu ac adrodd effeithiol mewn grym, gan gynnwys trefniadau archwilio mewnol a gwasanaethau democrataidd effeithiol.

Fodd bynnag, nodwyd dau argymhelliad gan y Panel er mwyn cryfhau'r berthynas rhwng aelodau'r meinciau cefn, y swyddogaeth

graffu a'r Pwyllgor Gweithredol (y Cabinet). Mae'n bwysig nodi hefyd bod Ceredigion yn arwain ar waith cymhleth mewn perthynas â phartneriaethau rhanbarthol ar gyfer Cyd-bwyllgorau Corfforedig (CBC) a Thyfu Canolbarth Cymru (TCC). Sefydlwyd Cyd-bwyllgor Corfforedig Canolbarth Cymru ac mae strwythurau llywodraethu mewn grym, er bod pryderon o hyd ynghylch gwerth am arian y Pwyllgor.

ARLOESI A CHREADIGRWYDD TYMOR HIR

Un o gryfderau'r Cyngor yw ei arloesedd a'i greadigrwydd dros y tymor hir. Mae gan y Cyngor hanes o goleddu ffyrdd newydd o weithio a nodi ffyrdd newydd o ddarparu gwasanaethau er mwyn cynnig profiad gwell i'r cwsmer, arbedion effeithlonrwydd, neu'r ddau.

Yn ystod blynnyddoedd diweddar, bu ffenestri cyfleoedd i ddysgu ganddynt, i drawsnewid gwasanaethau a sicrhau gwelliannau a newid cynaliadwy. Yn ei hanfod, roedd hyn yn caniatáu i ni ailystyried y ffordd yr ydym yn gweithio, gan ad-drefnu mewn ffordd sy'n cynnig budd i'r cwsmer, y gweithlu, a lleihau'r effaith ar ein hamgylchedd mewn ffordd arwyddocaol.

Ceir sawl enghraifft o hyn, gan gynnwys mabwysiadu'r model gweithio hybrid fel dewis parhaol, ond dewisol i staff ym mis Mehefin 2024. Mae ein dysgu yn dangos bod gweithio mewn ffordd hybrid wedi arwain at gynhyrchiant uwch, cydweithio gwell ac mae wedi cynnig amgylchedd gwaith mwy hyblyg er mwyn helpu i gynnal iechyd a lles y gweithlu. Caiff cynaliadwyedd y sefydliad ei gynorthwyo hefyd trwy'r gostyngiad mewn costau a'r gwariant cyffredinol fesul cyflogai.

Mae agor Canolfan Byw'n Annibynnol Penmorfa yn garreg filltir allweddol ar y daith atal trwy ddefnyddio'r dechnoleg ddiweddaraf i drawsnewid dewisiadau gofal ar gyfer pobl

leol er mwyn cynnal eu hannibyniaeth ac er mwyn iddynt fyw yn eu cartref am gyfnod hwy. Amlygwyd y Ganolfan yn ystod yr Asesiad Perfformiad Panel fel enghraifft o arloesi ac arfer da er mwyn optimeiddio'r defnydd o'i adnoddau.

Mae'r Rhaglen Llesiant Gydol Oes yn parhau i drawsnewid gofal cymdeithasol yng Ngheredigion. Mae hyn yn ymateb i ddemograffeg y Sir sy'n newid, ac mae hyn wedi arwain at fwy o alw a mwy o bwysau ariannol ar wasanaethau. Mae cynnig cymorth i bobl o bob oed ac sydd â phob math o anghenion, yn her arwyddocaol i'r Cyngor sydd ag adnoddau cyfyngedig.

Mae nifer o elfennau unigol Llesiant Gydol Oes yn gweithio'n dda, er enghraifft y buddsoddiad mewn llety ar gyfer plant mewn gofal. Byddwn yn parhau i wthio ymlaen i drawsnewid y ffordd y caiff iechyd, lles a diogelwch pobl eu cynnal yng Ngheredigion.

Darparir amrywiaeth o brosiectau arwyddocaol eraill yn ystod y flwyddyn, gan gynnwys agor Canolfan Byw'n Annibynnol Penmorfa, Canolfan Lles Llanbedr Pont Steffan, y defnydd gwell o Ganolfan Rheidol gyda'r Bwrdd Iechyd, a benthyciadau cyntaf y Cynllun Tai Cymunedol er mwyn helpu pobl leol i fforddio aros a byw yn eu hardal leol. Mae'r rhain oll yn enghreifftiau o arferion creadigol sydd wedi cael eu cyflwyno, ac nad ydynt wedi cael eu hadlewyrchu mewn rhannau eraill o Gymru, ac a amlygwyd yn ystod yr Asesiad Perfformiad Panel.

Ni ellir gorbwysleisio'r buddsoddiad mewn arloesi a chreadigrwydd yn y sefydliad, a meithrin y defnydd ohono. Rydym yn cydnabod bod manteisio ar y creadigrwydd hwn yn hanfodol i berfformiad cyffredinol y Cyngor a'i gynaliadwyedd dros y tymor hir. Mae'r Strategaeth Ariannol ar gyfer y Tymor Canolig yn amlygu'r heriau cyllido yn y dyfodol i'r Cyngor, ac mae'n cydnabod y bydd angen i'r Cyngor nodi meysydd pellach

SICRHAU EIN LLYWODRAETHU YN EFFEITHIOL

A oes gan y Cyngor fframwaith llywodraethu cynhwysfawr ar waith ar gyfer cynnal llywodraethu corfforaethol y sefydliad?

Da iawn

Pa mor effeithiol y caiff y cod a'r fframwaith llywodraethu eu cymhwyso a'u harsylwi?

Da

A yw'r Cyngor yn gweithio'n gynhyrchol gyda'i rheoleiddwyr allanol ac yn dangos cydymffurfiaeth dda?

Da iawn

ARLOESI A CHREADIGRWYDD TYMOR HIR

A yw'r Cyngor yn croesawu arloesedd a chreadigrwydd yn ei weithgareddau ac yn gweithredu trawsnewid?

Da

Pa mor effeithiol fu prosiectau trawsnewid y Cyngor o ran nodi a gweithredu creadigrwydd ac arloesedd ar draws y sefydliad?

Da

CRYNODEB O BERFFORMIAD 2024-25

er mwyn darparu gwasanaethau amgen i sicrhau cynaliadwyedd gwasanaethau.

CYDWEITHIO

Mae'r Cyngor yn rhagweithiol wrth ymgysylltu â phartneriaethau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol. Ceir enghreifftiau da lle y mae'r cydweithio hwn yn gwella canlyniadau megis trwy gyfrwng Tyfu Canolbarth Cymru, Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol Canolbarth Cymru, a Phartneriaeth Addysg Canolbarth Cymru.

Fodd bynnag, mae'r Cyngor yn canolbwyntio ar ymgysylltu â phartneriaethau sy'n fuddiol i bobl a chymunedau Ceredigion, a lle y ceir manteision amlwg. Mae'r Cyngor yn ymgysylltu â'r partneriaethau hyn mewn ffordd ragweithiol, ac mae'n herio gwerth y trefniant os nad yw'n gadarnhaol, ac mae'n canlyn trefniadau amgen yn ôl yr angen.

Mae'r penderfyniad i dynnu'n ôl o Addysg trwy Weithio Rhanbarthol (ERW) yn enghraifft o hyn, gan ganlyn trefniadau mwy effeithiol trwy gyfrwng Partneriaeth Addysg Canolbarth Cymru yn lle hynny, sy'n cael ei gydnabod nawr fel enghraifft o waith effeithiol mewn partneriaeth. Yn yr achosion hyn, cynigir rhesymeg gadarn pob tro, sy'n nodi pam nad yw er budd Ceredigion i ganlyn y trefniant partneriaeth. Caiff y dull rhagweithiol hwn o asesu gwerth cydweithio ei gydnabod fel rhywbeth hanfodol er mwyn manteisio i'r eithaf ar effaith cydweithio a gwella'r canlyniadau i bobl leol.

Mae hyn yn bwysig oherwydd ein bod yn cydnabod maint yr heriau cyllidebol sy'n bodoli ym maes llywodraeth leol ac y bydd cyfleoedd am bartneriaethau a chydweithio yn hanfodol wrth helpu i gyflawni ein huchelgais a'n cynlluniau yn y dyfodol.

Roedd yr Asesiad Perfformiad Panel yn cydnabod y perthnasoedd gwaith da sydd gan y Cyngor, yn enwedig gydag awdurdodau lleol cyfagos. Aeth y Panel ymlaen i argymhell y gallai fod cyfleoedd pellach i gydweithio trwy

gyfrwng gwasanaethau ar y cyd, ac y dylai'r rhain fod yn gyfleoedd sy'n cael eu harchwilio, yn enwedig ym maes darparu gofal cymdeithasol.

YMWNEUD

Mae Strategaeth Ymgysylltu a Chyfranogi y Cyngor yn gweithredu cynlluniau er mwyn sicrhau bod y dulliau gorau yn cael eu defnyddio i fanteisio i'r eithaf ar ymgysylltu a darparu dull gweithredu cyson ar draws y sefydliad. Trwy wneud hyn, mae'r Strategaeth yn helpu i sicrhau bod gan yr holl gymunedau yng Ngheredigion lais, a'n bod yn ceisio safbwyntiau a phrofiadau go iawn y grwpiau hynny nas clywir eu lleisiau yn aml, mewn ffordd weithredol.

Mae'r Cyngor yn adolygu ei brosiectau cydweithio yn rheolaidd er mwyn asesu eu heffeithiolrwydd. Mae'r adolygiad yn cynnig y cyfle i bwysu a mesur, i weld a yw'r prosiectau yn cyflawni'r hyn y dylent ei gyflawni, a ydynt yn statudol/gorfodol, a ydynt yn parhau i fod yn addas i'r diben, ac a ydynt yn peri unrhyw risgiau i'r Cyngor. Gwneir penderfyniad ynghylch a ddylai pob prosiect barhau, dod i ben neu gael ei ddiwygio. Cwblhawyd yr un diweddaraaf o'r adolygiadau hyn ym mis Gorffennaf 2024.

Gwelwyd rhai enghreifftiau da o ymgysylltu yn ystod 2024/25, lle y defnyddir y canlyniadau i ysgogi gwelliannau a siapio gwasanaethau. Mae'r rhain yn cynnwys ymgynghori am y Polisi Neilltuo Tai newydd ac ynghylch siapio Cynllun Amddiffyn Arfordirol Aberystwyth.

Sefydlwyd Bwrdd Dirnadaeth newydd er mwyn helpu i ysgogi dealltwriaeth well gan amrywiaeth y ffynonellau ymgynghori ac ymgysylltu sydd ar gael i ni. Er ei fod yn gymharol newydd o hyd, mae'r grŵp newydd hwn wedi mynd o nerth i nerth, a bydd yn cyflawni rôl hanfodol yn y dyfodol wrth gryfhau'r gwaith o ddadansoddi a rhannu

CYDWEITHIO

A yw'r Cyngor yn ymgysylltu'n rhagweithiol â phartneriaethau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol?

Da

Pa mor effeithiol yw'r partneriaethau y mae'r Cyngor wedi buddsoddi ynddynt i gyflawni ei nodau a'i amcanion?

Da

YMWNEUD

A oes gan y Cyngor strategaeth gynhwysfawr a chynllun gweithredu ar gyfer ymgysylltu ac ymgynghori ar waith?

Da

Pa mor effeithiol y mae'r Cyngor yn defnyddio adborth ymgysylltu ac ymgynghori i adolygu a gwella ei wasanaethau?

Da

data, gan ledaenu argymhellion i adrannau perthnasol y Cyngor a chynorthwyo'r gwaith o gyflawni'r Amcanion Llesiant Corfforaethol.

Bydd y cyfuniad o'r mentrau hyn yn ein helpu i ddangos ein bod wedi gwrandao ac wedi ystyried yr adborth o'r gweithgarwch ymgysylltu ac ymgynghori.

Fodd bynnag, mynegwyd rhai pryderon penodol a pharhaus mewn perthynas â gormod o ymgynghori a niferoedd isel yr ymatebion i rai ymgynghoriadau. Er ein bod yn ceisio rhannu ymgynghoriadau a lleihau'r faich pan fo modd, mae cryn dipyn o'r gweithgarwch ymgynghori yn ofyniad statudol neu'n arfer gorau.

Cydnabyddir hefyd y bydd ymgynghoriadau a gweithgarwch ymgysylltu am bynciau mwy cynhyrfiol wastad yn denu nifer lawer yn uwch o ymatebion, o'u cymharu ag eraill, ac mae modd gweld hyn eto yn ystod blwyddyn 2024/25.

Fodd bynnag, mae gweithgareddau wedi cychwyn i gryfhau hyn. Mae'r Cyngor wedi bod yn gweithio gyda Data Cymru a CLILC i ddatblygu'r Arolwg Preswylwyr Cenedlaethol, dull gweithredu safonol a mwy cadarn er mwyn cynnal arolygon dinasyddion ar lefel genedlaethol. Cynhaliwyd yr Arolwg cyntaf yn 2024, gan ddenu bron i 2,000 o ymatebion, a bu'n gyfle i breswylwyr roi adborth am eu hardal leol, y Cyngor a'i wasanaethau, ac am ddemocratiaeth leol.

At hynny, disgwylir i'r cam o gyflwyno rhan ymgysylltu newydd gwasanaeth 'Fy Nghyfrif' helpu i annog lefel gyswllt uwch a nifer uwch o ymatebion trwy hysbysu preswylwyr o weithgarwch ymgysylltu a chynnig y cyfle i gymryd rhan mewn grwpiau ffocws.

Yn gyffredinol, ystyrir bod ymgysylltu ac ymgynghori yn dda mewn rhai meysydd, ond ceir meysydd lle y mae angen gwneud gwaith pellach. Byddwn yn adolygu ac yn diweddarau cynllun gweithredu y Strategaeth Ymgysylltu a Chyfranogi yn ystod 2025/26.

REOLI RISG

Mae gwaith rheoli risg y Cyngor wedi datblygu'n dda yn ystod y blynyddoedd diweddar. Arweiniodd yr adolygiad llawn o'r Polisi, y Strategaeth a'r Fframwaith Rheoli Risg yn 2023/24 at gyfres wedi'i diweddarau o ddogfennau er mwyn sicrhau bod ein trefniadau yn addas i'r diben ac yn seiliedig ar arfer gorau.

Er y canfuwyd bod y broses yn gweithio'n dda yn gyffredinol, cyflwynodd yr adolygiad rai ychwanegiadau penodol. Y rhain oedd:

- Roedd wedi egluro rôl yr Archwiliad Mewnol
- cyflwynodd y defnydd o sgorau risg 'targed' er mwyn helpu i asesu effeithiolrwydd lliniaru risgiau.
- Cyflwynodd fwy o gysondeb wrth reoli risgiau gwasanaeth
- cryfhodd y broses o uwchgyfeirio/ isgyfeirio risgiau i'r Gofrestr Risg Gorfforaethol.

Dros y bum mlynedd ddiwethaf, mae Cofrestr Risg Corfforaethol y Cyngor wedi datblygu i fod yn ddogfen 'fyw' ac sy'n esblygu wrth i risgiau newid ac wrth i risgiau newydd ddod i'r amlwg. Er enghraifft, caiff y Gofrestr ei hadolygu a'i diweddarau'n rheolaidd. Fe'i hadolygir yn rheolaidd gan y Grŵp Arwain a bob chwarter gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio. Mae lefel y ddealltwriaeth o risgiau unigol wedi cynyddu gydag amser o ganlyniad.

Fodd bynnag, ym mis Mawrth 2025, cynhaliodd Archwilio Cymru adolygiad o brosesau rheoli risg cyrff cyhoeddus ar draws rhanbarth canolbarth a gorllewin Cymru. Rydym yn aros am ganlyniadau'r adolygiad hwn, a ddefnyddir i nodi unrhyw gyfleoedd pellach i gryfhau'r broses.

Fel rhan o'n hymdrech i wella'n barhaus, rydym wedi gweithio gyda'n hyswirwyr, Zurich, yn rheolaidd, wrth geisio adborth annibynnol am ein dull o reoli risg. Yn ystod

REOLI RISG

A oes gan y Cyngor strategaeth a fframwaith cynhwysfawr ar waith ar gyfer rheoli risg?

Da

A yw'r strategaethau hyn yn cyflawni eu nodau a'u hamcanion?

Da

A yw'r strategaethau hyn yn gynaliadwy o ran addasu i anghenion y sefydliad yn y dyfodol?

Da

2025/26, byddwn yn gweithio gyda nhw unwaith eto i ddarparu sesiwn bellach gyda'n Grŵp Arwain a hyfforddiant penodol i ddau swyddog sy'n gweithio ym maes rheoli risg.

CYNLLUN GWEITHREDU'R HUNANASESIAD

Gan ymateb i'r canfyddiadau hyn, rydym wedi nodi nifer o gyfleoedd i sicrhau gwelliant. Trwy ymgynghori â gwasanaethau'r Cyngor ac Aelodau etholedig, mae'r camau yr ydym yn bwriadu eu cymryd er mwyn ymateb i'r dysgu hwn yn cael eu cynnal yn y cynllun gweithredu drosodd, ac fe'u hadlewyrchir mewn cynlluniau busnes gwasanaethau hefyd.

Mae'r Cynllun yn datblygu cynllun gweithredu y llynedd wrth i'n dysgu

ddatblygu ac wrth i gyfleoedd newydd gael eu nodi. Bydd yr holl weithredoedd yn parhau i gael eu monitro nes iddynt gael eu cwblhau fel rhan o'n trefniadau rheoli perfformiad parhaus, ac adroddir am y cynnydd yn yr Adroddiad Hunanasesu. Cedwir adrannau a gwblhawyd yn flaenorol fel cofnod o'r cynnydd ar ein taith perfformiad hunanasesu.

Rydym wedi blaenoriaethu'r gweithredoedd er mwyn gosod y sylfeini ar gyfer gwaith yn y dyfodol ar draws y saith thema trwy sicrhau y bodlonir blociau adeiladu hanfodol ein llinellau Ymholi Allweddol cyn datblygu ymhellach. Rydym eisoes wedi nodi rhestr o gamau gweithredu sy'n dod i'r amlwg, y byddwn yn eu hasesu eto yn ystod y flwyddyn i ddod, gan symud i'r cynllun gweithredu byw os, a phan, y bydd hynny'n briodol.

CYNLLUN GWEITHREDU'R HUNANASESIAD: CYFLEOEDD I WELLA

DISGRIFIAD	AMSERLEN	SWYDDOG ARWEINIOL	CANLYNIADAU
DARPARU DULL SAFONOL AC EFFEITHIOL O YMGYSYLLTU A CHYFRANOGIAD AR DRAWS Y CYNGOR A SICRHAU BOD Y CYNGOR YN YMGYSYLLTU Â PHOBL CEREDIGION YN Y Ffordd ORAU A MWYAF PRIODOL.			
Cyhoeddi'r Strategaeth Ymgysylltu a Chyfranogiad newydd i wella cyfleoedd ymgysylltu a chyfranogi i ddinasyddion a rhanddeiliaid Ceredigion	Ionawr 2023– Mawrth 2024	Alun Williams (SAC Partneriaethau, Perfformiad a Diogelu'r Cyhoedd)	- Yn darparu dull safonol ac effeithiol o ymgysylltu a chyfranogi ar draws y Cyngor - Sicrhau bod y Cyngor yn ymgysylltu â phobl Ceredigion yn y ffordd orau a mwyaf priodol - Cael y wybodaeth ddiweddaraf am arfer gorau ym maes ymgysylltu ac ymgynghori - Mae dinasyddion a rhanddeiliaid yn rhan o'r broses o wneud penderfyniadau ac wrth lunio gwasanaethau'r Cyngor - Yn sicrhau bod adnoddau'r Cyngor yn cael eu cyfeirio at feysydd blaenoriaeth, fel yr argyfwng costau byw presennol, fel y nodwyd trwy ymgysylltu ac ymgynghori - Sicrhau bod lleisiau pawb yng Ngheredigion yn cael eu clywed
STATWS: Wedi Cwblhau yn Mawrth 2024			
Mae Cyngor Sir Ceredigion wedi ymrwymo i ymgysylltu â'i breswylwyr, ei ddefnyddwyr gwasanaeth a rhanddeiliaid allweddol eraill. Datblygwyd y Strategaeth Ymgysylltu a Chyfranogi ac fe'i chymeradwywyd gan y Cabinet ym mis Hydref 2022. Mae'r Strategaeth newydd yn cynnig cyfeiriad corfforaethol ac arweiniad i swyddogion ac aelodau etholedig y Cyngor er mwyn sicrhau bod gweithgarwch ymgysylltu wrth wraidd gwaith y Cyngor, a sicrhau bod gweithgareddau ymgysylltu o safon uchel yn gyson. Cyflwynir adroddiad cynnydd blynyddol am y Strategaeth i'r Cabinet ac fe'i cyhoeddir ar ein gwefan. Cyhoeddwyd y pecyn cymorth Ymgysylltu ar ein gwefan fewnol ym mis Ionawr 2024 hefyd, ac mae ar gael i'r holl staff ei ddefnyddio.			
CYFLWYNO CYNLLUN GWEITHLU ER MWYN SICRHAU BOD GAN Y CYNGOR WEITHLU CYNALIADWY A CHYMWYSO			
Diweddarau a chyflawni'r Cynllun Gweithlu i fynd i'r afael â materion allweddol gan gynnwys recriwtio, cadw a chynllunio olyniaeth i sicrhau lefelau staffio sefydlog, gweithlu cynaliadwy a bod swyddi gwag yn cael eu llenwi â staff â chymwysterau priodol. Bydd y Cynllun Gweithlu yn cyd-fynd â Strategaeth Gorfforaethol newydd y Cyngor ar gyfer 2022-27.	Ionawr 2023– Mawrth 2027	Geraint Edwards (SAC Pobl a Trefnidiaeth)	- Sicrhau bod swyddi gwag yn cael eu llenwi gan staff sydd â'r cymwysterau a'r profiad priodol i ddarparu profiad cwsmer o ansawdd uchel a lefel gwasanaeth - Sicrhau bod capasiti yn bodoli mewn gwasanaethau i ddarparu gwasanaethau o safon - Sicrhau cynaliadwyedd gwasanaethau dros y tymor hir - Galluogi ni i nodi ac ymateb i anghenion newidiol cwsmeriaid - Gwella recriwtio a chadw gweithwyr - Gwella cynhyrchiant ac ansawdd gwasanaeth
STATWS: Wedi Cwblhau yn Mawrth 2025			
Cyhoeddwyd y Cynllun Gweithlu wedi'i ddiweddarau yn dilyn cymeradwyaeth gan y Cabinet ym mis Medi 2023. Mae'r Cynllun newydd yn nodi dull y Cyngor o reoli ei weithlu i ddiwallu ei anghenion darparu gwasanaethau presennol a rhai'r dyfodol, ac yn benodol yn mynd i'r afael â materion allweddol gan gynnwys recriwtio, cadw a chynllunio olyniaeth i sicrhau lefelau staffio sefydlog, gweithlu cynaliadwy a bod swyddi gwag yn cael eu llenwi â staff â chymwysterau priodol. Y pedwar blaenoriaeth thema a nodir yn y cynllun yw: Gwireddu Potensial, Profiad Ymgeiswyr a Denu Talent, Ffyrdd Newydd o Weithio a'n Diwylliant. Bydd y Cynllun newydd yn caniatáu i'r Cyngor ragweld anghenion a gofynion sgiliau'r gweithlu yn y dyfodol er mwyn mynd i'r afael yn rhagweithiol â heriau sy'n dod i'r amlwg a manteisio ar gyfleoedd newydd.			

DISGRIFIAD	AMSERLEN	SWYDDOG ARWEINIOL	CANLYNIADAU
CYFLWYNO CAM 2 O'R RHAGLEN LLESIANT GYDOL OES I DRAWSNEWID GOFAL CYMDEITHASOL YNG NGHEREDIGION			
Monitro ac adolygu cynnydd y Rhaglen Llesiant Gydol Oes er mwyn sicrhau y darperir gwasanaethau a fydd yn cyflawni canlyniadau'r rhaglen ac yn gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol pobl Ceredigion	Ionawr 2023– Mawrth 2027	Audrey Somerton Edwards (Swyddog Arweiniol Corfforaethol, Porth Cynnal a Chyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol)	- Rheoli'r cynnydd yn y galw a'r pwysau ariannol ar wasanaethau i ddarparu gwasanaethau cynaliadwy yn y dyfodol - Sicrhau bod pobl yn cael y lefel a'r math cywir o gymorth ar yr amser cywir - Yn hybu iechyd a lles cadarnhaol ac yn cefnogi pobl i gefnogi eu hunain - Cryfhau teuluoedd fel bod plant a phobl ifanc yn aros gyda'u teulu - Galluogi unigolion i fyw'n annibynnol yn eu cymuned eu hunain - Darparu ymagweddau cymesur at ofal a chymorth a reolir - Amddiffyn unigolion ac yn eu cadw'n ddiogel rhag camdriniaeth, niwed ac esgeulustod
STATWS: Ar y Gweill Mae gweithredu a darparu'r Rhaglen Llesiant Gydol Oes (TAW) yn parhau wrth i'r gwaith o drawsnewid gwasanaeth symud yn ei flaen wrth integreiddio gofal cymdeithasol yn 3 Gwasanaeth - Porth Cymorth Cynnar, Porth Gofal a Phorth Cynnal, y maent, ynghyd â Chyswllt â'r Cwsmer, yn creu'r 4 prif maes o fewn Rhaglen newid Llesiant Gydol Oes. Wrth i drydedd blwyddyn Strategaeth Model TAW chwe blynedd ddod i ben (ym mis Hydref 2024), mae'r cynllunio ar gyfer ail hanner rhaglen TAW yn canolbwyntio mwy fyth ar gryfhau'r arfer sylfaenol, ymateb i a manteisio ar weithredu trwsio o werthusiad Arolygiaeth Gofal Cymru er mwyn sicrhau bod modd cyflawni buddion llawn asesiadau cymesur, sgysiau yr hyn sy'n bwysig ac ymyriadau cynnar yn llawn.			
DATBLYGU STRATEGAETH DDIGIDOL NEWYDD AR GYFER CEREDIGION			
Datblygu a chyhoeddi Strategaeth Ddigidol newydd i barhau i ddatblygu Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu a gwasanaethau digidol ar draws Ceredigion	Medi 2023 - Mawrth 2025	Alan Morris (Swyddog Arweiniol Corfforaethol Cyswllt Cwsmer, TGCh a Digidol)	- Darparu gweledigaeth strategol glir i ddatblygu gwasanaethau digidol - Sicrhau bod gan y cyngor Seilwaith Digidol modern, sefydlog a chadarn - Cefnogi'r gwaith o gyflawni Strategaeth Gorfforaethol y Cyngor a'i Amcanion Llesiant Corfforaethol, megis yr ymgyrch i greu cymunedau sydd â chysylltiadau da drwy wella cysylltedd digidol a gwasanaethau digidol. - Yn cefnogi mynediad digidol haws i wasanaethau'r Cyngor a gwell profiad i gwsmeriaid - Yn cefnogi gwaith y Cyngor i wella cynhwysiant digidol. - Cefnogi cydweithwyr i wneud y defnydd gorau, llawnaf o'r offer a'r technolegau sydd ar gael iddynt, gan ddatblygu lefelau uchel o gydweithio â sgiliau digidol
STATWS: Wedi Cwblhau yn Mawrth 2025 Cyhoeddwyd y Strategaeth Ddigidol newydd ym mis Mawrth 2025 yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus. Mae'n nodi sut y bydd y Cyngor yn cyflawni'r nod cyffredinol o greu "Ceredigion sy'n Hyderus yn Ddigidol", gan ganolbwyntio ar gyflawni datblygiad digidol cynaliadwy a hirdymor ar draws pob gwasanaeth a chynorthwyo'r strategaeth ddigidol genedlaethol. Mae wedi'i rhannu yn 3 golofn graidd Trefniadaeth Ddigidol, Preswylwyr Digidol a Chymunedau Digidol, gan amlinellu'r amcanion a gyflawnir yn erbyn pob un. Caiff y Strategaeth Ddigidol ei goruchwyllo gan Fwrdd Prosiect Ffyrdd Newydd o Weithio (NWOW), sy'n cynnwys yr "Hyrwyddwr Digidol" o bob maes gwasanaeth. Bydd cadeirydd bwrdd Prosiect NWOW, gyda chymorth rheolwr prosiect, yn goruchwyllo darpariaeth y strategaeth, gan sicrhau yr adroddir am gynnydd sy'n sail i gynlluniau darparu gwasanaeth i'r Grŵp Arwain a'r Bwrdd Perfformiad Corfforaethol.			

CYNLLUN GWEITHREDU'R HUNANASESIAD: CYFLEOEDD I WELLA

DISGRIFIAD	AMSERLEN	SWYDDOG ARWEINIOL	CANLYNIADAU
SICRHAU Y MAE GWARIANT CYFALAF YN CAEL EI FWYAF A'I DDEFNYDDIO			
Datblygu system fonitro i alluogi'r Cyngor i wneud defnydd llawn o'i adnoddau cyfalaf a chynyddu cyfran y gwariant cyfalaf ym mhob blwyddyn	Ionawr 2023— Mawrth 2025	Duncan Hall (Swyddog Arweiniol Corfforaethol Cyllid a Chaffael a Swyddog Adran 151)	- Sicrhau bod Rhaglen Gyfalaf y Cyngor yn cael ei chyflawni a gwariant yn cael ei huchafu - Cefnogi gweithio mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru ar brosiectau cyfalaf - Cefnogi'r gwaith o gyflawni gweledigaeth ac Amcanion Llesiant Corfforaethol y Cyngor - Cefnogi lleihau costau hirdymor a chynnydd mewn cynhyrchiant - Ynghyd â'r gyllideb refeniw, mae'n darparu'r adnoddau i gyflawni cynlluniau busnes y gwasanaethau
STATWS: Wedi Cwblhau yn Mawrth 2025 			
Mae'r Cyngor yn parhau i weithio i sicrhau y gwneir y mwyaf o wariant cyfalaf. Mae defnydd da wedi'i wneud yn y blynyddoedd diwethaf o wariant cyfalaf, gan gynnwys buddsoddi mewn meysydd allweddol megis cyfleusterau plant y sir, sefydlu Canolfannau Llesiant, Cartrefi Gofal Awdurdodau Lleol a threialu Gofal Trwy Dechnoleg. Cymeradwywyd Rhaglen Cyfalaf Aml-flwyddyn ddiwygiedig ar gyfer 2025/26 i 2027/28 gan y Cabinet ym mis Gorffennaf 2025. Adroddodd yr Adroddiad Alldro Cyfalaf ar gyfer 2024/25 bod y gwariant go iawn £29.7m yn uwch na'r lefel a welwyd yn ystod 2023/24 o ganlyniad i ddau gynllun cyfalaf mawr yn ystod y flwyddyn (Ysgol Dyffryn Aeron a chynllun Amddiffyn Arfordirol Aberaeron). Mae'r Rhaglen Gyfalaf yn cael ei hadrodd i'r Cabinet o hyd, gan nodi manylion y sefyllfa o ran yr alldro a'r rhaglen ddiwygiedig ar gyfer y dair blynedd nesaf.			
CEFNOGI BUSNESAU LLEOL A'R ECONOMI LLEOL TRWY WEITHREDU'R STRATEGAETH GAFFAEL DIWEDDARAF			
Diweddarau Strategaeth Gaffael y Cyngor i gefnogi busnesau lleol a'r economi leol, ac i sicrhau bod y Cyngor yn darparu gwerth am arian wrth ddefnyddio ei adnoddau ariannol	Ionawr 2023— Ionawr 2026	Duncan Hall (Swyddog Arweiniol Corfforaethol Cyllid a Chaffael a Swyddog Adran 151)	- Sicrhau bod arferion caffael yn gyfredol ac yn addas at y diben - Helpu i sicrhau gwerth am arian drwy sicrhau bod y Cyngor yn gwario ei adnoddau ariannol yn ddarbodus, yn effeithlon ac yn effeithiol - Cefnogi nodi arbedion effeithlonrwydd ac yn dileu gwastraff - Cyflawni arbedion drwy fanteisio ar yr arbedion y gellir eu cyflawni drwy fwy o gapasiti prynu Fframweithiau Lleol, Rhanbarthol a Chenedlaethol - Cynnal safonau moesegol uchel o fuddsoddi a phrynu - Gwneud y mwyaf o'r cyfraniad at ddatblygu cynaliadwy trwy gaffael atebion cynaliadwy - Cefnogi'r gwaith o gyflawni gweledigaeth ac Amcanion Llesiant Corfforaethol y Cyngor - Cefnogi busnesau lleol, cadwyni cyflenwi a datblygiad yr economi leol
STATWS: Ar y Gweill 			
Caiff y Strategaeth Gaffael ei hadolygu a'i diweddarau ar hyn o bryd, a chaiff ei disodli gan Strategaeth Gomisiynu a Chaffael newydd ar y Cyd. Bydd y Strategaeth yn datblygu dull y Cyngor ar gyfer caffael, a gryfhawyd dros y blynyddoedd diwethaf, a bydd yn cael ei halinio er mwyn cynorthwyo'r broses o gyflawni Amcanion Llesiant Corfforaethol y Cyngor yn benodol, yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.			

DISGRIFIAD	AMSERLEN	SWYDDOG ARWEINIOL	CANLYNIADAU
------------	----------	----------------------	-------------

DATBLYGU'R DEFNYDD O AROLYGON BODLONRWYDD CWSMER A MEWNWELEDIADAU MEWN I PROFIADAU CWSMERIAID			
Datblygu'r defnydd o arolygon a mewnwelediadau arall mewn i brofiadau cwsmeriaid	Tachwedd 2023 - Mawrth 2025	Y Swyddogion Arweiniol Corfforaethol i gyd	- Yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Cyngor am ganfyddiadau cwsmeriaid o wasanaethau a'r sefydliad yn gyffredinol fel rhan o'i weithgarwch ymgysylltu parhaus - Helpu i nodi meysydd i'w gwella er mwyn helpu i godi lefelau perfformiad neu cyflawni effeithlonrwydd - Cryfhau a datblygu deialog barhaus gyda phobl leol a'u canfyddiadau - Yn darparu gwell dealltwriaeth o anghenion, dymuniadau a blaenoriaethau cwsmeriaid - Helpu i nodi lle mae angen cyfathrebu ychwanegol i gefnogi pobl a / neu hysbysebu gwasanaethau - Yn cynorthwyo dysg y Cyngor i wella profiad cwsmeriaid

STATWS: Wedi Cwblahu ym Mawrth 2025 Mae dros 6,000 o breswylwyr wedi ymrwymo i FyNghyfrif, gan gynnwys 1,600 sy'n cael y Cylchlythyr sy'n cyd-fynd ag ef ac mae 1,300 wedi ymrwymo i gymryd rhan mewn gwaith ymgysylltu pellach. Mae Arolygon Newydd Fy Nghyfrif wedi cychwyn gyda 635 ymateb wedi derbyn hyd yn hyn a chyfraddiad cyfartalog gwasanaethau o 7.6 allan o 10 ac amrywiaeth o adborth. Mae'r Cyngor wedi bod yn gweithio gyda Data Cymru i ddatblygu'r Arolwg Preswylwyr Cenedlaethol newydd er mwyn cynnig arolwg dinasyddion cadarn a chymharol yn y dyfodol. Cynhaliwyd y cyntaf o'r arolygon hyn yng Ngheredigion rhwng mis Awst a mis Hydref 2024, a sicrhawyd 1,961 o ymatebion, ac adroddwyd am y rhain i'r pwyllgor Craffu ym mis Ionawr 2025. Sefydlwyd y Bwrdd Dirnadaeth newydd ym mis Medi 2024 hefyd, ac mae'n parhau i ddatblygu'n dda, gan ystyried amrediad o wahanol ymgynghoriadau ac ymgysylltiadau, ynghyd ag amrywiaeth o ddata arall er mwyn manteisio i'r eithaf ar ddirnadaeth a meithrin dealltwriaeth well o safbwyntiau pobl leol er mwyn siapio gwasanaethau yn y dyfodol.

CYFLAWNI'R CAMAU GWEITHREDU YN YR YMATEB I'R ASESIAD PERFFORMIAD PANEL			
Cyflawni'r camau gweithredu cytunedig yn Ymateb y Cyngor i'r Asesiad Perfformiad Panel	Mai 2025 - Mawrth 2027	Swyddogion Arweiniol Corfforaethol i gyd	- Mae'n cynyddu'r graddau y mae'r Cyngor yn bodloni gofynion perfformiad Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 - Cryfhau cyfathrebu, ymgynghoriadau a dealltwriaeth o safbwyntiau preswylwyr - Mae'n cynyddu capasiti cymdeithasol mewnol ac yn lleihau'r ddibyniaeth ar staff asiantaeth - Mae'n lleihau costau lleoliadau y tu allan i'r sir ar gyfer plant sy'n derbyn gofal - Mae'n nodi ffyrdd mwy arloesol o ddarparu gwasanaethau gyda'r holl bartneriaid - Cryfhau'r swyddogaeth graffu

STATUS: Gweithred Newydd Yn dilyn Asesiad Perfformiad Panel cyntaf y Cyngor ym mis Hydref 2024, nodwyd cyfres o 10 cam gweithredu i gyflawni'r argymhellion a wnaethpwyd gan y panel adolygu annibynnol. Cytunodd y Cabinet ar y camau gweithredu hyn yn ffurfiol ym mis Mai 2025, ynghyd â'r broses o'u cyflawni dros y 24 mis nesaf. Mae tudalen 14 yr adroddiad hwn yn cynnwys manylion llawn canfyddiadau'r Asesiad, gan gynnwys y camau y mae'r Cyngor yn bwriadu eu cymryd. Er mwyn monitro cynnydd, darparir adroddiad a fydd yn cynnig diweddariad i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ym mis Ionawr 2026.
--

CYNLLUN GWEITHREDU'R HUNANASESIAD: CYFLEOEDD I WELLA

DISGRIFIAD	AMSERLEN	SWYDDOG ARWEINIOL	CANLYNIADAU
CYFLAWNI'R ARGYMHELLION YN AROLYGIAD AGC O'R GWASANAETHAU CYMDEITHASOL			
Gweithredu'r argymhellion a wnaed yn adroddiad arolygu gwerthuso perfformiad AGC i helpu'r Cyngor i gyflawni ei weledigaeth ar gyfer darparu gofal cymdeithasol ledled Ceredigion yn unol â'r model Llesiant Gydol Oes	Mai 2023 - Mawrth 2025	Audrey Somerton Edwards (Swyddog Arweiniol Corfforaethol Porth Cynnal a Chyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol)	- Sicrhau bod lleisiau pobl yn ganolog i'r gwaith rydym yn ei wneud - Cynyddu'r ddarpariaeth o seibiant i rieni a gofalwyr a chael effaith gadarnhaol ar ganlyniadau pobl - Sicrhau bod pobl yn cael gwybod pa mor dda y mae gwasanaethau gofal cymdeithasol yn cael eu darparu yng Ngheredigion - Blaenoriaethu gweithlu digonol a chynaliadwy sydd â'r gallu a'r gallu i fodloni cyfrifoldebau statudol yn gyson - Sicrhau dull safonol o oruchwylio a goruchwylio arfer Yn sicrhau gweithlu cymwys a hyderus - Darparu fframwaith sicrwydd ansawdd cadarn Sicrhau yr ymatebir yn gyson i gwynion yn unol â'r amserlenni penodedig
STATWS: Wedi Cwblhau yn Mawrth 2025			
Mae'r rhan fwyaf o'r meysydd gwella o Arolygiad Gwerthuso Perfformiad 2023 bellach wedi cael sylw a'u cydnabod fel gwelliannau yn y Gwiriad Gwella AGC mwy diweddar a gynhaliwyd ym mis Mai 2025. Tynnodd y Gwiriad Gwella sylw at y cynnydd cadarnhaol a wnaed mewn Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion, yn benodol, ymrwymiad y Cyngor i ofal sy'n canolbwyntio ar y person, arweinyddiaeth gref, a gweledigaeth glir ar gyfer gwelliant parhaus. Canfu'r Tim Arolygu hefyd fod ffocws strategol clir ar helpu pobl i osgoi bod angen gofal statudol hirdymor a hyrwyddo gwydnwch mewn cymunedau lleol, sef un o brif amcanion y Rhaglen Llesiant Gydol Oes. Ar ben hynny, mae pob cartref gofal preswyl a weithredir gan y Cyngor wedi'i raddio ar hyn o bryd fel 'Da' neu 'Rhagorol', gan adlewyrchu'r safonau uchel o ofal a chymorth a ddarperir ledled y sir. Mae'r materion sy'n weddill wedi'u cynnwys yn y cynllun gweithredu wedi'i ddiweddarau a fydd yn mynd trwy'r broses ddemocrataidd yn ystod hydref 2025.			

DISGRIFIAD	AMSERLEN	SWYDDOG ARWEINIOL	CANLYNIADAU
CYFLAWNI CYNLLUN STRATEGOL RHEOLI ASEDau SY'N GWEITHREDU FFYRDD NEWYDD O WEITHIO I STAFF CYNGOR SIR CEREDIGION AC YN GWELLA PROFIAD Y CWSMER			
Cyflawni'r Cynllun Strategol Rheoli Asedau newydd i adlewyrchu materion cyfredol, yn enwedig cefnogi ffyrdd newydd o weithio a manteisio ar y cyfleoedd sy'n bodoli ar ôl COVID-19 i sicrhau gwasanaethau cynaliadwy o ansawdd uchel	Ionawr 2023 - Mawrth 2026	Russell-Hughes Pickering (Swyddog Arweiniol Corfforaethol Economi ac Adfywio)	• Yn darparu strategaeth wedi'i diweddarau a hirdymor i reoli asedau ffisegol y Cyngor • Sicrhau defnydd effeithlon ac effeithiol o asedau'r cyngor (cronfeydd, tir, adeiladau, staff a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu) Yn cefnogi ffyrdd newydd o weithio ar ôl COVID-19 gan gynnwys rhesymoli asedau • Darparu strategaeth i ryddhau arbedion effeithlonrwydd a ffrydiau incwm newydd posibl • Sicrhau bod dull y Cyngor o reoli asedau yn addas at y diben a bod gwasanaethau'n gynaliadwy • Cefnogi gwasanaethau mwy cydgysylltiedig ac o ansawdd uchel
STATWS: Ar y Gweill ● Caiff y Cynllun Rheoli Asedau ei adolygu ar hyn o bryd, a bydd yn cael ei ddisodli gan Gynllun Rheoli Asedau Strategol cyffredinol newydd. Bydd gan y Cynllun newydd, a gaiff ei baratoi gan y Tîm Asedau, ddull gweithredu strategol ehangach, a bydd yn cynnwys y Strategaeth Gweithio Hybrid newydd sy'n llywio newid o ran ein dull gweithredu, y pwysau cyllidebol i resymoli ystad y Cyngor, a'r rhaglenni gwella mawr sy'n cael eu cyflawni, megis y rhai er mwyn gwella ysgolion a buddsoddi mewn cartrefi gofal. Er enghraifft, mae gwaith yn cael ei wneud i osod drysau tân newydd mewn cartrefi gofal preswyl ar sail risg i ddod â phob adeilad i fyny i safonau ôl-Grenfell, ac yna'r ysgolion mwy yn y sir. Mae gan y Cyngor gwahanol ffrydiau gwaith sy'n rheoli asedau, yn cynllunio gwelliannau, yn ystyried rhesymoli adeiladau ac opsiynau ailddatblygu. Mae hyn wedi'i gynnwys mewn Cynllun Datblygu cyffredinol sy'n cael ei baratoi trwy Grŵp datblygu'r Cyngor ac yn cael ei ariannu trwy'r rhaglen Gyfalaf. O dan y cynllun hwn, mae Rhaglen Datblygu Asedau, Rhaglen Gwella Ysgolion, Rhaglen Gwella Gofal, Strategaeth Hybrid a'r Cynllun Rheoli Carbon. Mae'r rhain mewn gwahanol gamau o ddatblygiad. Mae'r Cyngor wedi sefydlu prosiect 'Ffyrdd Newydd o Weithio', sydd â'r dasg o wireddu gweledigaeth ein Strategaeth Gweithio Hybrid ac o ganlyniad, mae'r prif adeiladau swyddfa yn cael eu haddasu at ddibenion gwahanol. Defnyddir lle yng Nghanolfan Rheidol gan Hywel Dda i ddarparu gwasanaethau ffisiotherapi ac i adleoli lle ar gyfer desgiau swyddfa o Fronglais. Mae lle ym Mhenmorfa wedi cael ei addasu at ddibenion gwahanol er mwyn darparu Canolfan Byw'n Annibynnol. Mae'r Rhaglen Gwella Ysgolion yn sefydledig ac fe'i hadolygwyd yn ddiweddar, er mwyn edrych ymlaen dros y 3, 6 a 9 mlynedd nesaf. Datblygir y Rhaglen Gwella Gofal gan ddefnyddio model tebyg i'r rhaglen gwella ysgolion, a bydd yn adlewyrchu anghenion y strategaeth Gydol Oes a Llesiant sy'n newid. Caiff rhaglen Re:Fit ei datblygu er mwyn darparu amrediad o fesurau arbed ynni mewn adeiladau gweithredol.			

BETH YW HUNANASESIAD?

Cyflwynodd Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 broses newydd ar gyfer monitro perfformiad pob awdurdod lleol, yn seiliedig ar hunanasesiad.

Mae'r gyfundrefn berfformiad newydd yn diffinio prif gynghorau fel 'sefydliadau hunan' wella' drwy system sy'n seiliedig ar hunanasesu ac asesiad perfformiad panel. Bwriad y dull newydd yw adeiladu ar, a chefnogi, diwylliant lle mae cynghorau'n herio'r sefyllfa bresennol yn barhaus ac yn gofyn cwestiynau am sut y maent yn gweithredu a sut y gallent ddysgu o arfer gorau. Bydd hunanasesiad tryloyw ac agored o gyngor yn rhan sylfaenol o'r dull hwn.

Mae hunanasesu effeithiol yn rhoi sicrwydd dibynadwy yn fewnol ac yn allanol i rheoleiddwyr ac arolygiaethau ac yn bennaf oll mae'n helpu cynghorau i ddysgu'n barhaus a chyflawni gwelliant cynaliadwy a chanlyniadau gwell i ddinasyddion, defnyddwyr gwasanaethau a'u gweithlu eu hunain.

Mae pum dyletswydd benodol wedi'u cyflwyno gan y Ddeddf:

1. Dyletswydd i barhau i adolygu perfformiad

Mae gan Gyngor Sir Ceredigion ddyletswydd i adolygu i ba raddau y mae'n cyflawni ei 'gofynion perfformiad' drwy bennu i ba raddau y mae:

- Arfer ei swyddogaethau yn effeithiol
- Defnyddio ei adnoddau yn economaidd, effeithlon ac effeithiol
- Sicrhau bod ei lywodraethu yn effeithiol ar gyfer sicrhau'r uchod

2. Dyletswydd i ymgynghori ar berfformiad

Rhaid i gynghorau ymgynghori ag amrywiaeth o bobl o leiaf unwaith ym mhob blwyddyn ariannol ynghylch i ba raddau y maent yn bodloni eu gofynion perfformiad. Yr ymgynghoreion statudol yw:

- Pobl leol
- Pobl eraill sy'n cynnal busnes yn y Sir
- Staff y Cyngor
- Pob Undeb Llafur a gydnabyddir gan y Cyngor

3. Dyletswydd i adrodd ar berfformiad

Rhaid i'r Cyngor gynhyrchu adroddiad hunanasesu bob blwyddyn ariannol. Rhaid i'r adroddiad nodi ei gasgliadau ynghylch i ba raddau yr oedd yn bodloni'r gofynion perfformiad, ac unrhyw gamau y mae'n bwriadu eu cymryd, neu y mae eisoes wedi'u cymryd i wella ymhellach.

4. Dyletswydd i drefnu panel asesu perfformiad

O leiaf unwaith ym mhob cyfnod etholiad, rhaid i'r Cyngor drefnu i banel annibynnol gynnal asesiad o'r graddau y mae'r cyngor yn bodloni'r gofynion perfformiad ac adrodd ar ei ganlyniadau. Mae'r Cyngor ar hyn o bryd yn paratoi i ymgymryd â'i Asesiad Panel Perfformiad cyntaf yn ystod 2024/25.

5. Dyletswydd i ymateb i panel asesu perfformiad

Rhaid i'r Cyngor baratoi ymateb i Adroddiad y Panel Asesu yn nodi

- I ba raddau y mae'n derbyn y casgliadau yn yr adroddiad
- Sut mae'n bwriadu dilyn unrhyw argymhellion
- Unrhyw gamau pellach y mae'r Cyngor yn bwriadu eu cymryd i wella perfformiad

Diben y darpariaethau perfformiad a llywodraethu yn y Ddeddf yw adeiladu a

chefnogi ar ddiwylliant sy'n datblygu, lle mae cynghorau'n mynd ati i geisio a chroesawu her, boed yn cael ei chyflwyno gan y cyngor, er enghraifft drwy weithdrefnau craffu, neu'n allanol. Mae'r darpariaethau wedi'u cynllunio i ddatblygu fframwaith sy'n cefnogi cynghorau, trwy broses adolygu barhaus, i feddwl am eu perfformiad a'u heffeithiolrwydd nawr ac ar gyfer y dyfodol; i annog sefydliadau mwy chwilfrydig sy'n barod i herio eu hunain i wneud mwy; a bod yn fwy arloesol a mwy uchelgeisiol yn yr hyn a wnânt.

Ymarfer Myfyriol

Ar gyfer Ceredigion, mae egwyddorion hunanasesu eisoes yn rhan annatod o'i threfniadau llywodraethu strategol a chorfforaethol parhaus.

Rydym yn cydnabod y cyfle ar gyfer hunan fyfyrto a her adeiladol. Er enghraifft, mae'r math hwn o arfer myfyriol eisoes yn rhan annatod o Ddatganiad Cynllunio Busnes a Llywodraethu Blyneddol y Cyngor, ac eisoes wedi'i hen sefydlu yn y Cyngor. Mae arfer myfyriol yn elfen graidd o broses rheoli perfformiad cyffredinol y Cyngor, ac yn canolbwyntio ar werthuso *sut rydym yn gwneud pethau* ac nid dim ond *yr hyn a wnawn*.

Rydym wedi mabwysiadu dull tebyg gyda Hunanasesu – mae arfer myfyriol yn rhan allweddol o'n Gweithdai Hunanasesu lle rydym yn myfyrio ar sut rydym yn gweithredu ar hyn o bryd, yr heriau a wynebwn yn y dyfodol a sut rydym yn ymgorffori cynaliadwyedd yn ein gweithgareddau wrth symud ymlaen.

Daeth Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) i rym yn 2021

Y Pum Dyletswydd ar y Prif Gynghorau yw:

CADW PERFFORMIAD O DAN ADOLYGIAD

YMGYNGHORI AR BERFFORMIAD

ADRODD AR BERFFORMIAD

TREFNU ASESIAD PANEL PERFFORMIAD

YMATEB I ASESIAD Y PANEL PERFFORMIAD

SUT YR YDYM YN CYNNAL HUNANASESIAD

Ein Dull o Hunanasesu

Mae ein dull at Hunanasesu yn seiliedig ar asesu ein hunain yn erbyn cyfres o Lwybrau Ymholi Allweddol. Mae “KLOEs” fel y cyfeirir atynt weithiau, yn gyfres o gwestiynau allweddol perthnasol yr ydym yn eu gofyn i ni ein hunain wrth i ni weithio drwy'r Hunanasesiad.

Mae'r dull Llinellau Ymholi Allweddol yn ddull profedig o gynnal hunanasesiadau mewn Llywodraeth Leol ac ar draws y sector cyhoeddus ehangach. Mae'n sicrhau ein bod yn parhau i ganolbwyntio ar y farn gorfforaethol neu 'gyfannol' o berfformiad y Cyngor fel sy'n ofynnol gan y Ddeddf. Mae hefyd yn darparu'r eglurder hunanwerthuso sydd ei angen i'n helpu i nodi cyfleoedd ar gyfer gwella, ac wrth wneud hynny, mae'n darparu llwybr archwilio cryf i esbonio'r camau gweithredu yr ydym wedi'u cymryd wrth ymateb.

Cofnodir y canfyddiadau yn ein dogfen Matrics Hunanasesu. Mae'r Matrics yn cofnodi'r dystiolaeth sy'n dangos sut yr ydym yn perfformio ar hyn o bryd, ein huchelgeisiau ar gyfer y dyfodol a'r camau y mae angen inni eu cymryd er mwyn cyflawni'r uchelgeisiau hynny. Defnyddir y ddogfen hon i nodi'r cyfleoedd sy'n bodoli ar gyfer gwelliant ac fe'i defnyddir i ddatblygu ein Cynllun Gweithredu Hunanasesu.

Cylchred Barhaus

Mae hunanasesu yn broses barhaus o welliant - yn ystod y flwyddyn rydym yn cynnal ymgynghoriad i gefnogi hunanasesiad, rydym yn coladu tystiolaeth i lywio ein gweithdai, rydym yn cyflawni'r camau gweithredu yn ein cynllun gweithredu Hunanasesiad ac rydym yn monitro eu cynnydd tuag at ei gwblhau. Yr Adroddiad Hunanasesu yw'r allbwn allweddol o'r broses ond mae'r gwaith ar wella canlyniadau yn weithgaredd parhaus drwy gydol y flwyddyn.

Mae'r diagram isod yn crynhoi'r prif gamau a'r graddfeydd amser sydd ynghlwm wrth gynnal yr Hunanasesiad a chynhyrchu'r Adroddiad Hunanasesu.

Gwerthuso, Myfyrio ac Adnabod Cyfleoedd

Yn ystod mis Ebrill bob blwyddyn rydym yn dod ag amrywiaeth eang o dystiolaeth ynghyd i'n helpu i asesu ein perfformiad presennol. Mae hyn yn cynnwys monitro perfformiad mewnol, megis dangosfyrdd perfformiad ac adroddiadau cwynion, adroddiadau rheolyddion o arolygiadau a chanlyniadau gweithgareddau ymgynghori ac ymgysylltu.

Rydym yn cynnal ymarfer o adolygu'r dystiolaeth i nodi canfyddiadau allweddol - lle mae perfformiad wedi gwella, lle mae cyfleoedd i wella a beth yw'r themâu allweddol o'n hymgynghoriad.

Cyflwynir canfyddiadau'r ymarfer hwn i Weithdai Hunanasesu gyda Grŵp Arweiniol y

Cyngor a Phwyllgor Cydlynw Trosolwg a Chraffu i helpu i asesu ein perfformiad.

Yn y gweithdai rydym yn ailasesu ein hunain yn erbyn y Prif Linellau Ymholi, gan ddiweddarau ein tystiolaeth ar gyfer pob cwestiwn a defnyddio hyn i nodi camau gweithredu ar gyfer gwella. Maent yn adolygu'r dystiolaeth sydd ar gael iddynt ac yn ychwanegu eu persbectif eu hunain i ddarparu sgorau wedi'u diweddarau ar gyfer pob cwestiwn.

Mae'r gweithdai canfyddiadau'n cael eu coladu gan y Tîm Perfformiad ac Ymchwil. Maent yn cynhyrchu'r Adroddiad Hunanasesu drafft trwy dynnu ar y matrics tystiolaeth, y sgorau a'r camau gwella a nodwyd yn y gweithdy, ynghyd â ffynonellau allweddol eraill megis strategaethau allweddol ac adroddiadau arolygu.


Mae rhan o'r coladu'n cynnwys croeswiro'r sgôr gyda'r dystiolaeth a ddarparwyd a cheisio eglurder ar ein casgliadau lle bo angen. Mae bylchau mewn tystiolaeth a dealltwriaeth o'n perfformiad hefyd yn cael eu hamlygu, sydd i

gyd wedi'u cynllunio i sicrhau bod y broses yn gadarn.

Drwy ganolbwyntio ar hyn, gallwn ddysgu o'n profiadau a manteisio ar yr arloesedd a'r creadigrwydd sy'n bodoli yn y Cyngor i nodi cyfleoedd i wella ein perfformiad, boed hynny drwy godi lefelau perfformiad, nodi effeithlonrwydd neu wella boddhad cwsmeriaid.

Mae Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio'r Cyngor yn chwarae rhan allweddol yn y proses Hunan Asesu. Maent yn gyfrifol am adolygu'r Adroddiad Hunanasesu drafft a gwneud argymhellion ar gyfer newidiadau i'r casgliadau y daethpwyd iddynt neu'r camau y mae'r Cyngor yn bwriadu eu cymryd. Caiff yr Adroddiad drafft ei adolygu gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ym mis Medi.

Caiff yr Adroddiad Hunanasesu ei ddiweddarau yn dilyn argymhellion y Pwyllgor a chyflwynir yr adroddiad terfynol i'r Cabinet i'w gymeradwyo ym mis Tachwedd. Ar ôl ei gymeradwyo, caiff yr Adroddiad ei gyhoeddi a'i gyflwyno i'r derbynwyr statudol, gan gynnwys copi terfynol a gyflwynir i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.




HUNANASESIAD YN EIN FFRAMWAITH PERFFORMIAD

Integreiddio i Fframwaith Perfformiad y Cyngor

Nid yw hunanasesu yn broses annibynnol, yn hytrach mae wedi'i hintegreiddio fel rhan o drefniadau cynllunio corfforaethol a rheoli perfformiad parhaus y Cyngor. Mae'r diagram isod yn dangos sut mae hunanasesu yn cyd-fynd â'n fframwaith perfformiad cyffredinol.

Mae'n hanfodol i lywio Cynllunio Busnes a Rheoli Risg, ac yn ei dro mae'n tynnu ar ganlyniadau monitro cynlluniau busnes a'r gofrestr risg gorfforaethol i werthuso ein perfformiad presennol a chwblhau'r hunanasesiad. Yn ei hanfod, mae'n gyfathrebu dwy ffordd rhwng pob piler o'r Fframwaith Perfformiad.

Mae amseriad Hunanasesiad hefyd yn bwysig. Mae wedi'i amseru i lywio a dylanwadu'n dryloyw ar brosesau cynllunio strategol, rheolaeth ariannol a chyllideb y Cyngor, adolygiadau rheoli risg, cynllunio gwelliant a rheoli perfformiad parhaus. Er enghraifft, mae cyhoeddi'r Adroddiad Hunanasesu ym mis Tachwedd yn sicrhau ei fod yn cael ei baratoi mewn pryd i lywio'r broses cynllunio busnes a gosod targedau blynyddol yn chwarter olaf pob blwyddyn rhwng Ionawr a Mawrth.



Hunanasesiad yn y Fframwaith Perfformiad Ehangach

Mae gan Geredigion hanes hir o ddefnyddio hunanasesu yn effeithiol i ganfod ffyrdd arloesol o ddarparu gwasanaethau, yn fwyaf diweddar yn y 'Rhaglen Gydol Oed a Llesiant' sy'n cael ei rhoi ar waith i drawsnewid darpariaeth gofal cymdeithasol yn y Sir dros y pum mlynedd nesaf.

Mae hefyd yn rhan annatod o berfformiad gweithredol a chaiff ei ddefnyddio wrth osod cynlluniau busnes blynyddol ar gyfer pob gwasanaeth. Rydym i gyd yn cydnabod bod capasiti yn brin a bod galw mawr, ac o ganlyniad ni fu cynllunio busnes effeithiol erioed mor bwysig i sicrhau ein bod yn darparu'r 'gwasanaethau cywir yn y ffordd gywir'. Mae cael y cyfle i 'fyfyr'io' ar berfformiad y gorffennol a'r presennol yn hanfodol i ddeall ein cryfderau, ein gwendidau a'n cyfleoedd. Mae'r math hwn o ymarfer myfyriol yn hollbwysig i'n helpu i bennu ein gweithredoedd a'n blaenoriaethau ar gyfer y blynyddoedd i ddod.

Y Llinyn Aur

Mae'r Cyngor yn defnyddio diagram 'Llinyn Aur' (a ddangosir ar y dde) i ddangos y cysylltiadau rhwng ei strategaethau a'i gynlluniau allweddol. Mae'n disgrifio'r llif gwybodaeth o flaenoriaethau cenedlaethol a rhanbarthol ar gyfer gwella a gynhwysir yn y Cynllun Llesiant Lleol a'r Strategaeth Gorfforaethol, drwodd i wasanaethau unigol, timau ac aelodau o staff y Cyngor sy'n gyfrifol am eu cyflawni.

Mae Llinyn Aur cryf yn bwysig gan ei fod yn dangos sut mae pob lefel o gynllunio a gweithredu yn cyfrannu at y lefel nesaf, a sut mae pob rôl o fewn y Cyngor yn cyfrannu at gyflawni Amcanion Llesiant Corfforaethol Ceredigion.

Mae lle allweddol i hunanasesu yn y Llinyn Aur fel y ffordd yr ydym yn mesur llwyddiant ac yn ysgogi gwelliannau perfformiad, ynghyd â Chynllunio Busnes a rheolaeth a risg.

Y 'Llinyn Aur' yng Ngheredigion



RHEOLI EIN PERFFORMIAD

Ein Siwrne Perfformiad

Yn syml, mae rheoli perfformiad yn cymryd camau mewn ymateb i berfformiad gwirioneddol a pherfformiad a ragwelir i wneud canlyniadau i bobl Ceredigion yn well nag y byddent fel arall.

Dros y pedwar blynedd diwethaf, mae dull Ceredigion o reoli perfformiad wedi'i adfywio a'i ddiweddarau. Ers hynny, gwnaed cynnydd da yn adeiladu diwylliant cryf o reoli perfformiad ar draws y sefydliad, ac yn paratoi ar gyfer y drefn newydd o Hunanasesu perfformiad a gyflwynwyd dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021. Caiff hyn ei adlewyrchu yn y broses cynllunio busnes newydd, ail-lansiad y Bwrdd Perfformiad, a'r adborth positif i ddulliau'r Cyngor o hunanasesu.

Mae'r ddeddfwriaeth newydd yn pwysleisio pwysigrwydd ymgorffori diwylliant rheoli perfformiad cryf, a sicrhau hyn yw prif egwyddor siwrne perfformiad barhaus y Cyngor.

Mae'r hyn a ddysgwyd yn ystod pandemig COVID-19 wedi creu'r cyfle i gyflwyno newidiadau a gwelliannau cynaliadwy drwy ffyrdd newydd o weithio, a buddsoddi mewn technolegau newydd i ddarparu gwasanaethau o ansawdd da, a hynny mewn ffordd effeithlon sy'n ystyriol o'r amgylchedd.

Mae gan y Cyngor enw da am arloesi a dros y pum mlynedd nesaf mi fydd yn parhau i ddatblygu'r dull arloesol hwn ac yn symud tuag at ffyrdd mwy hyblyg a doeth o weithio. Bydd rheoli perfformiad yn chwarae rôl allweddol yn y trawsnewid hwn.

Pwy sydd yn gyfrifol am Rheoli Perfformiad?

Mae pawb yn gyfrifol am reoli perfformiad – mae gan bawb rôl i'w chwarae o ran cyflawni amcanion y cynllun busnes, y tasgau a'r mesurau sy'n cynorthwyo i gyflawni'r Amcanion Llesiant Corfforaethol a gweledigaeth gyffredinol y Cyngor. Mae Tabl 1 yn dangos pwy sy'n gyfrifol am beth.

Fframwaith Rheoli Perfformiad

I sicrhau ein bod yn cyflawni hyn, mae gennym Fframwaith Rheoli Perfformiad yn ei le sy'n caniatáu inni adolygu ac olrhain cynnydd yn rheolaidd, gwirio sut rydym yn perfformio, a sicrhau ein bod yn cyflawni'r Amcanion Llesiant Corfforaethol ac yn gwella canlyniadau i bobl a chymunedau Ceredigion.

Mae'r fframwaith rheoli perfformiad yn gweithredu ochr yn ochr â strwythur cyffredinol y Strategaeth Gorfforaethol, Strategaeth Ariannol Tymor Canolig, Amcanion Llesiant Corfforaethol, Datganiad Llywodraethu Blyneddol, a Rheoli Rhaglenni/Prosiectau.

Mae'n rhan o broses cynllunio corfforaethol y Cyngor ac yn sicrhau dealltwriaeth gyson o egwyddorion rheoli perfformiad, a sut y cânt eu gweithredu yng Ngheredigion.

Y Cylchred Gwelliant Parhaus


Mae ein dull o reoli perfformiad yn seiliedig ar gylchred gwelliant parhaus, sy'n dilyn y cylchred Cynllunio-Gwneud-Adolygu a gydnabyddir gan y diwydiant, ac a ddangosir yn y diagram isod. Mae'r cylchred hwn yn seiliedig ar y camau canlynol:

- **Cynllunio** ein gweithgareddau i gyflawni'n gweledigaeth a'n Hamcanion Llesiant Corfforaethol
- **Gwneud** neu gyflawni'r gweithgareddau

- **Adolygu** ein cynnydd yn rheolaidd i asesu a ydyn ni'n cyflawni'n hamcanion
- **Myfyrio** ar y ffordd rydym yn cyflawni'n gweithgareddau i nodi cyfleoedd i wella, neu i fod yn fwy effeithlon, neu'r ddau.

Mae Rheoli Perfformiad yn flaenoriaeth uchel yng Ngheredigion. Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i wella'n barhaus, ac mae'n gofyn barn y trigolion ac yn hunanwerthuso'n rheolaidd i nodi cyfleoedd i wella.

Y Cylchred Gwelliant Parhaus yng Ngheredigion



- Cynllunio
- Gwneud
- Adolygu
- Adlewyrchu

ASESIAD SY’N SILIEDIG AR DYSTIOLAETH

Mae Ceredigion yn ymdrechu i fod yn sefydliad a yrrir gan dystiolaeth a data. Defnyddiwyd amrywiaeth eang o dystiolaeth wrth asesu ein perfformiad ac wrth gynhyrchu'r adroddiad hwn.

Rhennir y ffynonellau hyn yn dri chategori sy'n ein helpu i wirio bod ein casgliadau'n gywir a darparu darlun cywir o'n perfformiad presennol.

- Cynhaliwyd Gwobrau Caru Ceredigion am y tro cyntaf ym mis Rhagfyr 2024 i ddathlu talent eithriadol y sir a chyflawniadau busnesau, prosiectau cymunedol ac unigolion ar draws y sir. Trefnwyd y gwobrau gan Gynnal y Cardi, a chawsant dros 130 o geisiadau, a gwelwyd 36 yn cyrraedd y rowndiau terfynol ac yn cystadlu yn erbyn ei gilydd mewn 12 categori. Mae'r gwobrau yn rhan o ymgyrch Caru Ceredigion, sy'n ceisio meithrin ymdeimlad o falchder yn y sir, gan annog gweithgareddau sy'n gwella'r amgylchedd, sy'n cynorthwyo busnesau lleol, ac sy'n cryfhau'r gymuned.
- Mae Cyngor Sir Ceredigion a'i bartneriaid ar Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion yn parhau i weithio mewn ffordd ragweithiol i leddfu achosion ac effeithiau tlodi yng Ngheredigion. Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae partneriaid wedi bod yn cydweithio er mwyn helpu i leihau costau aelwydydd a chynyddu incwm pobl sy'n wynebu caledi gymaint ag y bo modd, gan gynyddu ein dealltwriaeth o dlodi lleol a rhoi sylw i'r stigma sy'n gysylltiedig â byw mewn tlodi.
- Agorwyd Neuadd Marchnad Aberteifi ym mis Chwefror 2025, ar ôl iddi gael ei hadnewyddu a'i moderneiddio. Roedd y prosiect £3 miliwn, a arweiniwyd gan Ymddiriedolaeth Diogelu Adeiladau Aberteifi ac a ariannwyd gan raglen Trawsnewid Trefi Llywodraeth Cymru a Chyngor Sir Ceredigion, wedi hwyluso'r gwaith o adfer a thrwsio'r Neuadd Farchnad Gradd 2 hanesyddol, gan sicrhau ei chynaliadwyedd a'i dyfodol dros y tymor hir ar gyfer masnachwyr a chynnig cyfleoedd i fentrau newydd. Yn ogystal â bod yn fan i fusnesau bychain ddatblygu a thyfu, gan

sicrhau cyflogaeth gynaliadwy dros y tymor hir, mae'n cynnig gwerth treftadaeth sylweddol i'r dref hefyd, gan ddenu ymwelwyr o'r ardal ehangach.

- Yn ystod 2024/25, cafodd Tîm Dysgu a Datblygu y Cyngor Gyllid Ffyniant Gyffredin y DU er mwyn cynorthwyo cyfleoedd prentisiaeth yn y Cyngor. Cyflogwyd wyth prentis yn y lle cyntaf, ac roedd pedwar o'r rhain wedi llwyddo i sicrhau cyflogaeth gyda'r Cyngor yn ddiweddarach. Mae'r Gronfa yn rhan o Agenda Ffyniant Bro Llywodraeth y DU, ac mae'n ceisio gwella cyfleoedd bywyd a "balchder mewn lle" trwy fuddsoddi mewn cymunedau, busnesau lleol, a sgiliau pobl.
- Defnyddiwyd y Gronfa Ffyniant Gyffredin hefyd i ddatblygu llyfrgell adnoddau amlgyfrwng yn y Cyngor a fydd yn cynorthwyo prentisiaethau a gweithgarwch recriwtio ehangach yn y dyfodol. Mae'r adnoddau hyn yn cynnwys map gyrfaedd rhyngweithiol a ddefnyddir yn ystod ffeiriau gyrfaedd, digwyddiadau dros dro ac mewn ysgolion lleol.
- Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, gwelwyd cynnydd rhagorol wrth ddatblygu mentrau gofal micro yng Ngheredigion, gan ddarparu amrediad o gymorth er mwyn helpu unigolion i fyw bywyd annibynnol megis cymorth yn y cartref, cwmniaeth a gofal personol. Sefydlwyd 40 menter yn ystod y flwyddyn gyda chymorth PLANED, yr elusen gymunedol sy'n gweithio ar draws Gorllewin Cymru i ddarparu canlyniadau cynaliadwy i gymunedau.
- Yn ystod 2024/25, sefydlwyd safle lansio technoleg bwyd a thechnoleg amaethyddol sy'n werth £1.5m yng Nghanolbarth a Gogledd Cymru, a fydd yn ceisio cynorthwyo clwstwr o brosiectau busnes sy'n canolbwyntio ar arloesi. Mae'r fenter hon yn frwyth cydweithio rhwng Tyfu Canolbarth Cymru, Innovate UK, Llywodraeth Cymru, ac Uchelgais Gogledd Cymru. Bydd y cyllid yn helpu busnesau i dyfu eu gweithgareddau yn y sectorau technoleg bwyd a thechnoleg amaethyddol, yn lleol ac ar lwyfan byd-eang.

CYFLAWNIADAU

£10.8m

o gyllid cyfalaf wedi'i sicrhau trwy'r Gronfa Codi'r Gwastad i adfywio Aberystwyth

6

prosiect yng Ngheredigion wedi derbyn Gronfa Ffyniant Gyffredin i hybu sgiliau rhifedd oedolion Ceredigion

539

busnes wedi'i cefnogi ar draws Ceredigion

50

busnes newydd wedi'i cefnogi ar draws Ceredigion

8

cyfleoedd prentisiaeth wedi cynnig o fewn y Cyngor yn ystod y flwyddyn

40

menter gofal micro wedi sefydlu yn ystod 2024/25

6,865

o bobl wedi ymweld â Wefan Costau Byw y Cyngor i helpu i drechu tlodi

£1.5m

pad lansio amaeth-dechnoleg a thechnoleg bwyd yng Nghanolbarth a Gogledd Cymru wedi sefydlu



GWELLA CANLYNIADAU



GALLUOGI CYFLOGAETH

Mae Tim Cymorth Cyflogadwyedd Ceredigion yn gweithio gydag oedolion yng Ngheredigion nad ydynt mewn cyflogaeth, addysg na hyfforddiant er mwyn gwella eu rhagolygon gyrfa ymhellach, a rhoddir y ffocws pennaf ar y rhai sydd yn y perygl mwyaf o fod dan anfantais.

Mae mentoriaid yn cynnig cymorth 1:1 i gyfranogwyr wrth ysgrifennu CV, cynnal cyfweiliadau ffug, uwchsgilio a chyllid er mwyn lleihau amrywiaeth eang o rwystrau sy'n atal unigolion rhag manteisio ar gyflogaeth.

Yn ystod 2024/25, mae'r Tim wedi llwyddo i sicrhau cynnydd da, gyda 282 o atgyfeiriadau rhwng mis Mawrth a mis Rhagfyr 2024, ynghyd â'r ffaith bod 324 o gyfranogwyr wedi cael eu cynorthwyo at ei gilydd.

Gyda chymorth y prosiect, mae cyfranogwyr wedi sicrhau amrywiaeth o ganlyniadau, er enghraifft, mae rhai wedi sicrhau cyflogaeth ac mae eraill wedi cychwyn ar leoliadau gwirfoddoli, cyfleoedd gwaith am dâl neu gwblhau hyfforddiant. Mae cysiau hyfforddiant yn amrywio o gymwysterau Cymorth Cyntaf, lletygarwch, manwerthu, gofal iechyd, a chardiau diogelwch adeiladu.

Cynhaliwyd amrywiaeth o weithdai yn ystod y flwyddyn, gan gynnwys lletygarwch, hylendid bwyd a rhifedd, gyda chymorth busnesau lleol. Cynlluniwyd y gweithdai i gynyddu cyfleoedd cyflogaeth, hyrwyddo lles a chymdeithasu, gan weithio mewn partneriaeth gyda busnesau a gwasanaethau yng Ngheredigion.

Bydd y Tim yn datblygu'r llwyddiant a sicrhawyd hyd yn hyn dros y 12 mis nesaf er mwyn helpu preswylwyr Ceredigion i feithrin hyder, sgiliau newydd, sicrhau cyflogaeth a lleihau tiodi.



RHANNU FFYNIANT

Mae Strategaeth Economaidd 15 mlynedd Ceredigion yn nodi sut y byddwn yn cydweithio er mwyn sicrhau twf economaidd cadarn, cynaliadwy a mwy cydnherth ar gyfer Ceredigion, a gaiff ei greu a'i rannu gan bawb.

Mae'r Strategaeth yn canolbwyntio ar y meysydd dylanwad lle y gall y Cyngor wneud gwahaniaeth i'r economi, h.y. sut y mae'n defnyddio ei gyfalaf, ei bobl a'i asedau referniw i gael effaith gadarnhaol ar yr economi yng Ngheredigion.

Mae'r Strategaeth yn nodi'r camau a fydd yn rhoi sylw i'r heriau a'r cyfleoedd sy'n bodoli yn yr economi leol. Mae'n canolbwyntio ar bedwar prif faes blaenoriaeth – Pobl, Menter, Lle a Chysylltedd, ac mae pob adran yn amlinellu rhai o'r ymyriadau cynnar a ystyriwyd.

Datblygwyd y gweithredwyd nifer o fentrau eisoes dan y cyfeiriad strategol a bennwyd gan y Strategaeth Economaidd. Llwyddwyd i sicrhau swm arwyddocaol o gyllid allanol gan amrediad o sefydliadau rhanddeiliaid, a fydd yn golygu y bydd modd gosod y blociau adeiladu ar gyfer twf economaidd pellach yn eu lle.

Mae'r buddsoddiad a'r gwaith o gyflawni prosiectau hyd yn hyn wedi cynorthwyo nodau'r strategaeth i gynorthwyo busnesau i sefydlu a thyfu, gan hyrwyddo Ceredigion fel lle i fyw, gweithio ac ymweld ag ef, gan arwain at feithrin sgiliau yn y gweithlu.

Bydd y Strategaeth yn parhau i dywys datblygiad prosiectau pellach er mwyn cyflawni nodau'r Strategaeth dros y bymtheg mlynedd nesaf.



TYFU'R ECONOMI

Mar bagen Twf Canolbarth Cymru wedi parhau i sicrhau cynnydd yn ystod 2024/25, ac mae bellach yn y cam cyflawni, sy'n golygu bod prosiectau a rhaglenni wedi dechrau cyflawni eu gwaith yn ystod 2024/25, gan arwain at greu swyddi, rhoi hwb i weithgarwch economaidd a denu buddsoddiad pellach.

Ar ôl cael cyfran gyntaf y cyllid yn ystod y flwyddyn flaenorol, a oedd yn werth £4m, cadarnhaodd llywodraethau Cymru a'r DU y byddai ail gyfran y cyllid yn cael ei rhyddhau ym mis Mawrth 2025, a fyddai'n werth £11.8m.

Datblygiad Llynnoedd Cwm Elan yw'r prosiect cyntaf i sicrhau cymorth gan Fargen Twf Canolbarth Cymru, a fydd yn gwella'r profiad i ymwelwyr, rhoi hwb i referniw lleol ac yn diogelu bioamrywiaeth a harddwch naturiol Cwm Elan. Disgwylir i'r cam cyntaf yn unig gael effaith economaidd flynyddol o £4m, ac amcangyfrifir y bydd £17m yn cael ei gyfrannu i'r economi ranbarthol erbyn 2040.

Mae'r Fargen Twf yn bartneriaeth sy'n torri tir newydd, gan ddwyn buddsoddiad cyfunol o £110m gan Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru, y disgwylir iddo sicrhau buddsoddiad ychwanegol sylweddol gan fffynonellau cyhoeddus a phreifat eraill.

Mae hon yn garreg filltir allweddol i Geredigion a rhanbarth Canolbarth Cymru ac mae'n ategu ymddiriedaeth Llywodraeth Cymru a'r DU yn y Fargen Newydd i gyflawni ei hamcanion.

Bydd y rhaglenni a'r prosiectau a bydd yn ffurfio o Bortffolio Bagen Dwf Tyfu

Canolbarth Cymru yn cyfrannu tuag at drosgrwyddiad un o'r meysydd Blaenoriaeth Twf Strategol canlynol:

- Arloesi ac Ymchwil Gymhwysol
 - Amaethyddiaeth, Bwyd a Diod
 - Cynnig Twristiaeth Cryfach
 - Digidol
 - Cynorthwyo Menter
- Disgwylir i'r Fargen Twf ddwyn buddion uniongyrchol ac anuniongyrchol, gan gynnwys twf o ran ffyniant rhanbarthol a chreu swyddi o ansawdd gwell ar gyfer y farchnad lafur leol. Bydd dyraniad cyntaf y cyllid i'r rhanbarth yn galluogi Tyfu Canolbarth Cymru i gynnig cymorth ariannol i'r prosiectau a'r rhaglenni pan fyddant yn barod i'w gael.

Mae'r allbynnau y mae modd eu cyflawni yng Nghanolbarth Cymru trwy gyfrwng buddsoddiad y Fargen Twf fel a ganlyn:

- Creu rhwng 1,100 a 1,400 o swyddi newydd yng Nghanolbarth Cymru erbyn 2032.
- Cynorthwyo ymgodiad Gwerth Ychwanegol Gros (GVA) ychwanegol net o rhwng £570m a £700 miliwn ar gyfer Economi Canolbarth Cymru erbyn 2032.
- Darparu buddsoddiad cyfan gwbl o hyd at £400 miliwn yn economi Canolbarth Cymru erbyn 2032.

Mae'r canlyniadau y disgwylir i'r Fargen Twf eu cyflawni fel a ganlyn:

- Twf mewn ffyniant rhanbarthol
- Creu swyddi o ansawdd gwell ar gyfer y farchnad lafur leol
- Gweithlu mwy medrus yn y rhanbarth
- Gwelliannau mewn safonau byw ar draws y rhanbarth.

Yn ogystal, disgwylir i'r rhaglenni a'r prosiectau a gefnogir gan y Fargen Twf i sicrhau buddion cymdeithasol ac economaidd ehangach, megis **ansawdd bywyd gwell, creu cyfleoedd** busnes yn dilyn effaith COVID-19, **datgarboneiddio** mewn diwydiant ac ystyried effeithiau newid hinsawdd.

DARPARU DATBLYGU CYNALIADWY

Asesiad cyffredinol o'r daith hyd yn hyn

Mae cynnydd wrth fodloni'r flaenoriaeth hon yn **dda** ac mae'r rhagolygon gwella yn **dda**. Mae'r camau i roi hwb i'r economi, cynorthwyo busnesau a galluogi cyflogaeth yn mynd rhagddynt yn dda. Mae'n werth nodi bod ail gyfran Cyllid Bargen Twf Canolbarth Cymru, £11.8m, wedi cael ei sicrhau er mwyn datgloi potensial yr economi leol a chreu amrywiaeth o gyfleoedd ar gyfer datblygu sgiliau a chyflogaeth busnesau lleol.

Mae Partneriaeth Tyfu Canolbarth Cymru yn enghraifft o gydweithio i sicrhau ein bod yn cryfhau'r economi leol a rhanbarthol fel rhan o Gymru lewyrchus a chydnerth.

YN BERCHEN AR EIN HUCHELGAIS

MWYHAU EIN CYFRANIAD AT Y NODAU LLESIANT CENEDLAETHOL

Mae'r nod llesiant corfforaethol **Hybu'r economi, cefnogi busnesau a galluogi cyflogaeth** yn cefnogi'r nodau llesiant cenedlaethol canlynol.

Llewyrchus

Cydnerth

Iachach

Mwy Cyfartal

Cydlunus

Diwylliant

Byd-eang



Hirdymor

- Mae'r Strategaeth Economaidd yn cynllunio ar gyfer datblygiad hirdymor yr economi hyd at 2035
- Mae Bargen Twf Canolbarth Cymru a'r Strategaeth Economaidd yn mynd i'r afael â gwendidau strwythurol hirdymor
- Mae Partneriaeth Tyfu Canolbarth Cymru yn gosod y weledigaeth ar gyfer amserlen 15+ mlynedd
- Defnyddiwyd dadansoddiad tueddiadau yn y dyfodol i ddatblygu gweledigaeth Tyfu Canolbarth Cymru



Atal

- Bydd mwy o gyfleoedd economaidd yn atal allfudo pellach o bobl ifanc medrus
- Bydd twf economaidd yn atal effaith negyddol patrymau mudo yn y dyfodol ar y Gymraeg a diwylliant Cymru
- Bydd ymyriadau yn y Strategaeth Economaidd yn atal twf pellach yn y bwlch cynhyrchiant
- Bydd denu a chreu cyfleoedd swyddi â chyflogau uchel yn helpu i atal aelwydydd rhag mynd i dloidi a chaledi



Cydweithio

- Mae Partneriaeth Tyfu Canolbarth Cymru yn dod â'r sectorau cyhoeddus, preifat ac academaidd ynghyd i gyflawni nodau a rennir
- Gweithio gyda Chyngor Sir Powys a Llywodraeth Cymru a'r DU i wneud y defnydd gorau o adnoddau a manteisio ar gyfleoedd
- Mae Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol Canolbarth Cymru yn dod ag arweinwyr busnes a rhanddeiliaid ar draws y rhanbarth ynghyd i ddeall y ddarpariaeth sgiliau ac anghenion y farchnad lafur, er mwyn ysgogi buddsoddiad sy'n bodloni gofynion cyflogwyr a'r gweithlu.



Cynnwys

- Mae busnesau'r sector preifat, yr ysgogwyr twf economaidd yn y dyfodol, yn rhan o'r gwaith o nodi blaenoriaethau a strategaethau allweddol
- Y sector preifat, y sector cyhoeddus a'r trydydd sector sy'n ymwneud â llunio rhaglen y Cynllun Twf sy'n dod i'r amlwg
- Ymgwymerwyd yn helaeth â datblygiad y Strategaeth Economaidd
- Seiliwyd yr Arolwg Llesiant Rhanbarthol sy'n allweddol o ran llywio'r holl strategaethau lleol ar ymgysylltu helaeth â'r cyhoedd a rhanddeiliaid



Integreiddio

- Mae'r Strategaeth Economaidd yn darparu gweledigaeth a chamau gweithredu a rennir ar gyfer datblygu'r economi leol a bydd yr ymyriadau a gynhwysir ynddi yn cael eu cyflawni gan amrywiaeth o bartneriaid a rhanddeiliaid dros y 15 mlynedd nesaf.
- Strategaethau twf economaidd wedi'u hintegreiddio â gwasanaethau eraill a ddarperir, gan gynnwys addysg, sgiliau, cynllunio a seilwaith

CYFLAWNIADAU MESUR ALLWEDDOL

£11.8m

o gyllid Bargen Twf Canolbarth Cymru wedi'i ddatgloi i hybu'r economi a chreu swyddi ar draws y rhanbarth

184

swydd newydd wedi creu yn ystod y flwyddyn drwy waith y Cyngor sydd yn cynyddu twf economaidd, yn gwella lles cymdeithasol ac yn creu cyfleoedd i ddatblygu gyrfa.

324

o gyfranogwyr wedi cefnogi gan Dîm Cymorth Cyflogadwyedd Ceredigion sydd yn helpu i gynyddu cyfleoedd cyflogaeth, a hyrwyddo llesiant

£12.4m

wedi dyrannu i Geredigion yn Gronfa Ffyniant Gyffredin y DU i fuddsoddi mewn balchder mewn lle a chynyddu cyfleoedd bywyd ar draws y Sir



CREU CYMUNEDAU GOFALGAR AC IACH

CYNNYDD A WNAED

- Mae Ceredigion wedi ymateb i'r heriau ym maes darparu gofal cymdeithasol trwy symud at gyfuno'r gwasanaethau plant ac oedolion, yr oeddent ar wahân yn flaenorol, mewn un Gwasanaeth Lles Gydol Oes. Mae hyn yn gwaredu rhwystrau adrannol, gan gynnig gwasanaeth gydol oes mwy cyson i ddefnyddwyr, a chan gynnal sgiliau cyffredinol a hyblygrwydd staff.
- Mae'r gwaith o weithredu a chyflawni'r Rhaglen Lles Gydol Oes (TAW) yn parhau wrth i'r broses o drawsnewid gwasanaethau symud yn ei blaen yn dda wrth integreiddio Gofal Cymdeithasol a Dysgu Gydol Oes yn 3 Gwasanaeth - Porth Cymorth Cynnar, Porth Gofal a Phorth Cynnal, y maent, law yn llaw â Chyswllt Cwsmeriaid, yn creu'r 4 prif faes sy'n dod o fewn Rhaglen newid Lles Gydol Oes.
- Ym mis Mai 2023, cynhaliodd Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) arolygiad gwerthuso perfformiad o Wasanaethau Cymdeithasol Cyngor Sir Ceredigion. Roedd yr arolygiad wedi myfyrio mewn ffordd gadarnhaol ar y Rhaglen Gydol Oes, gan wneud rhai argymhellion er mwyn sicrhau gwelliant pellach. Rhoddwyd sylw i'r rhan fwyaf o feysydd gwelliant erbyn hyn, ac wrth i ni symud i ail hanner Rhaglen Llesiant Gydol Oes 2025-27, bydd yn canolbwyntio fwyfwy ar gryfhau arferion sylfaenol, ynghyd ag ymateb i a sicrhau camau unioni o arolygiad AGC.
- Mae'r Cyngor wedi gweithio gyda Chymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Ceredigion (CAVO) i gynnal rhwydwaith o 46 o Fannau Croeso Cynnes ar draws y sir. Y nod yw annog cymunedau i ddod ynghyd i fwynhau 'sgwrs a phaned', ac mae rhai yn cynnig prydau poeth a gweithgareddau.
- Mae'r Cyngor wedi cymryd 1,600 o gamau gorfodi, gan gynnwys erlyniadau, er mwyn helpu i wella lles ac iechyd y cyhoedd ar gyfer pobl a chymunedau yn y sir.
- Ar ôl agor Canolfan Lles gyntaf Ceredigion yn Llanbedr Pont Steffan ym mis Hydref 2023, mae'r cynlluniau yn mynd rhagddynt ar gyfer yr ail ganolfan, a leolir yn ne'r sir. Cytunwyd ar y lleoliad a ffafriwyd gan y Cabinet ym mis Hydref, sef Pwll Coffa Aberteifi / safle Maes
- Parcio Cae'r Ffair, a bod adeilad newydd yn cael ei ffafrio yn hytrach nag adnewyddu'r cyfleusterau presennol. Y cam nesaf yw datblygu model achos busnes, gan gynnwys asesiad pellach o'r safle a ffefrir ac ymgynghori â'r cyhoedd am y dyluniad arfaethedig. Bydd gwaith ar y prosiect yn parhau yn ystod 2025/26.
- Ar ôl cwblhau'r Achos Busnes ar brosiect iechyd a gofal cymdeithasol integredig Cylch Caron mewn partneriaeth â Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda, sy'n torri tir newydd, aeth y broses gaffael er mwyn chwilio am bartner cyflawni ar gyfer y prosiect yn fyw ar ddiwedd blwyddyn 2024/25. Roedd dau ddarpar bartner wedi mynegi diddordeb mewn cyflawni'r cynllun, ac mae'r Cyngor yn rhedeg ymarfer caffael deialog cystadleuol. Bydd y broses dendro hon yn cynnig cyfle i ddatblygu cynllun a fydd yn bodloni anghenion iechyd, gofal cymdeithasol a thai yr ardal, a bydd y gwaith i wireddu'r cynllun yn parhau yn ystod 2025/26.
- Mae Cyngor Sir Ceredigion yn parhau i ddatblygu ei gymorth i ofalwyr di-dâl yn y sir, ac erbyn hyn, mae dros 2,300 o ofalwyr wedi cofrestru gyda'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Ofalwyr, cynnydd o 7% o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Amcangyfrifir bod mwy nag un o bob tri gofalwr di-dâl yn cael eu cynorthwyo gan y gwasanaeth.
- Fel rhan o'r pecyn cymorth i ofalwyr di-dâl, dosbarthwyd dros 9,000 o gylchgronau gofalwyr yn ystod y flwyddyn, a oedd yn cynnig cyfoeth o wybodaeth am wasanaethau a chymorth ar gyfer ein gofalwyr. Mae tudalen Facebook Cymorth Cymunedol a Gofalwyr wedi parhau i dyfu, ac mae ganddi 506 o ddilynwyr erbyn hyn, ac mae'n cyrraedd 37,000 o bobl. Yn ogystal, rhoddwyd 49 o gyflwyniadau Gwybodaeth gan y Gwasanaeth Cymorth Cymunedol a Gofalwyr i dimau mewnol a sefydliadau allanol.
- Lansiwyd ap Ceredigion Actif newydd sy'n darparu gwybodaeth am weithgareddau mewn cyfleusterau hamdden y mae'r Cyngor yn berchen arnynt, a'r cyfle i'w harchebu, a gwelwyd 1,800 o lawrlwythiadau hyd yn hyn.
- Mae'r Cyngor wedi llwyddo i gael Cyllid Integreiddio Rhanbarthol gan Lywodraeth Cymru i ddatblygu'r Swyddog Egwyl i Ofalwyr ymhellach, gan gynnig pecynnau aelodaeth i 265 o Ofalwyr a 39 o Ofalwyr Ifanc i ddefnyddio cyfleusterau hamdden a weithredir gan y Cyngor a chynnig seibiant o'u cyfrifoldebau gofalu er mwyn cynnal eu hiechyd a'u lles.
- Yn ystod 2024/25, rydym wedi bod yn gweithio ar sicrhau gostyngiadau a chynigion y gall gofalwyr yng Ngheredigion fanteisio arnynt pan fyddant yn dangos eu Cerdyn Gofalwr. Ychwanegwyd 11 o fuddion a gostyngiadau newydd ychwanegol i'r cerdyn yn ystod y flwyddyn, gan gynnig cyfanswm o 33 erbyn hyn. Mae'r Cerdyn yn dangos bod deiliad y cerdyn yn cyflawni cyfrifoldebau gofalu ac mae'n cynnig mynediad i rai gostyngiadau a gwasanaethau yng Ngheredigion, gan gynnig cymorth hanfodol i ofalwyr di-dâl. Cyhoeddwyd 634 o gardiau gofalwyr newydd ychwanegol yn ystod y flwyddyn.
- Roedd Grant Cymunedol Oed-Gyfeillgar Ceredigion wedi galluogi 19 grŵp cymunedol i gael budd gan grantiau bychain er mwyn cynnal gweithgareddau oed-gyfeillgar i breswylwyr lleol. Roedd y rhain yn cynnwys teithiau i ddigwyddiadau, gweithgareddau creadigol a lles, gwella mynediad i leoliadau a chiniawau Nadolig yn ystod gaeaf 2024.
- Mae'r Cyngor yn parhau i hyrwyddo a hwyluso presgripsiynu cymdeithasol, megis garddio, cerdded a nofio, fel ffordd o gysylltu cleifion gyda gwasanaethau cymorth anfeddygol yn eu cymuned er mwyn gwella eu hiechyd a'u lles. Er enghraifft, mynychwyd y "Teithiau Cerdded Lles" a drefnwyd trwy'r Sir yn ystod y flwyddyn, 3,962 gwaith.
- Yn ystod 2024/25, uwchraddiwyd cyfleusterau chwaraeon a hamdden yng Ngheredigion hefyd. Gosodwyd maes pob tywydd newydd yng Nghanolfan Hamdden Plasrugg ac adnewyddwyd y safle aml-chwaraeon ar gyfer pêl-fasged, pêl-rwyd a thenis yn Llanbedr Pont Steffan.
- 70,383 o fynychiadau ar draws yr holl raglenni Ymyrraeth Iechyd yn ystod 2024/25, o'i gymharu â 44,988 yn ystod 2023/24, sef cynnydd o 56%. Mae sesiynau ymyrraeth iechyd yng Ngheredigion yn atgyfeirio at amrediad o raglenni a

gwasanaethau a gynlluniwyd i wella iechyd a lles pobl, gan ganolbwyntio ar weithgarwch corfforol ac iechyd meddwl.

- Cafwyd 1,340 o atgyfeiriadau ar gyfer y Cynllun Cyfeirio Ymarfer Corff Cenedlaethol yng Ngheredigion. Cynlluniwyd y cynllun i helpu unigolion anweithgar sydd â chyflyrau cronig, neu y maent mewn perygl o ddatblygu cyflyrau cronig, i wella eu hiechyd a'u lles trwy gyfrwng gweithgarwch corfforol. Mae'r cynllun yn darparu rhaglen ymarfer corff 16 wythnos wedi'i goruchwyllo a'i theilwra i anghenion unigol.
- Yn ystod 2024/25, ehangwyd cynnig "FfitamOes" Ceredigion, sy'n cynnig gweithgareddau dwysedd isel mewn cyfleusterau hamdden a lleoliadau cymunedol, a gwelwyd nifer y sesiynau wythnosol yn codi o 18 i 32 a nifer y mynychuadau yn codi 108% yn ystod y flwyddyn i 36,413.
- Yn 2024/25 ehangwyd "Cyfeillion Ymarfer Corff", rhaglen gweithgarwch corfforol ar gyfer unigolion ag anableddau dysgu, i gynnwys plant a phobl ifanc ac roedd gan y rhaglen 7,989 o gyfranogwyr.
- Mae hanes yng Ngheredigion o gynorthwyo teuluoedd sy'n ffoi rhag rhyfel, newyn a digartrefedd. Cynhaliwyd digwyddiad ym mis Rhagfyr 2024 yn Aberaeron i ddangos gwerthfawrogiad i'r preswylwyr hynny a oedd wedi bod mor garedig ag agor eu cartref i gynnig llety i deuluoedd o Wcráin a oedd wedi cyrraedd Ceredigion yn ceisio diogelwch rhag y rhyfel yn Wcráin. Nod y digwyddiad, a drefnwyd gan Dîm Cydraddoldeb a Chynhwysiant y Cyngor, oedd dwyn pobl ynghyd, cael hwyl a diolch am yr amgylchedd croesawgar a grëwyd gan breswylwyr Ceredigion.
- Ym mis Ionawr 2025, dyfarnwyd Gwobr Efydd Buddsoddwyr mewn Gofalwyr i Ceredigion Actif, gwasanaethau hamdden Cyngor Sir Ceredigion, er mwyn cydnabod eu hymrwymiad a'u cymorth i ofalwyr ac aelodau staff o bob oed sy'n mynychu canolfannau hamdden a lles yn y sir.
- Bellach, mae ysgolion cynradd yng Ngheredigion yn gweini llyisiau organig a dyfir

yng Nghymru fel rhan o brosiect Llyisiau o Gymru ar gyfer Ysgolion. Nod y cynllun, a gydlynir gan Synnwyr Bwyd Cymru, yw cynnwys mwy o gynnyrch organig o Gymru mewn prydau ysgol ar draws y wlad, gan gynnig bwyd maethlon ac iach a chynorthwyo busnesau lleol hefyd.

- Sefydlwyd Fforwm Oed-Gyfeillgar Ceredigion yn 2024 -25 ac mae'n agored i bawb – aelodau'r cyhoedd, grwpiau cymunedol, a gweithwyr proffesiynol. Mae'r Fforwm yn fan lle y gall pobl hŷn a'u cynghreiriaid rannu syniadau, codi materion lleol, a siapio newid cadarnhaol yn eu cymunedau. Ceir cylchlythyr hefyd er mwyn cadw mewn cysylltiad am ddigwyddiadau a darparu gwybodaeth ddefnyddiol er mwyn sicrhau bod Ceredigion yn fwy oed-gyfeillgar.
- Ym mis Mehefin 2024, cyhoeddwyd Cynllun Cydraddoldeb Strategol newydd Ceredigion, yn nodi amcanion cydraddoldeb a chynllun gweithredu er mwyn trechu rhagfarn, gwahaniaethu ac anghydraddoldeb. Amcanion Ceredigion yw bod yn esiampl o gyflogwr cyfle cyfartal, meithrin cysylltiadau da a mynd i'r afael â rhagfarn, er mwyn sicrhau ymgysylltu a chyfranogi, urddas, parch a mynediad i wasanaethau, a chynnig addysg deg a chynhwysol. Cyhoeddwyd y Cynllun yn dilyn gweithgarwch ymgysylltu ac ymgynghori â'r cyhoedd, a chaiff ei gyflawni dros y bedair blynedd nesaf, tan 2028.
- Ym mis Hydref 2024, cyhoeddwyd Strategaeth Diogelwch Gymunedol newydd Ceredigion, gan osod y blaenoriaethau ar gyfer Ceredigion, sef lleihau gweithgarwch troseddol a gwella hyder y cyhoedd, sicrwydd a theimladau diogelwch mewn cymunedau. Roedd y Strategaeth yn dilyn ymgynghoriad â'r cyhoedd a chydweithio agos gyda phartneriaid o'r Heddlu, yr Awdurdod Lleol, yr Awdurdod Tân ac Achub, Iechyd, a gwasanaethau Prawf, yn ogystal â sefydliadau eraill.
- Ym mis Medi 2024, dyfarnwyd tystysgrif Trustmark i'r Cyngor am ei ymrwymiad i fynd i'r afael â throseddau casineb yn y sir. Mae'r Dystysgrif, a gyflwynwyd gan Gymorth i Ddiodeffwyr, yn cydnabod ymroddiad y Cyngor i'r Siarter Troseddau Casineb, sy'n cynorthwyo diodeffwyr, sy'n codi ymwybyddiaeth o droseddau casineb, ac sy'n gwella dulliau adrodd ar draws Cymru.

CYFLAWNIADAU

9,150

cylchgrawn gofalwyr wedi'i phrintio a'i dosbarthu ar draws Ceredigion

912

gofalwyr di-dâl wedi cymryd ran mewn gweithgareddau hamdden o dan ei darpariaeth seibiannau i ofalwyr

70,383

presenoldeb ar draws yr holl rhaglennu Ymyriadau Iechyd

1,340

atgyfeiriadau a dderbyniwyd ar gyfer y Cynllun Cenedlaethol Atgyfeirio Cleifion i Wneud Ymarfer Corff (NERS)

1,185

Aelodau misol o'r pecyn aelodaeth gwell ar gyfer cyfleusterau hamdden a weithredir gan y cyngor, gan ddarparu ystod estynedig o 74 o ddosbarthiadau wythnosol

1,600

Camau gorfodi diogelu'r cyhoedd a gymerwyd i wella llesiant ac iechyd cyhoeddus pobl a chymunedau

8,108

Cwsmeriaid a gefnogir gan y Gwasanaeth Offer Cymunedol Integredig gyda dros 34,000 o ddarnau o offer

261

Cwsmeriaid yn cael eu cefnogi gan wasanaeth Teleofal Ceredigion a 105 yn cael eu cefnogi gyda Thechnoleg Gynorthwyl

£276,772 32

o cyllid grant wedi darparu i sefydliadau cymunedol i wella'r ddarpariaeth

ymgyrchoedd ymgysylltu ac ymgynghori wedi'i rhedeg, sef cynnydd o 9 ers y flwyddyn flaenorol

GWELLA CANLYNIADAU



CEFNOGI ANNIBYNIAETH POBL

Ym mis Mai 2024, agorwyd Canolfan Byw'n Annibynnol Penmorfa, sy'n ceisio grymuso unigolion i fyw bywyd annibynnol yn eu cartref am gyfnod hwy.

Mae'r ganolfan newydd yn cynnig y cyfle i weld amrediad o ddatrysiadau sy'n ymwneud â Gofal, Technoleg, Symudedd, a Byw'n Annibynnol.

Darparir cyngor personoledig trwy gyfrwng offeryn ar-lein am ddim AskSARA. Mae AskSARA yn awgrymu datrysiadau er mwyn byw bywyd yn fwy annibynnol, trwy helpu pobl i hunanasesu eu hanghenion.

Mae'r Ganolfan yn awgrymu datrysiadau ymarferol ar gyfer pob grŵp oedran ac mae'n cynorthwyo gofalgwyr a'r rhai y maent yn eu cynorthwyo gyda'r offerynnau a'r adnoddau y mae eu hangen arnynt ar eu taith gofalu.

Fodd bynnag, nid Canolfan am offer yn unig yw hon, mae hefyd yn hwb cymunedol lle y gall pobl gysylltu ag arbenigwyr trwy gyfrwng sesiynau galw heibio rheolaidd, gweithdai ac arddangosiadau, gan gynnig ystod eang o wasanaethau cymorth trwy gydol y flwyddyn.

Ers iddi agor, croesawyd dros 1,200 o ymwelwyr i'r ganolfan. Yn ogystal â **hyrwyddo a chynorthwyo byw'n annibynnol**, mae'r datrysiadau arloesol a gynigir yn helpu pobl i **reoli eu hiechyd a gwella ansawdd eu bywyd**, ac mae'n trawsnewid y ffordd y mae unigolion yn sicrhau datrysiadau ac yn manteisio ar help eu hunain.



CYSYLLTU CYMUNEDAU

Mae ein Cysylltwyr Cymunedol yn cynorthwyo preswylwyr o bob oed yng Ngheredigion trwy eu helpu i fanteisio ar gyfleoedd cymorth y gallent gynnal a gwella eu lles.

Gallai hyn fod ar ffurf gwybodaeth, cyngor a chymorth er mwyn cysylltu preswylwyr gyda'r cymorth sydd ar gael yn eu cymuned. Mae'r gwasanaeth ar gael am ddim a cheir Cysylltwyr Cymunedol ar draws y sir gyfan.

Bu Cysylltwyr Cymunedol yn cynorthwyo cymunedau ar draws Ceredigion i sefydlu pum grŵp cymunedol lleol ac maent wedi bod yn cynnal sesiynau galw heibio ar draws yr ardal ac yn mynychu digwyddiadau amrywiol hefyd mewn cymunedau i gynnig cymorth.

Mae Cysylltwyr cymunedol yn cynnig buddion niferus trwy **gysylltu unigolion gyda gwasanaethau a rhwydweithiau cymorth** perthnasol. Maent yn helpu pobl i fanteisio ar adnoddau ar gyfer **iechyd a lles, gwella cysylltiadau cymdeithasol, a gwella cyfranogiad cymunedol**. Maent hefyd yn cyflawni rôl wrth fynd i'r afael ag arwahanrwydd cymdeithasol, **hyrwyddo annibyniaeth a grymuso unigolion** i wneud penderfyniadau gwybodus am eu hanghenion.

Cynhaliwyd adolygiad o'n darpariaeth Cysylltwyr Cymunedol yn ystod 2024/25, ac mae cynllun yn ei le i ddatblygu'r rôl ymhellach yn ystod 2025/26, a sicrhau bod gan bob partner ddealltwriaeth glir o'u rôl.



GWELLA LLESIANT CORFFOROL, MEDDYLIOL A CHYMDEITHASOL TRIGOLION CEREDIGION

Canolfan Lles Ceredigion yn Llanbedr Pont Steffan yw'r cyntaf o'i math yn y sir, ac fe'i hariannwyd gan Grant Cymunedau Dysgu Llywodraeth Cymru a chan Gyngor Sir Ceredigion. Mae Canolfannau Lles wrth galon gwaith y Cyngor i hyrwyddo cymunedau iach ar draws y sir.

Mae'r ganolfan yn darparu amrediad o wasanaethau a chymorth er **mwyn gwella lles corfforol, meddyliol a chymdeithasol y cymunedau** yn yr ardal, a **grymuso unigolion i feithrin sgiliau a chydnerthedd a fydd yn eu galluogi i ymdopi â heriau bywyd**.

Yn ogystal, mae'r Ganolfan yn cynnig **mwyr o fynediad i Wybodaeth, cyngor a chymorth** i breswylwyr yn holl wasanaethau'r cyngor, gan gynnwys cyngor ynghylch sgiliau a chyflogaeth, caledi a chymorth tai, gwasanaethau i bobl ifanc, cymorth i ofalwyr, Cysylltwyr Cymunedol a chymorth cynnar ar gyfer lechyd Meddwl.

Mae'r Ganolfan Lles yn garreg filltir fawr tuag at wireddu gweledigaeth Strategaeth Lles Gydol Oes y Cyngor a chyflawni ei Amcan Lles Corfforaethol o **Greu Cymunedau Gofalgar ac Iach**.

Mae tu mewn Canolfan Lles Llanbedr Pont Steffan, a ddyluniwyd o'r newydd, yn cynnig capasiti ychwanegol i ddarparu'r cynllun atgyfeirio cleifion i wneud ymarfer corff ac mae pwysau ac offer cardio newydd sbon wedi arwain at welliannau i'r rhaglen hon hefyd.

Ers ei hagoriad ffurfiol ym mis Hydref 2023, cafwyd ymateb cadarnhaol gan y gymuned wrth i fwy a mwy o breswylwyr ddod i

ddefnyddio'r gwahanol adnoddau sydd ar gael.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae defnydd o'r Ganolfan wedi cynyddu'n sylweddol, gymaint â 28%, gan godi o 87,400 presenoldebau yn 2023/24 i 111,700 yn 2024/25. Mae'r gweithgareddau a'r gwasanaethau a gynigir gan y Ganolfan wedi parhau i ddatblygu, ac maent yn cynnwys:

- Cysylltwyr Cymunedol Ceredigion yn mynychu bob yn ail ddydd Llun
- Cynnig sesiynau cymorth i Deuluoedd a Rhianta
- Cynnal Digwyddiad Lles, a drefnwyd gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
- Cynnal digwyddiad Sioe Deithiol yr Haf
- Sesiwn galw heibio ar Effeithlonrwydd Ynni a drefnwyd gan Wasanaethau Tai y Cyngor
- Darparu Cyrsiau Dysgu Bro
- Tiwtora ar gyfer disgyblion Ysgol Bro Pedr
- Cynnydd mewn sesiynau loga a Pilates

Bwriedir agor Canolfannau Lles eraill yng ngogledd a de'r sir dros y blynyddoedd nesaf er mwyn gwasanaethu holl gymunedau Ceredigion. Penderfynwyd ar leoliad y Ganolfan Lles nesaf yn ne'r sir, sef safle Pwll Coffa Aberteifi / Maes Parcio Cae'r Ffair a chyflwynwyd cais i Gronfa Ffyniant Gyffredin y DU i ariannu cam nesaf yr astudiaeth ddichonolrwydd.

DARPARU DATBLYGU CYNALIADWY

Asesiad cyffredinol o'r daith hyd yn hyn

Mae cynnydd wrth fodloni'r flaenoriaeth hon yn **dda** ac mae'r rhagolygon gwella hefyd yn **dda**.

Mae'r cynnydd wrth greu cymunedau sy'n iach ac yn ofalgar yn dda a bu'r gwaith o gyflawni canlyniadau yn dda dros y flwyddyn ddiwethaf, gyda nifer o gyflawniadau arwyddocaol. Y dystiolaeth ar gyfer hyn yw'r cynnydd yn y defnydd o Ganolfan Lles Llanbedr Pont Steffan, y cynnydd wrth ddatblygu'r ail Ganolfan Lles, cwblhau'r Ganolfan Byw'n Annibynnol a'r ymroddiad i gynorthwyo gofawyr di-dâl Ceredigion. Mae'r cynnydd yn parhau wrth gyflawni Rhaglen Gydol Oes arloesol Ceredigion.

YN BERCHEN AR EIN HUCHELGAIS

MWYHAU EIN CYFRANIAD AT Y NODAU LLESIANT CENEDLAETHOL

Mae'r nod llesiant corfforaethol **Creu Cymunedau Gofalgar ac Iach** yn cefnogi'r nodau llesiant cenedlaethol canlynol.

Llewyrchus

Cydnherth

Iachach

May Cyfartal

Cydllynus

Diwylliant

Byd-eang



Hirdymor

- Mae Model Gydol Oed yn ymwneud â chynllunio hirdymor i sicrhau gwasanaethau cynaliadwy ar gyfer y 15 mlynedd + nesaf
- Mae Tueddiadau'r Dyfodol, megis newid demograffig wedi'u defnyddio yn y Model
- Mae'r Strategaeth Llesiant Trwy Oedran yn cwmpasu cyfnod o chwe blynedd o 2021 i 2027
- Rhagwelir y bydd yr adferiad o'r pandemig yn para am nifer o flynyddoedd ac mae ein cynlluniau i wella llesiant corfforol a meddyliol yn cymryd agwedd hirdymor at gefnogaeth i ymateb



Atal

- Mae'r Model Gydol Oed yn darparu dull cydgysylltiedig o ymdrin â gofal cymdeithasol er mwyn atal, lleihau neu ohirio'r angen am gymorth parhaus, a chaniatáu i bobl aros yn eu cartrefi eu hunain.
- Mae atal digartrefedd a hyrwyddo annibyniaeth yn parhau i fod yn flaenoriaeth i'r Cyngor a dyma'r ffordd fwyaf effeithiol o fynd i'r afael â digartrefedd
- Mae Datblygu'r Canolfannau Llesiant yn cefnogi'r uchelgais i greu cymunedau iach
- Fel rhan o'i waith atal, mae'r Cyngor wedi buddsoddi mewn rhoi cydnabyddiaeth lawn a chefnogaeth i ofalwyr drwy ddarparu cyfleoedd ar gyfer seibiant o'u rôl heriol 24/7.



Cydweithio

- Mae'r Bwrdd Iechyd, y Cyngor a phartneriaid y Trydydd Sector yn cydweithio i roi rhaglenni iechyd a gofal cymdeithasol integredig ar waith ar draws gorllewin Cymru
- Mae cyfarfodydd monitro tensiwn wythnosol aml-asiantaeth yn mynd i'r afael ag arwyddion cynnar tensiynau cymunedol trwy ymyrraeth gynnar ac atal.
- Mae'r Cyngor yn gweithio'n rhagweithiol gyda phartneriaid drwy Is-grŵp Tlodi Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion i fynd i'r afael ag achosion ac effeithiau tlodi ar draws y Sir.



Cynnwys

- Mae cefnogi llesiant corfforol ac emosiynol pobl yn effeithio ar bob un o'r Nodau Llesiant cenedlaethol ac yn helpu i adeiladu cymunedau cryfach a mwy llewyrchus
- Roedd yr Amcan o greu cymunedau gofalgar ac iach yn cynnwys canfyddiadau o'r Asesiad o Lesiant Lleol Ceredigion ac ymgynghoriad helaeth



Integreiddio

- Cydweithio cyhoeddus a phreifat i wneud y cyfraniad mwyaf posibl at Gymru iachach a nodau eraill
- Mae cefnogi llesiant corfforol ac emosiynol pobl yn effeithio ar bob un o'r Nodau Llesiant cenedlaethol ac yn helpu i adeiladu cymunedau cryfach a mwy gwydn

CYFLAWNIADAU MESUR ALLWEDDOL

100%

o gleientiaid yn adrodd gwelliant mewn lles corfforol neu emosiynol trwy gymryd rhan mewn Rhaglenni Ymyrraeth Iechyd

71.2%

o'r rhai sy'n derbyn seibiannau gofawyr wedi adrodd fod eu llesiant wedi gwella

28%

o gynnydd yn y defnydd o Ganolfan Llesiant Llambedi cefnogi lles corfforol, meddyliol a chymdeithasol preswylwyr

7%

o gynnydd yn nifer y gofawyr di-dâl sydd wedi'u cofrestru a'u cefnogi gan y Gwasanaeth

CYNNYDD A WNAED

- Mae'r Cyngor yn parhau i foderneiddio sefydliadau addysg. Er enghraifft, agorwyd Ysgol newydd Dyffryn Aeron yn swyddogol ym mis Mawrth 2025, gan gynnig y cyfleusterau dysgu diweddaraf a modern i ddisgyblion, a rhoddwyd caniatâd cynllunio ar gyfer yr estyniad i'r Ysgol Gymraeg yn Aberystwyth ym mis Rhagfyr 2024.
- Mae system addysg Ceredigion yn parhau i gael ei hystyried ymhlith y rhai mwyaf llwyddiannus yng Nghymru. Mae canran yr oedolion oedran gweithio sydd wedi sicrhau cymhwyster lefel 2 yn 96.0% yng Ngheredigion, sy'n uwch na'r cyfartaledd (87.6%) ac yn un o'r uchaf yn genedlaethol. Cymwysterau Lefel 2 yw TGAU graddau A*-C lefel gyfatebol.
- Bu canlyniadau arolygiadau ysgolion Ceredigion yn gryf yn ystod 2024/25. Roedd yr 14 adroddiad arolygu a gyhoeddwyd gan Estyn yn myfyrio mewn ffordd gadarnhaol ar yr ysgol a oedd yn cael ei harolygu, ac nid oes gofyn cyflawni mesurau dilynol mewn unrhyw rai o ysgolion Ceredigion.
- Mae mentrau'r Cyngor i gynorthwyo ysgolion gyda Chwricwlwm i Gymru a gyflwynwyd yn 2022, wedi cael effaith gadarnhaol. Mae bron pob ysgol yng Ngheredigion wedi datblygu agweddau ar eu darpariaeth yn unol â'r egwyddorion cwricwlwm mewn ffordd effeithiol, ac mae cymorth wedi'i deilwra gan y Tîm Gwella Ysgolion wedi galluogi'r mwyafrif i gynllunio mewn ffordd fwy strategol, gan ddefnyddio cynlluniau datblygu i osod blaenoriaethau ar gyfer y tair blynedd nesaf. Mae ymweliadau ag ysgolion i werthuso a chynllunio'r camau nesaf wedi arwain at welliannau amlwg o ran bod yn barod i ysgogi a gwireddu eu cwricwlwm. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ysgolion yn parhau i ddyfnhau eu dealltwriaeth o Gwricwlwm i Gymru.
- Mae menter e-sgol wedi parhau i ddarparu cymorth arweiniol i'r sector ar gyfer y ddarpariaeth addysg yng Ngheredigion ac yn genedlaethol. Mae e-sgol yn fenter dysgu cyfunol i gynnig cyfleoedd dysgu ac addysgu ar-lein gan ddefnyddio dulliau dysgu uniongyrchol, rhyngweithiol ac amser real. Ariannir y prosiect gan Lywodraeth Cymru a chaiff ei gydlynw yn genedlaethol gan Gyngor Sir Ceredigion.
- Roedd dros 2,200 o bobl ifanc yng Ngheredigion wedi cymryd rhan ym mhleidlais 'Rhoi dy Farn' a drefnwyd gan Wasanaeth Ieuencid Ceredigion er mwyn pleidleisio am bynciau a fydd yn siapia blaenoriaethau'r Cyngor Ieuencid yn ystod y flwyddyn. Y prif themâu a godwyd gan bobl ifanc yn ystod y digwyddiad oedd swyddi a chyfleoedd gyrfa, atal trais yn erbyn menywod a merched, a gwelliannau i wasanaethau iechyd meddwl. Mae hwn yn un o'r gweithgareddau a gefnogir gan y Cyngor fel rhan o'i ymrwymiad i sicrhau bod lleisiau pobl ifanc yn cael eu clywed.
- Mae Cered, y fenter iaith Gymraeg, yn parhau i gynorthwyo, dylanwadu a datblygu'r defnydd o'r iaith Gymraeg yng Ngheredigion. Maent yn darparu gwybodaeth, cyngor ac arweinyddiaeth er mwyn sicrhau bod yr iaith yn ffynnu a'i bod yn parhau i fod yn iaith greiddiol a bod ganddi rôl ganolog yng nghymunedau Ceredigion.
- Roedd arolygiad Estyn o'r Gwasanaethau Addysg yn myfyrio mewn ffordd gadarnhaol iawn ar ddatblygiad a gweithgarwch y Cyngor i hyrwyddo'r iaith Gymraeg, a nodwyd bod trefniadau'r awdurdod er mwyn datblygu'r iaith Gymraeg yn gryfder arwyddocaol, lle y gwelir nifer o agweddau rhagorol ymhlith ei ddarpariaeth a'i arferion.
- Roedd 70 aelod o staff y Cyngor wedi mynychu cyrsiau hyfforddiant i ddysgu neu wella eu sgiliau Gymraeg yn ystod 2024/25.
- Roedd nifer y sesiynau hyfforddiant a gynhigiwyd yn Gymraeg i staff y Cyngor yn ystod 2024/25 wedi codi (+13), ac roedd 133 wedi mynychu hyfforddiant trwy gyfrwng y Gymraeg.
- Mae gan 96% o staff Ceredigion sgiliau Gymraeg ar rhyw lefel, ac mae 94% yn cael y cyfle i ddefnyddio eu sgiliau Gymraeg yn ystod eu diwrnod gwaith yn ôl Arolwg Pobl (staff) 2024.
- Mae Ceredigion wedi ehangu Gofal Plant Dechrau'n Deg a ariannir. Yn ystod Cam 2 y gweithgarwch ehangach, cafodd 71 o blant 2 oed gyllid am 12.5 awr o ofal plant am ddim yr wythnos. Yn ystod 2025-26, byddwn yn ehangu'r ddarpariaeth ymhellach, gan ychwanegu 73 o blant sy'n cael gofal plant wedi'i ariannu.
- Mae 118 o blant wedi cael budd gan ofal plant Dechrau'n Deg yn y bum ardal wreiddiol rhwng mis Ebrill 2024 a mis Mawrth 2025. Ac mae 64 o blant pellach yn cael hawl gofal plant Dechrau'n Deg fel rhan o'r broses o ehangu Dechrau'n Deg yn unig.
- Cynhaliwyd Asesiad Digonolrwydd Chwarae newydd, a datblygwyd Cynllun Gweithredu Chwarae Ceredigion 2025-28. Mae'r ddyletswydd statudol hon yn mynnu bod pob awdurdod lleol yn asesu argaeledd ac ansawdd cyfleoedd chwarae i blant yn eu hardal bob tair blynedd. Ers yr Asesiad diwethaf, mae'r Cyngor wedi cydweithio â phartneriaid a chymunedau i wella cyfleoedd chwarae ar draws y sir. Mae'r Asesiad yn nodi'r cynlluniau i wella'r ddarpariaeth chwarae dros y dair blynedd nesaf hefyd.
- Darparwyd gweithgareddau nofio i bob ysgol gynradd ac uned Anghenion Addysgol Arbennig yn y sir. Cafodd 612 o blant wersi nofio cymunedol yn ystod 2024/25, sy'n gynydd o 15% o'i gymharu â 2023/24.
- Mae 60 o bobl ifanc sydd wedi cael eu hatgyfeirio i weithiwr ieuencid wedi ail-ymgysylltu ag addysg, cyflogaeth neu gyfleoedd hyfforddiant ar ôl cael cymorth.
- Darparwyd 136 o weithdai a gweithgareddau cymunedol gan y Gwasanaeth Ieuencid trwy gydweithio gyda gweithwyr ieuencid a

DARPARU'R DECHRAU
GORAU MEWN BYWYD A
GALLUOGI BOBL O BOB
OED I DDYSGU

phartneriaid sydd wedi canolbwyntio ar ddatblygiad personol a chymdeithasol, lles neu Addysg, Hyfforddiant a Chyflogaeth. Mae enghreifftiau yn cynnwys diogelwch tân, hylendid bwyd, byw bywyd annibynnol, a pherthnasoedd ac iechyd rhywiol.

- Mae 23 o bobl ifanc 16-25 oed wedi sicrhau canlyniad achrededig trwy fanteisio ar raglenni gwaith ieuencid, gan gynnwys addysg yn yr awyr agored, lles a sgiliau parod am waith.
- Mae 29 o bobl ifanc pellach sy'n 11-16 oed wedi sicrhau achrediad Agored Cymru trwy gyfrwng eu gweithgarwch ymgysylltu â Diogelwch Tân a Gwaith Tîm, ar y cyd â Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru.
- Mae 80% o bobl ifanc a atgyfeiriwyd at weithiwr ieuencid wedi dangos gwelliant o ran eu lles, eu hunan-effeithlonrwydd a/neu eu hyder, ac mae 84% pellach o bobl ifanc yn parhau i gael eu cynorthwyo.
- Darparir dros 60% o ddarpariaeth y gwasanaeth ieuencid trwy gyfrwng y Gymraeg, a darparir 100% o'r ddarpariaeth yn ddwyieithog.
- Cwblhawyd astudiaeth ddichonolrwydd yn amlinellu'r dewisiadau ar gyfer lleoliad Canolfan Greadigol newydd i ddisodli Theatr Felin-fach. Comisiynir astudiaeth ddatblygu a darparu ddilynol, gan ddatblygu'r astudiaeth ddichonolrwydd a symud y cynlluniau ymlaen i'r cam nesaf. Bydd hyn yn sail cyflwyno achos busnes am gyllid cyfalaf i Lywodraeth Cymru a Chyngor Celfyddydau Cymru.
- Darparwyd 17 o gyfleoedd lleoliad gweithiwr cymdeithasol dan hyfforddiant/myfyriwr gwaith cymdeithasol yn ystod 2024/25 a darparir cyfleoedd pellach yn ystod 2025/26. Mae Ceredigion yn rhoi sylw i fylchau sgiliau hanfodol yn ei weithlu, megis ym maes gofal cymdeithasol, trwy brentisiaethau i ddenu talent newydd a meithrin sgiliau mewnol.
- Trefnwyd pum lleoliad profiad gwaith modiwl Cyflogadwyedd ar gyfer myfyrwyr Prifysgol Aberystwyth ac fe'u cynhelir yn ystod 2025.

Bydd y lleoliadau yn cynorthwyo datblygiad sgiliau myfyrwyr, archwilio gyrfa a chynnig cyfleoedd rhwydweithio a fydd yn arwain at gyflogadwyedd gwell.

- Ar hyn o bryd, mae'r Cyngor yn noddi dros 20 o Blant Digwmni sy'n Ceisio Lloches ac sydd dan ei ofal, gan weithio i wella'r canlyniadau iddynt gymaint ag y bo modd. Plant a phobl dan 18 oed yw'n rhain sy'n ceisio lloches, ond y maent wedi'u gwahanu wrth eu rhieni ac ni ydynt yn cael gofal gan warcheidwad.
- Mae Gwasanaeth Llyfrgelloedd Ceredigion yn hyrwyddo llyfrau newydd er mwyn cynorthwyo iechyd a lles meddyliol pobl ifanc yn eu harddegau. Ariannir cynllun "Reading Well for Teenagers" gan grant a geir gan Gyngor Llyfrau Cymru, sy'n ceisio helpu pobl ifanc yn eu harddegau i ddeall eu teimladau yn well, delio â phrofiadau anodd, a meithrin hyder. Mae'r rhestr lyfrau, a ddewiswyd gan bobl ifanc a gweithwyr iechyd proffesiynol, yn awgrymu technegau hunan-gymorth ac mae'n cynnwys straeon personol, gwaith graffig a fformatau ffuglennol.
- Mae pob Ysgol yng Ngheredigion yn gallu troi at Strategaeth Tegwch ac Amddifadedd Ceredigion, ac mae bron pob ysgol a arolygwyd wedi cael sylwadau cadarnhaol ynghylch y cymorth ar gyfer dysgwyr difreintiedig a'r cyllid a gaiff ei neilltuo i gynorthwyo hyn.
- Hyrwyddwyd Cynnig Gofal Plant Llywodraeth Cymru, sy'n cynnig help i deuluoedd i dalu costau gofal plant, ar draws Ceredigion a chymeradwywyd 407 o geisiadau am y cynnig yn ystod 2024/25, gyda 18 rhiant/gwarcheidwad sydd mewn addysg neu hyfforddiant yn cael y cynnig.
- Cafodd 84 o blant 0-4 oed sydd ag Anghenion Dysgu Ychwanegol gymorth trwy ein gwasanaeth Help Llaw a gomisiynwyd i fanteisio ar ddarpariaeth gofal plant.

CYFLAWNIADAU

9,400

dysgwyr wedi'i cefnogi ar draws 36 Ysgol Gynradd, 3 Ysgol Ganol, 4 Ysgol Uwchradd ac 1 Uned Cyfeirio Disgyblion

150+

gofalwyr ifanc a gefnogir gan weithwyr ieuencid, clybiau ieuencid a mynediad i ddarpariaeth gwyliau

185

person ifanc wedi cael cymorth wythnosol gan weithwyr ieuencid mewn ysgolion

100%

o bobl sy'n mynychu rhaglenni rhiant yn adrodd eu bod wedi elwa o bresenoldeb

375

person ifanc wedi'i hatgyfeirio neu eu cyfeirio a'u dyrannu i Weithiwr Ieuencid arweiniol trwy ein Tîm Llwybrau cymorth

258

person ifanc wedi'i cefnogi gan y Tîm Gwaith Ieuencid yn y gymuned, gan gynnwys rhaglenni ataliol a chymorth ôl-16

£58,132

Dyfarnwyd mewn Grantiau Cynladwyedd i gefnogi 67 o ddarparwyr gofal plant cofrestredig yng Ngheredigion

100%

O blith disgyblion Canolfan Eos ac Uned Cyfeirio Disgyblion Canolfan Aeron wedi ennill gymwysterau priodol

11,758

sesiwn cyfrifiadurol mynediad cyhoeddus a ddefnyddir ar draws holl lyfrgelloedd Ceredigion

367,229

ffisegol ac 'e-adnoddau' a gyhoeddir gan Wasanaeth Llyfrgell Ceredigion

GWELLA CANLYNIADAU



GWELLA CYFLEUSTERAU ADDYSG GWLEDIG

Agorwyd Ysgol newydd Dyffryn Aeron yn swyddogol ym mis Mawrth 2025 gan Brif Weinidog Cymru, Eluned Morgan AS.

Ysgol Dyffryn Aeron yw ysgol fwyaf newydd Ceredigion ac mae'n garreg filltir gyffrous yn Nyffryn Aeron. Roedd y prosiect £16.3m yn cyfuno Ysgol Ciliau Parc, Ysgol Dihewyd ac Ysgol Felin-fach, gan ddarparu'r cyfleusterau dysgu diweddaraf i ddisgyblion.

Mae gan Ysgol Dyffryn Aeron amrediad o fwynderau modern fel maes astro 3G, yn ogystal â safle gemau aml-ddefnydd. Mae gan Calon Aeron y cyfleusterau diweddaraf i gynorthwyo myfyrwyr sydd ag anghenion addysgol arbennig, gan sicrhau **amgylchedd cynhwysol a chefnogol i bob disgybl**.

Ariannwyd yr ysgol 3-11 oed cyfrwng Cymraeg, sy'n cynnig lle i 240 o ddisgyblion, trwy Raglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy Llywodraeth Cymru (£10.0m), Rhaglen Gyfalaf y Blynnyddoedd Cynnar a Gofal Plant Llywodraeth Cymru (£1.6m) a chyfraniad o £4.7m ar ffurf cyllid cyfatebol gan Cyngor Sir Ceredigion. Mae'r prosiect arloesol hwn yn tystio i ymrwymiad Cyngor Sir Ceredigion a Llywodraeth Cymru i fuddsoddi mewn addysg wledig.

Yn ogystal â chynng cyfleusterau addysgu **modern a gwell**, mae'r prosiect wedi darparu ysgol **carbon sero net** gyda **chostau rhedeg** is hefyd, sy'n cyd-fynd ag uchelgais y Cyngor o fod yn **awdurdod sero carbon** erbyn 2030, ynghyd â mwy o gyfleoedd i ddysgu a chymryd rhan mewn **gweithgarwch corfforol** trwy gyfrwng y maes chwaraeon newydd.



HYBU'R IAITH GYMRAEG

Ym mis Rhagfyr 2024, cyhoeddodd y Cyngor ei Strategaeth Hyrwyddo'r Gymraeg newydd ar gyfer y cyfnod rhwng 2024 a 2029.

Mae'r Strategaeth yn nodi nifer o gamau gweithredu a chanlyniadau uchelgeisiol er mwyn gweld yr iaith Gymraeg yn ffynnu ar draws y sir, gan gyfrannu at gyflawni gweledigaeth Llywodraeth Cymru o sicrhau miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

Mae hyfywedd yr iaith Gymraeg yn ddibynnol ar gynnal cymunedau lle y gall nifer arwyddocaol o'r boblogaeth siarad yr iaith a chael mynediad iddi ym mhob agwedd ar eu bywydau dyddiol.

Trwy gydweithredu gyda sefydliadau sy'n aelodau o Fforwm Iaith Dyfodol Dwyieithog Ceredigion, ei gweledigaeth yw gweld yr **iaith Gymraeg a Chymreictod yn perthyn i bawb yng Ngheredigion**, gydag **ymdeimlad o falchder** ymhlith holl breswylwyr y sir.

Nod y Strategaeth yw cynyddu canran y siaradwyr Cymraeg yng Ngheredigion gymaint ag 1.5% o 45.3% yn 2021 i 46.8% yn 2029, neu gynydd o 612 er Cyfrifiad 2021.

Mae'r Strategaeth yn adlewyrchu ein cyfrifoldeb tuag at yr iaith Gymraeg yng Ngheredigion. Ei nod yw diogelu'r **iaith er mwyn i genedlaethau'r dyfodol allu ei mwynhau**, a **chynyddu'r defnydd ohoni** fel y gall preswylwyr **fyw, dysgu, perthyn a llwyddo trwy gyfrwng y Gymraeg**.



RHOI LLAIS I BOBL IFANC

2024/25 oedd 10fed blwyddyn Cyngor Ieuenctid Ceredigion, a oedd yn cynnwys dau gyfarfod ffurfiol a gadeiriwyd gan Gadeirydd y Cyngor Ieuenctid.

Mae 8 o bobl ifanc 18-25 oed yn ffurfio Fforwm Ieuenctid Ceredigion (Panel Dewis), sy'n goruchwyllo darpariaeth gwasanaethau, y cynllun bwrsariaeth ieuenctid, grantiau ieuenctid a phrosiectau thematig eraill sy'n cael eu llywio gan y bobl ifanc.

Yn ystod y flwyddyn, cynhaliwyd chwe is-gyfarfod gyda Chadeirydd y Cyngor Ieuenctid, Senedd Ieuenctid y DU a Senedd Ieuenctid Cymru; gan gyfarfod gydag aelodau etholedig allweddol, uwch-swyddogion ac AS.

Bu y llynedd yn flwyddyn lwyddiannus i'r Cyngor Ieuenctid. Mae dau is-grŵp strategol yn parhau gyda'u cynlluniau gwaith; er enghraifft, amlygwyd gwaith Is-grŵp Urddas Mislif Ceredigion fel maes arfer rhagorol gan Swyddog Arweiniol Urddas Mislif Llywodraeth Cymru o fewn yr Isadran Cydraddoldeb a Hawliau Dynol. At hynny, cwblhawyd dau Brosiect Ymgrych a bu pedwar cais grant dan arweiniad pobl ifanc yn llwyddiannus.

Mae'r Cyngor wedi bod yn eiriolwr dros bobl ifanc a **sicrhau bod eu llais yn cael ei glywed** ers cryn amser. Mae'r Cyngor Ieuenctid yn **datblygu sgiliau arwain a hyder** ymhlith ein pobl ifanc, dealltwriaeth a **phrofiad o ddemocratiaeth leol a chenedlaethol**, ac mae'n helpu i'w paratoi ar gyfer dyfodol lle y byddant yn **cyflawni rôl arwain**.



GWELLA CANLYNIADAU ADDYSGOL

Bu'r arolygiad o Wasanaethau Addysg Ceredigion ym mis Mehefin 2024 a gynhaliwyd gan Estyn, yr arolygiaeth addysg genedlaethol, yn llwyddiant ysgubol i'r Cyngor.

Roedd adroddiad terfynol yr arolygwyr yn canmol y gwasanaeth am ei bwyslais clir ar sicrhau darpariaeth addysgol sefydlog ac o ansawdd uchel i ddysgwyr yng Ngheredigion.

Roedd yr adroddiad yn nodi arweinyddiaeth gadarn, uchelgais a strategaethau clir, a chydweithio agos ymhlith swyddogion yr awdurdod lleol, aelodau etholedig, ysgolion a phartneriaid eraill fel y prif resymau dros gyflawni'r safon hon.

Roedd yr arolygiad yn amlygu enw da cadarn Ceredigion hefyd o gynnal a gwella ei darpariaeth a chynng canlyniadau da i blant a phobl ifanc yn y Sir.

Manteisiodd yr arolygiad ar amrediad o dystiolaeth, gan gynnwys cyfweiliadau gyda phartneriaid, dadansoddi ymatebion i holiadur, a dadansoddi data amrywiol megis canlyniadau dysgwyr a pherfformiad ysgolion.

Mae'r cyflawniad diweddaraf hwn yn cydnabod amrediad y canlyniadau y mae'r Cyngor yn eu gwella. Er enghraifft, mae **cyrhaeddiad addysgol yn uchel** ymhlith disgyblion Ceredigion, caiff **ymddygiad cadarnhaol a phresenoldeb da ei hyrwyddo**, datblygir **capasiti arwain** mewn ysgolion, a **chynigir y profiadau gorau ag y bo modd i'r holl blant a phobl ifanc**.

DARPARU DATBLYGU CYNALIADWY

Asesiad cyffredinol o'r daith hyd yn hyn

Mae cynnydd wrth fodloni'r amcan hwn yn **dda** ac mae rhagolygon gwella yn **dda**.

Mae cyrhaeddiad addysgol disgyblion Ceredigion ymhlith yr uchaf yn genedlaethol, yn ogystal â chyfran y sawl sy'n gadael yr ysgol yng Ngheredigion sy'n symud ymlaen i addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth.

Mae canlyniadau arolygiad Estyn yn dangos bod gwasanaethau addysg yn uchel iawn eu parch yng Ngheredigion, ac mae adroddiadau rheoliadol eraill yn dangos nad oes unrhyw rai o ysgolion Ceredigion yn destun mesurau dilynol.

Nid yn unig y mae buddsoddiad cyfalaf pellach mewn ysgolion newydd fel Dyffryn Aeron yn cynnig cyfleusterau newydd, ond mae hefyd yn dangos ymrwymiad i addysg wledig a chymunedau gwledig.

Mae llwyddiant y Cyngor leuenctid a'r cymorth a ddarparir gan y Gwasanaeth leuenctid trwy gyfrwng amrywiaeth o raglenni yn cyflawni rôl allweddol yn natblygiad ein pobl ifanc.

YN BERCHEN AR EIN HUCHELGAIS

MWYHAU EIN CYFRANIAD AT Y NODAU LLESIANT CENEDLAETHOL

Mae'r nod llesiant corfforaethol **Darparu'r Dechrau Gorau mewn Bywyd a Galluogi Pobl o bob oed i Ddysgu** yn cefnogi'r nodau llesiant cenedlaethol canlynol.

Llewyrchus

Cydnherth

Iachach

May Cyfartal

Cydllynus

Diwylliant

Byd-eang



Hirdymor

- Mae Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg Ceredigion yn strategaeth 10 mlynedd i gryfhau'r ddarpariaeth Gymraeg a gweithio tuag at filiwn o siaradwyr Cymraeg ledled Cymru erbyn 2050.
- Rhagwelir y bydd yr adferiad o'r pandemig yn para am nifer o flynyddoedd ac mae ein cynlluniau i fynd i'r afael â thlodi yn cymryd agwedd hirdymor
- Mae gwelliannau i ysgolion yn darparu cyfleusterau gwell ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol o ddysgwyr



Atal

- Mae cefnogi pob dysgwr yn helpu i roi gwell cyfleoedd dysgu a gyrfa iddynt
- Bydd gweithio i godi lefelau incwm ar draws y Sir yn helpu i atal tlodi mewn gwaith
- Mae cefnogi pobl trwy Gynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor neu Daliadau Tai Dewisol yn elfennau allweddol o gymorth ariannol i aelwydydd drwy'r argyfwng costau byw ac i atal eu sefyllfa rhag gwaethygu.



Cydweithio

- Gweithio gyda'r Trydydd Sector i ddarparu cymorth iechyd meddwl i bobl ifanc yn dilyn pandemig COVID-19
- Bydd gweithio gyda phartneriaid i gyflawni'r Strategaeth Mamolaeth a'r Blynyddoedd Cynnar ar gyfer Gorllewin Cymru yn helpu i roi'r dechrau gorau mewn bywyd i bobl ifanc Ceredigion.
- Cefnogi darpariaeth Cinio Ysgol am Ddim i ddisgyblion ysgolion cynradd ac ariannu gofal plant i bob plentyn dwy oed



Cynnwys

- Mae cefnogi Cyngor leuenctid Ceredigion fel fforwm i blant a phobl ifanc yn sicrhau bod lleisiau pobl ifanc ledled Ceredigion yn cael eu clywed
-



Integreiddio

- Bydd darparu'r dechrau gorau mewn bywyd yn cael effaith gadarnhaol ar bob un o'r Amcanion Llesiant Corfforaethol a'r Nodau Llesiant Cenedlaethol.
- Mae gwell sgiliau a swyddi yn cynyddu lefelau incwm ac felly'n galluogi'r economi leol i dyfu
- Mae Rhaglen Arfor i gefnogi a chryfhau'r cysylltiadau rhwng twf economaidd a'r Gymraeg hefyd yn cryfhau pob un o'r pedair piler llesiant (economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwyllian-nol)

CYFLAWNIADAU MESUR ALLWEDDOL

93.1%

o ddisgyblion blwyddyn 13 sy'n gadael ysgol, mewn addysg, hyfforddi neu cyflogaeth, uwchben y cyfartaledd cenedlaethol (92.9%)

70.9%

o ddisgyblion yn cael ei addysgu yn y Gymraeg fel iaith cyntaf yng Ngheredigion, uwchben y cyfartaledd cenedlaethol (21.7%)

96.0%

o poblogaeth oedran gwaith Ceredigion gyda cymwysterau Lefel 2 neu uwch, uwchben y cyfartaledd cenedlaethol (87.6%)

77.5%

o poblogaeth oedran gwaith Ceredigion gyda cymwysterau Lefel 3 neu uwch, uwchben y cyfartaledd cenedlaethol (68.6%)



CREU CYMUNEDAU CYNALIADWY, MWY GWYRDD SYDD WEDI’U CYSYLLTU’N DDA A’I GILYDD



CYNNYDD A WNAED

- Mae’r cynlluniau amddiffyn arfordirol yng Ngheredigion yn parhau i fynd rhagddynt yn dda. Mae’r gwaith adeiladu yn symud yn ei flaen yn dda yn Aberaeron a disgwylir iddo gael ei gwblhau yng nghanol yr haf 2025. Mae’r gwaith yn parhau hefyd o gwblhau achos busnes amlinellol er mwyn bodloni gofynion Llywodraeth Cymru ar gyfer Aberystwyth, ac mae cyllid wedi cael ei sicrhau ar gyfer datblygu achos busnes llawn nawr. Fodd bynnag, mae’r achos busnes amlinellol ar gyfer Borth/Ynyslas wedi cael ei oedi tra bod trafodaethau’n parhau gyda Chyfoeth Naturiol Cymru mewn perthynas â dull gweithredu posibl ar y cyd.
- Mae’r gwaith yn parhau gyda Chyngor Sir Gâr a rhanddeiliaid eraill i ddatblygu datrysiad priodol a fforddiadwy ar gyfer y llifogydd a welir yn Llanybydder a Llandysul, a gwnaethpwyd gwaith ymgysylltu â’r cyhoedd a chyflwynwyd achos busnes llawn i Lywodraeth Cymru am gyllid i ddarparu datrysiadau i’r llifogydd lleol.
- Yn 2019, datganodd y Cyngor Argyfwng Hinsawdd ac ymrwymodd y Cyngor i’r cam o sicrhau Carbon Sero Net erbyn 2030. Cyhoeddwyd Cynllun Gweithredu Carbon Sero Net ar gyfer Cyngor Sir Ceredigion, yn nodi ei ymateb i’r argyfwng hinsawdd, gan esbonio pam bod angen i ni gymryd y cam hwn a pham bod targed 2030 mor bwysig er mwyn mynd i’r afael â newid hinsawdd.
- Er 2005, bu gostyngiad yn allyriadau carbon deuocsid Ceredigion. Mae’r data diweddaraf gan yr Adran Diogeled Ynni a Sero Net yn dangos bod allyriadau wedi gostwng 41% yn y sir o gyfanswm o 610.5 ktCO₂e yn 2005 i 362.3 ktCO₂e yn 2022. (ktCO₂e = cilodunnell o allyriadau carbon deuocsid cyfatebol)
- Ysgol Dyffryn Aeron, a agorodd ym mis Mawrth 2025, yw ysgol carbon sero net gyntaf y sir, y mae ei chostau rhedeg yn is ac sy’n cyd-fynd ag uchelgais y Sir o fod yn awdurdod carbon sero net erbyn 2030.
- Mae mentrau sy’n cynnwys uwchraddio goleuadau stryd i fod yn rhai LED, cynlluniau gwresogi ardal biomas, disodli boeleri, adnewyddu fflyd, paneli solar ac ad-drefnu adeiladau oll wedi cyfrannu at leihau allyriadau carbon. Mae’r Cyngor yn mynd trwy’r broses o ddatblygu cynlluniau er mwyn lleihau ein defnydd o ynni a’n hallyriadau ymhellach, er mwyn cyflawni targed 2030.
- Dros y chwe blynedd ddiwethaf, mae Ceredigion wedi llwyddo i gyflawni un o’r cyfraddau ailgylchu uchaf yng Nghymru ac yn y DU, gan gyrraedd 71.7% yn 2024/25, sy’n uwch na’r targed o 70 ar gyfer y flwyddyn. Mae’r lefelau ailgylchu uchel yn y sir yn dargyfeirio gwastraff i ffwrdd o safleoedd tirlenwi. Unwaith eto, mae Ceredigion wedi llwyddo i gynnal ei safle fel un o’r ychydig awdurdodau lleol i ragori ar dargedau ailgylchu Llywodraeth Cymru yn ystod 24/25, ac mae’n argoeli’n dda y bydd yn llwyddo i barhau i wneud hynny trwy 25/26.
- Datblygwyd Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol Canolbarth Cymru ac ymgynghorwyd amdano a’i gyflwyno i Lywodraeth Cymru i’w gymeradwyo. Mae’r cynllun yn nodi’r weledigaeth er mwyn creu system drafnidiaeth gynaliadwy, carbon isel ac effeithlon ar gyfer Canolbarth Cymru, gan ganolbwyntio ar wella cysylltedd.
- Yn ystod 2024/25, llwyddodd Ceredigion i ddarparu rhaglen o welliannau i’r seilwaith bysiau ar hyd coridor Traws Cymru ac mae wedi llwyddo i sicrhau cyllid pellach ar ffurf grant ar gyfer 2025/26 er mwyn gwneud gwelliannau pellach i’r seilwaith bysiau, gan gynnwys gwybodaeth amser real a chyllid ar gyfer asesiadau WelTag sy’n ymwneud â Chyfnewidfa Fysiau Aberteifi yn sgwâr Finch.
- Bydd pedwar o draethau mwyaf poblogaidd Ceredigion yn chwifio Baneri Glas yn 2024 ar ôl cael y wobwr gan Gadwch Cymru’n Daclus. Y traethau Baner Las yw Borth, Llangrannog, Tre-saith a De Aberystwyth.
- Mae pum traeth pellach wedi sicrhau statws Gwobr Glan Môr, sef Gogledd Aberystwyth, Harbwr Ceinewydd, Aber-porth, Clarach a Thraeth y Dolau. Rhaid i draethau sy’n sicrhau statws dyfarniad Baner Las ac Arfordir Gwyrdd fodloni’r safon uchaf sef ansawdd dŵr “rhagorol”, a chânt eu barnu am ddarparu cyfleusterau i ddefnyddwyr traeth ac ar gyfer dangos rheolaeth dda a darpariaeth diogelwch.
- Mae Cilborth, Llanrhystud, Mwnt a Phenbryn wedi llwyddo i sicrhau Gwobr yr Arfordir Gwyrdd. Mae’r Wobr yn cydnabod traethau sydd ag ansawdd dŵr o safon “Da” yn gyffredinol, cyfleusterau cyhoeddus, darpariaeth diogelwch a rheolaeth.
- Cyhoeddwyd Strategaeth Ddigidol newydd ar gyfer y cyfnod tan 2030 yn 2025. Mae’r Strategaeth newydd yn ceisio darparu ‘Ceredigion sy’n Hyderus yn Ddigidol’, lle y mae’r Cyngor yn hyderus i ddatblygu, arloesi a darparu gwasanaethau digidol mewn partneriaeth â’n cymunedau, a lle y mae cymunedau yn gysylltiedig, yn ymgysylltu ac yn barod i gael budd ganddynt. Fe’i chynlluniwyd i gynorthwyo Cenadaethau Digidol Cenedlaethol Llywodraeth Cymru a chynorthwyo’r gwaith o gyflawni pedwar Amcan Llesiant Corfforaethol y Cyngor.
- Mae lobiö sylweddol gan Gyngor Sir Ceredigion ac eraill wedi arwain at fand eang ffeibr llawn ar gyfer 56.7%, gan gynnig gallugrwydd o dros 100 Mbps. Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae darpariaeth Ffeibr i’r adeilad (FTTP) wedi codi o 50.7% i 56.7%.
- Casglwyd gwerth 122 cilogram o wastraff am bob unigolyn yn ystod 2024/25, a rheolwyd dros 700 o finiau gwastraff ar draws y Sir.
- Rheolwyd dros 1,700 o fannau parcio talu ac arddangos ar draws y Sir.
- Llwyddwyd i atal 65% o’r aelwydydd a gynorthwywyd gan y Tîm Digartrefedd rhag bod yn ddigartref, sy’n uwch na’r cyfartaledd ar draws Cymru, sef 58%.
- Llwyddwyd i wneud cynnydd arwyddocaol

mewn perthynas â darparu pwyntiau gwefru mewn meysydd parcio y mae'r cyngor yn berchen arnynt ac yn eu rheoli, a datblygir/darparir cam pellach o osod cyfleusterau gwefru ar y stryd yn ystod 25/26. Y nod yw annog datgarboneiddio trafnidiaeth a chynyddu'r niferoedd sy'n dewis Cerbydau Allyriadau Isel lawn.

- Llwyddwyd i sicrhau cynnydd mewn perthynas â'r nodau i ddatblygu seilwaith depo a darparu offer gwefru sydd ar gael i'r cyhoedd mewn meysydd parcio ar draws y Sir, a datblygir/cyflwynir cam pellach o gyfleusterau gwefru ar y stryd yn ystod 25/26.
- Cwblhawyd Cam 3 cynllun troedffordd Rhiwgoch, sy'n ceisio gwella'r cysylltedd rhwng Ffos-y-Ffin ac Aberaeron. Ariannir y cynllun hwn gan Grant Llwybrau Diogel mewn Cymunedau Llywodraeth Cymru, ac mae'n helpu i gysylltu cymunedau a chynnig dewisiadau teithio iachach a mwy cynaliadwy ar gyfer ein preswylwyr wrth i ni weithio tuag at leihau allyriadau carbon a chynnal targedau aer glanach.
- Cynhaliwyd sesiwn galw heibio am effeithlonrwydd ynni ym mis Chwefror 2025 yng Nghanolfan Lles Llanbedr Pont Steffan, a oedd yn ceisio helpu preswylwyr i fynd i'r afael â biliau tanwydd uchel a lleihau allyriadau carbon. Yn ystod y sesiwn, rhoddwyd cyngor am fesurau arbed ynni y gellir eu cymryd yn y cartref, ac roedd hyn yn ymateb i'r argyfwng costau byw sy'n parhau, lle y gwelwyd biliau cyfleustodau yn codi'n sylweddol i breswylwyr lleol er 2021.
- Mae'r Cyngor yn treialu cynllun newydd, a ariannir gan Lywodraeth Cymru, i osod pwyntiau gwefru cerbydau trydan ar strydoedd preswyl er mwyn cynorthwyo preswylwyr nad ydynt yn gallu manteisio ar y cyfle na'r cyfleusterau i osod pwyntiau gwefru o'u heiddo. Gosodir 18 o bwyntiau gwefru ar draws tri lleoliad yn Aberystwyth er mwyn helpu i fodloni anghenion preswylwyr ar hyn o bryd ac yn y dyfodol wrth iddynt newid i gerbydau trydan yn raddol.
- Mae'r Cyngor wedi llwyddo i sicrhau cyllid gan

Lywodraeth Cymru hefyd i ddatblygu treial pellach gyda 'Connected Kerb' i gael pwyntiau gwefru cerbydau trydan o fath bolardiau statig. Gweithredir y datblygiad hwn er mwyn ymateb i ddatganiad y Cyngor ynghylch argyfwng hinsawdd byd-eang, gan ymrwymo'r Cyngor i sicrhau Carbon Sero Net erbyn 2030.

- Ar hyn o bryd, mae 140 o ddyfeisiau gwefru trydan chwim (neu gyflymach) ar draws Ceredigion, sef 195.5 dyfais fesul 100,000 o'r boblogaeth, sy'n rhoi'r sir yn yr 20% uchaf ar draws y DU o ran ei darpariaeth pwyntiau gwefru cerbydau trydan.
- Cynhaliodd Cyngor Sir Ceredigion ddigwyddiad arddangos ym mis Chwefror 2025 yng Nghastell Aberteifi, gan amlygu gwaith Prosiect Rheoli Maethynnau Afon Teifi a Phrosiect Cyflymu Cysylltedd Gwledig. Gyda chymorth Llywodraeth Cymru ac Adran Wyddoniaeth, Arloesi a Thechnoleg (DSIT) y DU, roedd y digwyddiad yn dwyn ynghyd rhanddeiliaid allweddol i drafod dulliau arloesol er mwyn gwella ansawdd dŵr a chysylltedd digidol mewn cymunedau gwledig.
- Dros y 3 blynedd ddiwethaf, mae Cyngor Sir Ceredigion wedi creu Bwrdd Rheoli Maethynnau Teifi, er mwyn sefydlu dull gweithredu sy'n seiliedig ar ddalgylch wrth reoli maethynnau. Cynhaliwyd prosiectau fel rhan o Brosiect Lleihau a Lliniaru Ffosffadau (PRAM) a sefydlwyd gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri, megis gosod gwerth 9 cilomedr o ffens ar lan yr afon a gosod 6 chynllun draenio trefol cynaliadwy.
- Gwelwyd Storm Darragh yn dwyn gwyntoedd cryfion a glaw trwm i Gymru yn gynnar ym mis Rhagfyr 2024, gan achosi difrod eang, a chan adael miloedd o gartrefi yng Ngheredigion heb bŵer, ffôn na rhyngwrdd. Roedd yr ymatebion a gydlynwyd gan y Cyngor yn cynnwys sefydlu 4 Hwb Croeso a ddefnyddiwyd gan 369 o breswylwyr, a oedd yn cynnig cawodydd cynnes, amgylchedd gynnes, diodydd cynnes a chyfleusterau gwefru. Roedd 76 o breswylwyr pellach ar restr categorïau mwyaf agored i niwed y Grid Cenedlaethol wedi cael archwiliadau lles gan y Cyngor.

CYFLAWNIADAU

12

Eiddo gwag wedi dod yn ôl i ddefnydd yn Dilyn ymyrraeth gan y Gwasanaeth Tai

13

o draethau Ceredigion wedi adnabod mewn Gwobrau Arfordir Cymru 2024/25

3.57

diwrnod ar gyfartaledd i glirio tomennu anghyfreithlon ledled y Sir yn well na'r targed o 5 diwrnod

122.1

Cilogramau o wastraff gweddilliol a gynhyrchwyd fesul person, yn well na'r targed o 165kg.

56.7%

Darpariaeth band eang Ffibr i'r Adeilad (FTTP) wedi cynyddu o 40.9%, oherwydd buddsoddiad mewn cysylltedd digidol dros y ddwy flynedd ddiwethaf

3.6m

Cyfanswm yr oriau cilowatt o ynni adnewyddadwy a gynhyrchir gan asedau'r cyngor, yn uwch na'r targed o 3.3m cilowatt

92.8%

O lwybrau casglu sbwriel wedi'i chasglu ar ddiwrnod rhestredig casglu, uwchben y targed o 90%

96.0%

O lwybrau casglu sbwriel wedi'i chasglu ar ddiwrnod rhestredig casglu yn uwch na 95.0% llynedd

GWELLA CANLYNIADAU



MYND I'R AFAEL Â LLYGREDD

Dan arweiniad Cyngor Sir Ceredigion ac mewn cydweithrediad â'r Bwrdd Rheoli Maethynnau, mae prosiect Monitro Maethynnau Teifi wedi cyflwyno ei ddangosfwrdd synhwyro rheoli maetholion arloesol.

Mae'r dangosfwrdd yn integreiddio data o synwryddion sydd wedi eu gosod mewn mannau allweddol ar hyd afon Teifi a'r isafonydd iddi. Mae'r synwryddion hyn, a ategir gan gysylltedd Orbit Daear Isel Lacuna (LEO), yn sicrhau bod data'n cael ei drosglwyddo'n barhaus, hyd yn oed o ardaloedd anghysbell, gan roi golwg amserol a chyfoes i randdeiliaid o baramedrau ansawdd dŵr hanfodol, megis lefelau ffosffad ac amrywiadau uchder afonydd.

Yn ogystal a monitro ansawdd dwr, mae'r dangosfwrdd yn mewnforio lefelau uchder afonydd yn ystod digwyddiadau tywydd eithafol, gan gynnig cymariaethau blwyddyn ar ôl blwyddyn sy'n fuddiol ar gyfer rheoli maetholion a rheoli llifogydd.

Nod y prosiect yw creu **amgylchedd cynaliadwy i bawb trwy roi sylw i'r heriau o ran ansawdd dŵr** yn nalgylch Afon Teifi ac **atal difrod amgylcheddol yn y dyfodol**.

Mae'r dangosfwrdd yn rhan allweddol o'r prosiect Monitro Maethynnau Teifi a chaiff ei ariannu gan Gronfa Ffyniant Cyffredin y DU a'i weinyddu gan dîm Cynnal y Cardi yng Nghyngor Sir Ceredigion, a'i gyflenwi mewn cydweithrediad â'r Bwrdd Rheoli Maethynnau a'i randdeiliaid.



CYNYDDU EFFEITHLONRWYDD YNNI

Ym mis Gorffennaf 2024, llwyddodd Cyngor Sir Ceredigion i ennill categori Cyngor Rhanbarthol/Corff Awdurdod Lleol y Flwyddyn yng Ngwobrau Effeithlonrwydd Ynni Cymru 2024 yng Nghaerdydd.

Mae'r Gwobrau Effeithlonrwydd Ynni yn cydnabod y gwaith a gyflawnir gan y sector effeithlonrwydd ynni yng Nghymru. Barnwyd y gwaith ar sail ei effaith yn y gymuned leol, adborth cwsmeriaid i'r Cyngor, lefel yr arbenigedd sydd gan y Cyngor a'r flaenoriaeth y mae'r Cyngor yn ei roi i fynd i'r afael â thlodi tanwydd.

Mae'r Cyngor wedi bod yn darparu cynllun 'Cymhwysra Hyblyg ECO' yr Awdurdod Lleol ers sawl blynedd. Mae'r cynllun hwn wedi helpu aelwydydd i **leihau eu biliau ynni, mynd i'r afael â thlodi tanwydd a lleihau allyriadau carbon** trwy osod systemau gwresogi a mesurau inswleiddio cysylltiedig.

Mae hyn wedi gwella effeithlonrwydd ynni a chysur thermol nifer o gartrefi yng Ngheredigion, ac mae wedi bod yn hanfodol yn ystod yr argyfwng costau byw ac ynni.

Rhoddwyd canmoliaeth uchel i Geredigion hefyd yng nghategori Sefydliad Cymorth i Gwsmeriaid Agored i Niwed Rhanbarthol y Flwyddyn. Roedd y categori hwn yn cydnabod gwir ymrwymiad i **wella bywydau pobl agored i niwed** trwy gyfrwng effeithlonrwydd ynni yn ei ranbarth.



GWELLA CYSYLLTEDD

Yn ystod 2024, cefnogodd y Cyngor brosiect arloesol gan raglen Tyfu Canolbarth Cymru i nodi ardaloedd lle'r oedd y signal band eang symudol 4G a chapasiti y rhwydwaith yn wael, trwy osod dyfeisiau casglu data symudol datblygedig ar gerbydau casglu gwastraff ar draws Powys a Cheredigion.

Roedd y cerbydau casglu gwastraff wedi parhau ar eu llwybrau rheolaidd, gan sicrhau gweithgarwch casglu data trylwyr a heb y costau logisteg ychwanegol o orfod llogi tîm a cherbydau arbenigol i sicrhau canlyniad tebyg. Mae'r dull cost-effeithiol hwn yn cynnig datrysiad effeithlon er mwyn mapio'r gwasanaeth symudol ar draws y rhanbarth.

Ariannwyd y prosiect gan Gronfa Ffyniant Gyffredin y DU, gan gynhyrchu offeryn gwirio gwasanaeth a fydd yn caniatáu i bobl wirio'r gwasanaeth symudol yn eu hardaloedd a phenderfynu ar y darparwyr symudol mwyaf addas ar gyfer eu hanghenion, gan **wella tryloywder digidol**.

Bellach, mae Tyfu Canolbarth Cymru yn defnyddio'r data hwn i ddatblygu prosiectau ac ymyriadau wedi'u targedu er mwyn **rhoi sylw i heriau cysylltedd** mewn ardaloedd allweddol, a fydd yn helpu i **wella'r seilwaith digidol ar draws ardal canolbarth Cymru**.

Mae'r fenter hon yn cynorthwyo gyda **gweithgarwch penderfynu ar gyfer defnyddio seilwaith digidol, datblygiad economaidd rhanbarthol, ac arloesi**.



MYND I'R AFAEL AG ERYDU ARFORDIROL A LLIFOGYDD

Mae'r gwaith ar gynllun amddiffyn arfordirol Aberaeron, sy'n costio £32m, wedi bod yn mynd rhagddo yn ystod y flwyddyn, ac mae ar fin cael ei gwblhau.

Mae'r cynllun yn cynnwys adeiladu morglawdd creigiau a fydd yn ymestyn allan o Bier y Gogledd, adnewyddu ac ailadeiladu pen Pier y De, adeiladu muriau llifogydd, adeiladu llifddor wrth harbwr mewnol Pwll Cam a gwelliannau i'r amddiffynfeydd presennol ar Draeth y De.

Mae stormydd a chodiad yn lefel y môr yn fygythiad difrifol i'r dref. Mae stormydd dros y blynyddoedd diwethaf wedi arwain at gau Pen Cei a dŵr yn dod dros yr amddiffynfeydd presennol yn yr harbwr ac ar Draeth y De.

Bydd y cynllun yn **diogelu'r dref a'r arfordir gerllaw rhag lefel y môr yn codi, gan atal llifogydd ac erydu arfordirol**.

Bydd yn **gwella lefel y diogelwch i'r busnesau a'r cartrefi** niferus yn y dref, a bydd yn **diogelu cymeriad hanesyddol ac unigryw yr ardal ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol**.

Ariannir y cynllun trwy gyfrwng cyfraniad o £25.85m gan Raglen Rheoli Risgiau Arfordirol Llywodraeth Cymru, ynghyd â chyfraniad o £4.74m gan Gyngor Sir Ceredigion.

Asesiad cyffredinol o'r daith hyd yn hyn

Mae cynnydd wrth fodloni'r amcan hwn yn **dda** ac mae'r rhagolygon gwella yn **dda iawn**.

Mae Ceredigion wedi cyflawni rôl arweiniol yn ei uchelgais o sicrhau sero net a diogelu ei amgylchedd unigryw ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Mae'n arwain ar Fwrdd Rheoli Maethynnau Gorllewin Cymru i roi sylw i heriau mewn perthynas ag ansawdd dŵr, mae wedi ennill gwobrau am effeithlonrwydd ynni ym maes tai, gan leihau allyriadau carbon trwy gyfrwng ei Gynllun Rheoli Carbon, ac mae'n parhau i berfformio ymhlith y gorau ar lefel genedlaethol ym maes ailgylchu a dargyfeirio gwastraff o safleoedd tirlenwi. Yn ogystal, mae llobio sylweddol a gwaith mewn partneriaeth a wneir ar draws rhanbarth Canolbarth Cymru yn gweld cysylltedd y Sir yn parhau i wella.

Mae'r rhain yn enghreifftiau o'r ffordd y mae Ceredigion yn arwain y ffordd wrth gyflawni'r amcan hwn.

YN ARWAIN Y Ffordd

MWYHAU EIN CYFRANIAD AT Y NODAU LLESIANT CENEDLAETHOL

Mae'r nod llesiant corfforaethol **Creu Cymunedau Cynaliadwy, mwy Gwyrdd sydd wedi'u Cysylltu'n Dda a'i Gilydd** yn cefnogi'r nodau llesiant cenedlaethol canlynol. ►

Llewyrchus

Cydnherth

Iachach

May Cyfartal

Cydllynus

Diwylliant

Byd-eang

DARPARU DATBLYGU CYNALIADWY



Hirdymor

- Bydd cynllunio hirdymor i leihau allyriadau carbon yn helpu i ddiogelu ein tirwedd hardd ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol
- Defnyddiwyd dadansoddiad Tueddiadau'r Dyfodol i ddatblygu Cynllun Rheoli Carbon 5 Mlynedd y Cyngor



Atal

- Mae'r amcan cyntaf yn canolbwyntio ar atal effaith pellach ar yr amgylchedd, yn enwedig lleihau allyriadau carbon, ond hefyd yr effaith ar fioamrywiaeth ar draws y Sir
- Mae teithio llesol yn rhan allweddol o strategaeth Ceredigion i wella iechyd a llesiant, ac felly atal problemau sy'n ymwneud ag iechyd yn y dyfodol.
- Mae bod yn gysylltiedig wedi dod i'r amlwg dros ers pandemig COVID-19, a bydd budd-soddi mewn cysylltedd yn helpu i greu cymunedau cryfach a mwy llewyrchus.



Cydweithio

- Bydd gweithio ar y cyd â phartneriaid a rhanddeiliaid yn helpu i sicrhau dull cydgysylltiedig o leihau effaith newid yn yr hinsawdd a'n bod i gyd yn canolbwyntio ar fathau mwy cynaliadwy o ynni yn y dyfodol.
- Rydym yn gweithio mewn partneriaeth â chydweithwyr ar Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion, er enghraifft, i ddatblygu Prosiect Gwresogi Ardal Penglais lle bydd pob sefydliad sector cyhoeddus yn yr ardal yn gallu manteisio ar ynni gwyrdd.



Cynnwys

- Mae pawb yn cymryd rhan ac yn cael eu hannog i wneud dewisiadau a fydd yn lleihau costau nawr ac yn gwarchod yr amgylchedd ar gyfer y dyfodol



Integreiddio

- Mae datgarboneiddio, gwella iechyd y Sir trwy annog teithio llesol, a gwella cysylltedd yn dod â buddion clir ar gyfer cynyddu ein cyfraniad i bob un o'r nodau llesiant

CYFLAWNIADAU MESUR ALLWEDDOL

71.7%

gwastraff wedi'i ailgylchu wedi'i gompostio neu ei aildddefnyddio yn ystod 2024/25, uwchben y targed o 70% i helpu lleihau llygredd a diogelu ein hadnoddau naturiol

41%

lleihad mewn allyriadau carbon deuocsid ers 2005 i helpu lleihau effeithiau newid hinsawdd a gwella iechyd cymunedau lleol

97

Aelwyd a oedd dan fygythiad o ddigartrefedd wedi cael eu hatal rhag dod yn ddigartref yn llwyddiannus, yn helpu i wella iechyd cyhoeddus, diogelu grwpiau bregus a gwella siawnsiau bywyd

359

Archwiliadau hylendid bwyd risg uchel wedi'u rhaglennu i sicrhau iechyd y cyhoedd

CYFRANIAD AT Y NODAU LLESIANT CENEDLAETHOL

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn ceisio gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru drwy ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus gydweithio i greu Cymru gynaliadwy. Ei bwriad yw helpu i greu Cymru yr ydym ni eisiau byw ynddo, nawr ac yn y dyfodol. Mae 7 nod llesiant cenedlaethol sy'n nodi gweledigaeth a rennir i bob corff cyhoeddus weithio tuag at (dangosir ar y dde).

Rydym yn gwybod ein bod yn wynebu heriau yng Ngheredigion – mae'r argyfwng costau byw parhaus yn effeithio ar nifer o aelwydydd yn y Sir, ac mae tlodi gwledig a mynediad i wasanaethau wedi bod yn her gyson, ac mae incwm ac enillion aelwydydd yn is na'r cyfartaledd.

Mae angen tyfu'r economi leol hefyd a chreu cyfleoedd i bobl aros yn eu cymunedau lleol a ffynnu yno. Bydd y ffaith bod y ddemograffeg yn newid yn y sir, tuag at boblogaeth sy'n heneiddio a'r ffaith bod pobl iau yn gadael y sir, yn cael effeithiau pellgyrhaeddol ar draws pedair congrfaen lles.

Mae rhai o'r materion hyn wedi gwaethygu dros y blynyddoedd diwethaf o ganlyniad i bandemig COVID-19, megis fforddiadwyedd tai, ac mae eraill yn parhau i fod yn her gyson, megis delio â thlodi.

Mae **Cyngor Sir Ceredigion** wedi cydweithio â'i bartneriaid lleol a rhanbarthol i fynd i'r afael â'r materion cymhleth hyn i greu'r Ceredigion yr ydym ei heisio.

Rhai enghreifftiau yw Bargaen Twf Canolbarth Cymru yn sicrhau cyllid sylweddol ar gyfer adfywio ar draws y rhanbarth, Is-Grŵp Tlodi y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn mynd i'r afael ag effaith Tlodi ar draws y Sir, ac yn arwain ar Fwrdd Rheoli Maethynnau ar gyfer afon Teifi er mwyn gwella cyflwr yr afon a hwyluso datblygiad niwtral Rheoli Maethynnau i symud yn ei flaen.

Roedd Amcanion Llesiant y Cyngor wedi'i osod yn seiliedig ar dystiolaeth o anghenion lleol ac ar farn pobl leol. Defnyddiwyd amrywiaeth o ffynonellau i bennu'r anghenion hyn gan gynnwys Asesiad diwethaf Ceredigion o Lesiant Lleol a'r Cynllun Llesiant Lleol.

Bydd yr Amcanion Llesiant yn ein helpu i wella canlyniadau i bobl leol a hefyd yn gwneud y mwyaf o'n cyfraniad at y Nodau Llesiant cenedlaethol.


Rydym yn monitro ac yn adolygu cynnydd tuag at gyflawni'r Amcanion yn rheolaidd ac yn cynhyrchu Adroddiad Hunanasesu blynyddol lle rydym yn cyfleu cynnydd.

Mae **Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion** yn dod ag arweinwyr gwasanaethau cyhoeddus y Sir a'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau ynghyd, i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol y Sir drwy gryfhau cydweithio ar draws gwasanaethau'r Sir.

Fel y Cyngor, datblygwyd ei flaenoriaethau gan ddefnyddio tystiolaeth ac adborth ymgysylltu o ffynonellau allweddol megis yr Asesiad o Lesiant Lleol. Mae hyn yn sicrhau bod Amcanion Llesiant Cyngor Sir Ceredigion a Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion wedi'u halinio i ganolbwyntio ar anghenion blaenoriaeth y Sir, a chynyddu'r cyfraniad at y Nodau Llesiant cenedlaethol.

Mae themâu cyffredin fel mynd i'r afael a thlodi, cyfrifoldeb amgylcheddol, creu cyfleoedd a darparu'r dechrau gorau mewn bywyd i gyd yn cyd-fynd yn agos ac yn caniatáu i ni ddarparu ymateb cydgyssylltiedig a rennir i wella llesiant. Mae'r tabl trosodd yn dangos sut mae Amcanion Llesiant Ceredigion yn cyfrannu at y 7 Nod Llesiant cenedlaethol.

Y 7 NOD LLESIANT CENEDLAETHOL



Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn rhoi 7 Nod Llesiant ar waith.

Mae'r Ddeddf yn rhoi'r uchelgais, y caniatâd a'r rhwymedigaeth gyfreithiol i ni wella ein llesiant cymdeithasol, diwylliannol, amgylcheddol ac economaidd.

Mae'n ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus yng Nghymru feddlw am effaith hirdymor eu penderfyniadau, i weithio yn well gyda phobl, cymunedau a'i gilydd, ac i atal problemau parhaus fel tlodi, anghydraddoldebau iechyd a newid yn yr hinsawdd.

▼ Nod Llesiant	Sut mae Amcanion Llesiant y Cyngor yn cyfrannu at y Nodau Llesiant cenedlaethol▼
Cymru lewyrchus	Mae ein holl Amcanion Llesiant yn adlewyrchu'r pwysigrwydd o ddatblygu economi leol Ceredigion. Bydd galluogi cyflogaeth, datblygu sgiliau, darparu tai fforddiadwy, amddiffyn yr amgylchedd, cefnogi busnesau a buddsoddi mewn adfywio i gyd yn cyfrannu tuag at y nod cenedlaethol o Gymru lewyrchus. Bydd cynorthwyo busnesau sy'n bodoli eisoes a busnesau newydd i dyfu yn helpu i wella cynhyrchiant, gan greu mwy o swyddi a swyddi sy'n talu'n well, a chynorthwyo'r gweithlu trwy gyfleoedd dysgu. Bydd Ceredigion sy'n fwy ffyniannus yn helpu i fynd i'r afael â thlodi a chaledi hefyd.
Cymru gydnerth	Bydd cyflwyno ein huchelgais o fod yn garbon net sero, cynyddu cyfleoedd i deithio llesol a sicrhau bod cymunedau wedi'i chysylltu yn dda yn helpu amddiffyn ein hamgylchedd naturiol ac yn creu cymunedau cryf a gydnerth. Mae hyn yn cyfrannu tuag at y nod Llesiant cenedlaethol o greu Cymru gydnerth trwy leihau ein heffeithiau ar yr amgylchedd a gwella ein gallu i addasu i newid.
Cymru iachach	Mae cefnogi dysgwyr mewn addysg a hyfforddiant, amddiffyn pobl rhag tlodi, a hybu bywydau iachach a mwy llesol yn ceisio adeiladau Ceredigion a Chymru iachach. Mae hyn hefyd yn galluogi byw annibynnol ac yn darparu ymyrraeth gynnar a gwasanaethau atal i'r rhai sy'n agored i niwed. Bydd cynorthwyo dinasyddion i wella eu lles corfforol ac emosiynol yn cynorthwyo mentrau eraill i ddarparu Cymru iachach a chreu cymunedau mwy cydnerth.
Cymru sy'n fwy cyfartal	Mae pob un o'n Hamcanion Llesiant yn ceisio sefydlu Cymru fwy Cyfartal drwy sicrhau cyfle cyfartal i bawb mewn cyflogaeth, tai, addysg, ffyrdd iachach o fyw a chymunedau cynaliadwy.
Cymru o gymunedau cydlynus	Mae adeiladu cryfder ein cymunedau yn nodwedd allweddol yn ein Hamcanion Llesiant. Bydd cynnig cymorth i'n cymunedau fod yn gadarn ac yn gysylltiedig fel eu bod yn gallu ffynnu, yn gwella Cymru llawn cymunedau cydlynus.
Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu	Mae'r Cyngor yn parhau i hyrwyddo diwylliant a hunaniaeth ddwyieithog unigryw a bywiog Ceredigion. Amlygwyd bod congifaen diwylliannol Lles yn arbennig o bwysig i Ddinasyddion yn Asesiad Lles Lleol Ceredigion, ac mae mesurau pellach i hyrwyddo dwyieithrwydd a'r iaith Gymraeg yn eu lle gan gynnwys Strategaeth yr Iaith Gymraeg newydd.
Cymru sy'n gyfrifol ar lefel byd-eang	Wrth ystyried ein Hamcanion Llesiant, rydym wedi ystyried Asesiad o Lesiant Lleol Ceredigion a gweithgarwch ymgysylltu er mwyn sicrhau y gallwn wneud cyfraniad cadarnhaol at lesiant byd-eang. Mae cymorth ar gyfer teithio llesol, dulliau eraill o deithio a ffyrdd newydd o weithio sy'n adeiladu ar ein huchelgais di-garbon yn parhau â'n gwaith yn y maes hwn.

YR EGWYDDOR DATBLYGU CYNALIADWY

Cyflwynodd Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yr Egwyddor Datblygu Cynaliadwy ac mae'n amlinellu'r 5 ffordd o weithio y mae'r rhaid i bob corff cyhoeddus eu mabwysiadu. Datblygu Cynaliadwy yw'r egwyddor drefnu ganolog sy'n llywio'r hyn yr ydym yn ei wneud a'r ffordd yr ydym yn gwneud hynny.

Yn ei hanfod, mae hyn yn golygu bod yn rhaid i ni ymdrechu i sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain. Mae'r dull hwn yn rhoi cyfle i feddwl yn arloesol, gan adlewyrchu'r ffordd yr ydym yn byw ein bywydau a'r hyn a ddisgwyliwn gan ein gwasanaethau cyhoeddus

Rydym wedi gwreiddio'r egwyddor ar draws y Cyngor ac wedi mabwysiadu'r egwyddor wrth gynllunio a chyflawni ein Hamcanion Llesiant.

Mae rhai o'r ffyrdd yr ydym wedi defnyddio'r Egwyddor Datblygu Cynaliadwy wedi'u hamlinellu i'r dde.

	Ffyrdd o Weithio	Sut mae'r Cyngor wedi dangos yr Egwyddor Datblygu Cynaliadwy
	<u>Hirdymor</u> Edrych i'r tymor hir fel nad ydym yn peryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu anghenion eu hunain	- Mae Cynllunio Ariannol Tymor Canolig yn sicrhau bod penderfyniadau yn ystyried yr effaith ar cenedlaethau'r dyfodol - Mae cynllunio'r gweithlu yn sicrhau datblygiad sgiliau'r gweithlu ar gyfer y dyfodol a sicrhau bod gwasanaethau yn cynaliadwy yn hir dymor. - Mae'r Strategaeth Gorfforaethol yn ceisio datblygu a gwella llesiant cymdeithasol, economi, amgylcheddol a diwylliannol Ceredigion dros y 5 mlynedd nesaf a thu hwnt. - Rhagwelir y bydd yr adferiad o'r pandemig COVID-19 yn para am nifer o flynyddoedd ac mae ein cynlluniau i fynd i'r afael â thlodi a mabwysiadu ymagwedd hirdymor at ddatblygu economaidd yn adlewyrchu hyn.
	<u>Integreiddio</u> Cymryd ymagwedd integredig fel bod cyrff cyhoeddus yn edrych ar yr holl nodau llesiant wrth benderfynu ar eu Hamcanion Llesiant	Mae'r Amcanion Llesiant Corfforaethol yn cyd-fynd â rhai Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion sy'n hyrwyddo cyd-ddealltwriaeth ac ymateb cydgyssylltiedig i'r heriau y mae Ceredigion yn eu hwynebu i wella llesiant dinasyddion.
	<u>Cynnwys</u> Cynnwys amrywiaeth o'r boblogaeth yn y penderfyniadau sy'n effeithio arnynt	- Mae Strategaeth Gorfforaethol y Cyngor wedi ystyried Asesiad o Llesiant Lleol y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, a gynhyrchwyd yn dilyn ymgysylltu helaeth â dinasyddion, gan gynnwys y rhai â nodweddion gwarchodedig. - Mae'r Cyngor yn ymgynghori gyda dinasyddion a'i grwpiau ymgysylltu ynghylch y cam o osod ei Amcanion Llesiant Corfforaethol. - Mae'r Cyngor wedi cofrestru ar gyfer yr Arolwg Preswylwyr Cenedlaethol a ddatblygwyd gan Data Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, a chynhaliodd ei arolwg cyntaf yn ystod yr haf 2024. - Bydd Strategaeth Ymgysylltu a Chyfranogiad y Cyngor yn helpu i sicrhau bod lleisiau holl grwpiau Ceredigion yn cael eu clywed.
	<u>Cydweithio</u> Gweithio gydag eraill mewn ffordd gydweithredol i ddod o hyd i atebion cynaliadwy a rennir	- Mae'r Cyngor yn cefnogi'r partneriaethau canlynol, ymhlith rhai eraill, mewn ffordd weithredol: - Partneriaeth Tyfu Canolbarth Cymru. - Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion. - Partneriaeth Diogelwch Cymunedol. - Bu'r Cyngor yn gweithio gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda a phartneriaid eraill wrth ymateb i COVID-19, gan gynnwys sefydlu dau ysbyty dros dro, canolfannau brechu torfol a phanel amlasiantaethol er mwyn sicrhau bod lleoliadau cymunedol yn cael eu hailagor yn ddiogel.
	<u>Atal</u> Deall achosion sylfaenol problemau i'w hatal rhag digwydd	- Mae Amcanion Llesiant y Cyngor wedi'u pennu er mwyn atal problemau rhag digwydd neu waethygu. Mae'r rhain yn cynnwys mynd i'r afael ag effeithiau tlodi, materion gwledigrwydd a gwella llesiant pobl o bob oed, o'r blynyddoedd cynnar hyd at oedran hŷn. - Mae'r Model Gydol Oes yn darparu dull cydgyssylltiedig o ymdrin â gofal cymdeithasol er mwyn atal, lleihau neu ohirio'r angen am gymorth parhaus, a chaniatáu i bobl aros yn eu cartrefi eu hunain.

UNO EIN CYNLLUNIAU - CYSYLLTIADAU I ADNODDAU ALLWEDDOL

ADNODDAU ALLWEDDOL

Mae ein Hadrddiad Hunanasesu yn cyflawni ein dyletswyddau o dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 a Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 mewn perthynas â pherfformiad y Cyngor a gosod ac adolygu amcanion llesiant.

Mae gofynion Hunanasesu yn cyd-fynd â'r dyletswyddau a amlinellir mewn Deddfau eraill, ac yn eu cefnogi. Mae'r tudalennau canlynol yn rhoi crynodeb o'r dyletswyddau hyn a pholisi neu strategaeth briodol y Cyngor sydd ar waith i ymateb i'r ddyletswydd.

-  Cydraddoldebau
-  Yr Iaith Gymraeg
-  Cyllid
-  Caffaeliad
-  Llywodraethu
-  Rheoli Asedau
-  Adnoddau Dynol
-  Llesiant Gydol Oes
-  Economi
-  Mynd i'r afael a Chaledi
-  Strategaeth Gweithio Hybrid
-  Tai

CYDRADDOLDEBAU

Mae [Cynllun Cydraddoldeb Strategol](#) y Cyngor yn egluro sut y bydd Cyngor Sir Ceredigion yn sicrhau bod y camau a gymerwn yn deg i bawb. Mae cael eich trin yn deg a chyda pharch yn berthnasol i bob un ohonom ac i'n teuluoedd a'n ffrindiau. Dyma bum Amcan Cydraddoldeb y Strategaeth:

- Cyflogwr cyfle cyfartal enghreifftiol
- Meithrin perthnasoedd da a mynd i'r afael â rhagfarn
- Ymgysylltu a chyfranogi
- Urddas, parch a mynediad i wasanaethau
- Addysg deg a chynhwysol

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn dwyn ynghyd ac yn disodli'r cyfreithiau gwrth-wahaniaethu blaenorol. Mae'n symleiddio ac yn cryfhau'r gyfraith ac yn ei gwneud hi'n haws i bobl ddeall a chydymffurfio â'r gyfraith. Mae'r Ddeddf yn diogelu hawliau unigolion ac yn hyrwyddo cyfle cyfartal i bawb. Mae'n cynnwys rhoi dyletswydd gyffredinol ar sefydliadau yn y sector cyhoeddus i roi 'syw dyledus' i'r canlynol:

- Dileu gwahaniaethu'n anghyfreithlon, aflonyddu neu erledigaeth ac unrhyw ymddygiad arall a waherddir gan y Ddeddf.
- Hybu cyfle cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig a phobl nad ydynt yn ei rhannu.
- Meithrin perthnasoedd da rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig a phobl nad ydynt yn ei rhannu trwy fynd i'r afael â rhagfarn a hybu dealltwriaeth ohono.

Mae'n ofynnol i gyrff y sector cyhoeddus adolygu eu Hamcanion Cydraddoldeb Strategol a'u cynllun gweithredu bob pedair blynedd. I wneud hyn, rydym yn ymgynghori ac yn ymgysylltu â'n cymunedau lleol i lywio'r cynllun a'r amcanion. Mae Cyngor Ceredigion

yn aelod o Grŵp Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant Rhanbarthol y Canolbarth a'r Gorllewin, a chytunodd y Grŵp hwn i fynd ati fel rhanbarth i ymdrin â'r darn hwn o waith. Datblygwyd y cynllun ymgysylltu ac ymgynghori rhanbarthol yn Ch4 2022-23 a bydd yn cael ei roi ar waith yn ystod 2023-24 er mwyn i'n Cynlluniau Cydraddoldeb Strategol diwygiedig fod yn barod i'w cyhoeddi erbyn 31 Mawrth 2024.

YR IAITH GYMRAEG

Gweledigaeth Cyngor Sir Ceredigion yw bod yr iaith Gymraeg a Chymreictod yn rhywbeth sy'n perthyn i bawb yng Ngheredigion, gan fod yn rhywbeth y mae holl breswylwyr y Sir yn teimlo balchder ynddo.

Er mwyn cyflawni hyn, cyhoeddwyd [Strategaeth Hyrwyddo'r Iaith Gymraeg](#) newydd y Cyngor ym mis Rhagfyr 2024, yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus, ac mae'n datblygu'r sylfeini a osodwyd yn y strategaeth flaenorol i gynyddu'r cyfleoedd i ddefnyddio'r iaith Gymraeg ar draws y Sir.

Cydnabyddir bod hyfywedd yr iaith Gymraeg yn ddibynnol ar gynnal cymunedau lle y mae nifer arwyddocaol o'r boblogaeth yn gallu siarad yr iaith a chael mynediad iddi ym mhob agwedd ar fywyd dyddiol.

Mae Ceredigion yn parhau i gael ei hystyried yn un o gadarnleoedd yr iaith Gymraeg, ac mae'n cynnwys y trydedd garfan fwyaf o siaradwyr Cymraeg ar lefel genedlaethol, sef 45.3% yn ôl Cyfrifiad 2021, gan gyfateb â 31,680 o breswylwyr.

Mae'r Strategaeth yn nodi sut y bydd y Cyngor yn annog yr iaith Gymraeg ac yn hwyluso ei defnydd yn fwy cyffredinol yn yr ardal leol, trwy gydweithredu gyda sefydliadau sy'n aelodau o Fforwm Iaith Dyfodol Dwyieithog Ceredigion. Mae Pwyllgor Fforwm Dyfodol Dwyieithog yn gyfrifol am fonitro gweithrediad y Strategaeth a datblygiadau o ran yr iaith Gymraeg yn y sir.

Mae'r Strategaeth yn cynnwys nifer o gamau a

chanlyniadau uchelgeisiol er mwyn gweld yr iaith yn ffynnu ar draws y sir, a rhannir y rhain ar draws pedair thema, sef Dysgu, Byw, Perthyn, Llwyddo.

Y targed cyffredinol yw y bydd cyfran y siaradwyr Cymraeg yng Ngheredigion yn codi 1.5% o 45.3% i 46.8% yn 2029. Bydd hyn yn arwain at gynydd o 612 o siaradwyr Cymraeg o'r gwaelodlin yn 2021, a bydd hefyd yn dechrau dadwneud y dirywiad a welwyd rhwng 2011 a 2021.

Mae gweithredoedd y Cyngor yn cyfrannu at godi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd yr iaith Gymraeg fel rhan hanfodol o hunaniaeth a threftadaeth Ceredigion, ynghyd â chyflwyno ymyriadau pendant a phenodol er mwyn annog y defnydd o'r iaith Gymraeg ym mhob agwedd ar fywyd cymdeithasol, diwylliannol ac economaidd y sir. Mae'r Strategaeth yn cynorthwyo gweledigaeth gyffredinol y Cyngor o "gynnig gwerth am arian, gwasanaethau cyhoeddus dwyieithog cynaliadwy" a gweledigaeth Llywodraeth Cymraeg o gael miliwn o siaradwyr Cymraeg yng Nghymru erbyn 2050. Mae gwybodaeth bellach am [Hyrwyddo a Hwyluso'r Iaith Gymraeg yng Ngheredigion](#) ar gael ar wefan y Cyngor.

CYLLID

Mae'r [Strategaeth Ariannol Tymor Canolig](#) yn rhoi fframwaith llywodraethu ariannol i weithredu ynddo drwy nodi'r materion i'w hystyried wrth gynllunio'n ariannol ar gyfer y tymor canolig.

Trwy ddwyn ynghyd yn y ddogfen hon ragdybiaethau ariannol, safonau darparu gwasanaeth, anghenion demograffig, a materion cynllunio'r gweithlu, disgwylir y bydd y Cyngor yn gallu ystyried rheolaeth gyffredinol ei adnoddau yn well er mwyn cyflawni ei amcanion.

Nod ariannol y Cyngor yw defnyddio adnoddau'n ofalus a chyfrifol a sicrhau cynnal a chryfhau cyfnerthed ariannol y Cyngor.

UNO EIN CYNLLUNIAU - CYSYLLTIADAU I ADNODDAU ALLWEDDOL

Mae deall y cyd-destun ariannol cyfan yn bwysig er mwyn sicrhau cyllideb gadarn a chytbwys ar gyfer y blynyddoedd nesaf gan y gwyddys y bydd cwtogi ar gyllid y Sector Cyhoeddus. Mae'r rhagolwg ariannol yn cynnwys rhagolwg cyllideb tair blynedd. Er gwaethaf yr heriau sy'n bodoli, gall cyfleoedd godi o'r heriau hyn drwy ystyried sut y gellir darparu gwasanaethau'n wahanol ac yn well a sicrhau mwy o werth am arian i'r trethdalwr.

CHAFFAEL

Gweledigaeth y Cyngor ar gyfer caffael, fel y datganir yn ei [Strategaeth Gaffael](#), yw sicrhau gwerth am arian drwy fynd ati'n effeithiol i gaffael y gofynion ar gyfer ei wasanaeth, a dangos gwelliant parhaus yn ei weithgarwch caffael.

Mae'r Cyngor yn gwario dros £60m yn flynyddol drwy drydydd parti i ddarparu amrywiaeth eang o wasanaethau cyhoeddus. Trwy broses gaffael strategol ofalus, caiff y gwariant hwn ei dargedu ar gynorthwyo i wireddu gweledigaeth gyffredinol y Cyngor a'i Amcanion Llesiant Corfforaethol. Mae Strategaeth Gaffael y Cyngor am sicrhau'r canlynol:

- Gwerth am arian drwy seilio penderfyniadau caffael ar gyfuniad priodol o ansawdd a phris.
- Caffael gwasanaethau cyhoeddus sy'n rhoi ystyriaeth i anghenion defnyddwyr gwasanaethau, ac yn eu dewis iait, drwy ymgynghori, ac ymgorffori Mesur y Gymraeg
- Amgylchedd iach trwy gaffael atebion cynaliadwy a thrwy gymhwyso cyflenwyr o flaen llaw yn ôl eu hanes a'u gwerthoedd cynaliadwyedd.
- Y cyfraniad mwyaf posibl tuag at ddatblygu cynaliadwy drwy sicrhau bod Egyddorion Datblygu Cynaliadwy Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn rhan annatod o brosesau Caffael.

Caiff y Strategaeth Gaffael ei hadolygu a'i diweddarau ar hyn o bryd, a chaiff ei disodli gan Strategaeth Gaffael a Chomisiynu ar y Cyd newydd. Bydd y Strategaeth newydd yn datblygu dull cryfach y Cyngor o ran caffael, a welwyd dros y blynyddoedd diwethaf, a bydd yn cyd-fynd er mwyn cynorthwyo darpariaeth Amcanion Llesiant Corfforaethol y Cyngor yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

LLYWODRAETHU

Wrth weithredu ei gyfrifoldeb cyffredinol, mae'r Awdurdod yn gyfrifol am sefydlu trefniadau priodol ar gyfer llywodraethu ac am sicrhau y gweithredir ei swyddogaethau'n effeithiol, a hynny'n cynnwys trefniadau ar gyfer rheoli risgiau.

Golyga hyn sicrhau bod ei fusnes yn cael ei gyflawni yn unol â'r gyfraith a'r safonau priodol, a bod arian y cyhoedd yn cael ei ddiogelu, ei gyfrifo'n gywir, a'i ddefnyddio'n ddarbodus, yn effeithlon ac yn effeithiol. Mae ei drefniadau llywodraethu i gefnogi cyflawni ei Amcanion Llesiant Corfforaethol a'i ymrwymiad parhaus i wella lles cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol y Sir.

Mae gan y Cyngor [Fframwaith Llywodraethu](#) sy'n dangos y trefniadau sydd ar waith i sicrhau bod y canlyniadau a fwriadwyd ar gyfer yr holl randdeiliad yn cael eu diffinio a'u cyflawni, gan sicrhau bod y Cyngor bob amser yn gweithredu er budd y cyhoedd.

Mae'n gosod allan y ffordd mae'r Cyngor yn cwrdd â'r ymrwymiad er mwyn cyflawni gweledigaeth y Cyngor a'i Amcanion Llesiant Corfforaethol, dod a'r holl drefniadau llywodraethu at ei gilydd a darparu sicrwydd bod trefniadau llywodraethu clir yn ei le.

Cyflwynwyd y [Datganiad Llywodraethu Blynyddol](#) diweddaraf ar gyfer 2024/25 i'r

Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ym mis Mawrth 2025 ac roedd yn cadarnhau bod trefniadau llywodraethu y Cyngor yn effeithiol ac yn addas i'r diben.

Roedd yr adolygiad o Ddatganiad Llywodraethu Blynyddol 2024/25 yn cynnig:

- Sicrwydd sylweddol bod cadernid a system graffu gadarn yn ei lle a bod y systemau a'r gweithdrefnau wrth baratoi a sgorio'r Fframwaith Llywodraethu yn foddhaol.
- Asesir bod gan y Cyngor fframwaith llywodraethu, rheolaeth risg a threfniadau rheoli mewnol boddhaol yn eu lle i reoli cyflawniad amcanion y sefydliad yn ystod y flwyddyn.
- Mae'r Cyngor wedi sicrhau cynnydd da yn ystod y flwyddyn gyda chyflawniad cofnodedig yn erbyn y saith egwyddor craidd.

Mae'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn asesiad o drefniadau llywodraethu y Cyngor ac fe'i ddefnyddir fel offeryn ar gyfer gwelliant corfforaethol, er mwyn gwerthuso cryfderau a gwendidau yn y fframwaith llywodraethu ac fel rhan o gynllun gweithredu blynyddol.

RHEOLI ASED AU

Diben [Polisi Datblygu Asedau](#) r Cyngor yw nodi dull Cyngor Sir Ceredigion o wneud y gorau o'i asedau drwy brydlesu, gwaredu a chaffael er mwyn cyflawni ei flaenoriaethau a'i amcanion. Mae amcanion allweddol y Polisi fel a ganlyn:

- Nodi'r prif gamau wrth fynd ati i adolygu Datblygu Asedau. Gweler y Siart Lliff am y broses Datblygu Asedau (atodiad C).
- Gosod cyd-destun strategol ar gyfer rheoli tir ac adeiladau sy'n wag neu sy'n cael eu tanddefnyddio.
- Sicrhau bod gan Gyngor Sir Ceredigion y portfolio asedau mwyaf effeithiol ac addas i

gyd-fynd â'i amcanion.

- Cael y refeniw mwyaf posibl o'r asedau sydd dan berchnogaeth y Cyngor.
- Nodi'r asedau nad oes bellach eu hangen at eu defnydd gwreiddiol, a chael yr incwm mwyaf posibl drwy eu datblygu ac/neu eu gwaredu.
- Ychwanegu at y portfolio asedau lle bo'n briodol er mwyn cyflawni'r amcanion corfforaethol.

Defnyddia'r Cyngor ystod o wahanol gamau gweithredu i gyflawni'r amcanion hyn, gan gynnwys cael gwared ar dir ac adeiladau sy'n wag neu nad oes eu hangen mwyach, buddsoddi mewn tir ac adeiladau i gynyddu incwm trwy gytundebau pryddles, a buddsoddi i ddatblygu tir ac adeiladau ar gyfer defnyddiau masnachol neu ddefnyddiau eraill yn unol ag Amcanion Llesiant Corfforaethol y Cyngor.

Mae'r Polisi yn cael ei adolygu ar hyn o bryd a chaiff ei ddisodli gan Gynllun Rheoli Asedau Strategol cyffredinol newydd, y bydd ganddo dull strategol ehangach, a chan gynnwys y Strategaeth Gweithio Hybrid newydd sy'n gyrru newid yn ein dull gweithredu, y pwysau cyllidebol i resymoli ystad y Cyngor, a'r rhaglenni gwella mawr a gyflawnir megis y rhai ar gyfer gwella ysgolion a buddsoddi mewn cartrefi gofal.

ADNODDAU DYNOL

Sail llwyddiant Strategaeth Gorfforaethol y Cyngor yw gweithlu sy'n perfformio'n dda, ac sy'n gweithio mewn ffordd sy'n arloesol, yn ddigidol aeddfed ac yn gynaliadwy. Er mwyn cyflawni hyn, mae gennym [Gynllun Gweithlu](#), sy'n amlinellu dull y Cyngor o reoli ei weithlu i ddiwallu ei anghenion darparu gwasanaethau nawr ac yn y dyfodol. Mae'n cynnwys dadansoddi gofynion gweithlu'r sefydliad, nodi unrhyw fylchau, a chanolbwyntio ar y cynlluniau datblygu i fynd i'r afael â hwy.

Mae'r Cynllun Gweithlu yn rhoi sylw i faterion

allweddol gan gynnwys recriwtio, cadw a chynllunio ar gyfer olyniaeth er mwyn sicrhau lefelau staffio sefydlog, gweithlu cynaliadwy a bod swyddi gwag yn cael eu llenwi gyda staff sy'n meddu ar gymwysterau priodol. Mae hefyd yn cynorthwyo darpariaeth ffyrdd newydd o weithio, megis gweithio hybrid, er mwyn sicrhau cynhyrchiant uwch, llai o deithio a chymbwysedd gwell rhwng bywyd a gwaith.

Yn ogystal, mae'r Cynllun yn cydnabod y cyflawniadau yn ystod cyfnod y cynllun blaenorol, y cyswllt gyda strategaethau corfforaethol eraill, a'n profiell fel gweithlu.

Y bedair flaenoriaeth thematig a gyflwynir yn y cynllun er mwyn ymateb i'r heriau a nodwyd yw:

1. Gwireddu Potensial
2. Profiad Ymgeiswyr a Denu Talent
3. Ffyrdd Newydd o Weithio
4. Ein Diwylliant

Caiff trosolwg o bob thema ei gynnwys, ynghyd â'r camau a fydd yn cael eu cymryd i gyflawni'r cynllun. Caiff set o fesurau arfaethedig eu cynnwys ar ddiwedd y ddogfen er mwyn caniatáu gwaith effeithiol i fonitro cynnydd yn ystod y cynllun tair blynedd.

LLESANT GYDOL OES

Mae cynnig cymorth i bob oed a phob angen yn her sylweddol i'r Cyngor gan fod adnoddau yn brin. Mae demograffeg a phroffil y gymdeithas wedi newid yn sylweddol dros y degawd diwethaf gyda chynnydd sylweddol mewn camddefnyddio sylweddau a'i effaith, cynnydd mewn iechyd meddwl gwael a cham-drin domestig ac yn nifer y grwpiau oedran hyn sy'n byw yng Ngheredigion. O ganlyniad, mae'r galw am rai gwasanaethau wedi cynyddu gan roi mwy o bwysau ariannol ar y meysydd gwasanaeth hynny.

Mae'r [Strategaeth Llesiant Gydol Oes](#) yn nodi'r weledigaeth a'r dull gweithredu a ddefnyddir i drawsnewid y ffordd y cefnogir llesiant a diogelwch pobl Ceredigion.

Er mwyn cyflawni ein gweledigaeth, rydym wedi datblygu model gweithredu Llesiant Gydol Oes sydd wedi'i gynllunio i sicrhau bod pobl yn cael cymorth o'r math a'r lefel gywir, ar yr adeg gywir, er mwyn atal, lleihau neu ohirio'r angen am gymorth parhaus, ac i wneud y mwyaf o annibyniaeth pobl a'u galluogi i aros yn eu cartref eu hunain ac yn eu cymuned eu hunain lle bynnag y bo modd.

YR ECONOMI

Cyhoeddwyd [Strategaeth Economaidd](#) Ceredigion ym mis Mawrth 2021. Mae'n nodi fframwaith ar gyfer gweithredu yn ystod y cyfnod o bymtheng mlynedd hyd at 2035, gan amlinellu sut y byddwn yn gweithio gyda'n gilydd i sicrhau twf economaidd cryf, cynaliadwy a mwy gwydn i Geredigion, wedi'i greu a'i rannu gan bawb.

Yn y strategaeth sonnir am y camau gweithredu a fydd yn mynd i'r afael â'r heriau a'r cyfleoedd yn yr economi leol, gan ganolbwyntio ar bedwar prif faes blaenoriaeth sef Pobl, Menter, Lle a Chysylltedd, gyda phob adran yn amlinellu rhai o'r ymyriadau cynnar a ystyriwyd.

Datblygwyd a gweithredwyd nifer o fentrau eisoes dan y cyfeiriad strategol a osodwyd gan y Strategaeth Economaidd. Llwyddwyd i sicrhau swm sylweddol o gyllid allanol gan amrediad o sefydliadau rhanddeiliaid allweddol, a fydd yn golygu y bydd modd ymgorffori'r camau er mwyn sicrhau twf economaidd pellach.

Ar hyn o bryd, mae'r ffocws yn parhau i fod ar gyflawni yn erbyn y camau gweithredu a nodir yn y Strategaeth. Cyflawnir nifer o raglenni strategol allweddol, a chaiff eu heffeithiau eu hasesu ar y cyd. Rhoddir ffocws penodol ar feysydd lle y gwelir heriau sylweddol o hyd, er enghraifft sut i wireddu'r potensial o sicrhau twf o ran nifer y mentrau canolog i fawr yng Ngheredigion. Bydd angen meithrin ein dealltwriaeth ar y cyd o ysgogwyr gweithgarwch mudo allan o'r sir hefyd, a sut i

ddenu buddsoddiad newydd sy'n cyflawni anghenion strategol ein heconomi.

Rhoddir diweddariadau am y cynnydd wrth gyflawni'r Strategaeth i [Bwyllgor Craffu Cymunedau Ffyniannus](#) y Cyngor o bryd i'w gilydd. Mae'r Strategaeth yn cynnig cyfle cyffrous i ddatblygu sylfeini cadarn Ceredigion a chynorthwyo economi ffyniannus uchelgeisiol ar gyfer y dyfodol.

TRECHU CALEDI & THLODI

Mae [Cynllun Llesiant Lleol Ceredigion 2023-28](#) yn cynnwys pedwar amcan llesiant ynghyd â thema drawsbynciol ar fynd i'r afael â chaledi a thlodi sy'n cysylltu â phob un o'r amcanion sy'n ymwneud â llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol.

Bydd Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion yn blaenoriaethu mynd i'r afael â chaledi a thlodi mewn ymateb i'r argyfwng costau byw, gan groesgyfeirio â chonglfeini llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol. Mae'r mecanwaith ar gyfer gweithredu'r thema trechu caledi a thlodi drwy Is-grŵp Tlodi y Bwrdd yn cynnwys rhwydwaith o sefydliadau partner sy'n craffu ar waith y Bwrdd i wella'r gwaith a wneir i fynd i'r afael â thlodi ar draws pob un o'r pedwar amcan.

GWEITHIO HYBRID

Yn dilyn yr [Adolygiad o'r Trefniadau Gweithio Hybrid](#) yn 2023 a mabwysiadu gweithio hybrid fel dewis parhaol ond dewisol i gyflogaion, cymeradwywyd [Polisi Gweithio Hyblyg](#) newydd y Cyngor ym mis Mehefin 2024.

Mae'r Polisi yn nodi manylion y cynllun gweithio hybrid sy'n ceisio helpu cyflogaion i wella eu cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith trwy leihau amser cymudo, gan leihau ôl troed carbon y Cyngor ar yr un pryd, ac ehangu ei gronfa dalent. Cydnabyddir bod yr arferion gweithio hyblyg a gynigir yn gallu cynorthwyo

iechyd a lles, lleihau trosiant, cynyddu cymhelliant a denu talent.

Roedd y Polisi Gweithio Hyblyg yn un o nifer o Bolisiau Adnoddau Dynol a ddiweddarwyd yn ystod 2024/25, ac mae'n sicrhau bod y Cyngor yn cydymffurfio â deddfwriaeth bresennol, gan fanteisio ar yr hyn y mae'r Cyngor wedi'i ddysgu dros y bedair blynedd ddiwethaf.

TAI

Cafodd [Strategaeth Dai 2023/28](#) sydd wedi'i diweddarau i'w cyhoeddi yn Hydref 2023, sy'n gosod allan gweledigaeth ac uchelgeisiau tai'r Cyngor ar gyfer y cyfnod pum mlynedd o 2023 i 2028.

Gweledigaeth y strategaeth newydd yw: *bydd digon o letyau addas a chynaliadwy i gwrdd ag anghenion preswylwyr nawr ac yn y dyfodol*. Rydym yn cydnabod y rôl bwysig mae tai yn chwarae ynghyd â'i ddylanwad ar iechyd a llesiant unigolion, teuluoedd a'r gymuned ehangach.

Mae'n ymateb i heriau allweddol, gan gynnwys darlun y dirwasgiad economaidd cenedlaethol, newidiadau deddfwriaethol, yr arferiad o pandemig COVID-19 a'r broblem ffosffadau sy'n effeithio ar ddatblygiad yn y Sir, sydd i gyd yn chwarae ei ran wrth effeithio tai Ceredigion.

Dwy brif flaenoriaeth y Strategaeth newydd yw:

- Cynyddu cyflenwad a gwella amodau tai.
- Cefnogi preswylwyr yn gartrefi a chymunedau ei hunan.

Er gwaethaf llwyddiannau blaenorol, mae diffyg tai addas a fforddiadwy o ansawdd da yn parhau. Mae hyn, ynghyd â'r angen i fynd i'r afael â digartrefedd, a chefnogi'r rhai mwyaf agored i niwed yn ein cymdeithas, yn golygu bod angen buddsoddiad a gwaith sylweddol i fynd i'r afael â'r sefyllfa hon. Bydd y Cyngor hefyd yn gweithio i sicrhau bod pobl leol yn cael eu cefnogi i barhau i fforddio byw yn eu cymunedau, gan gyfrannu at fywiogrwydd diwylliant a iaith Cymru.

TRAWSFFURFIAD DIGIDOL A CHYSYLLTU Â CHWSMERIAID

Strategaeth Digidol

Mae Cyngor Sir Ceredigion yn buddsoddi mewn technoleg newydd i drawsnewid y ffordd y mae gwasanaethau yn cael eu darparu i'n cwsmeriaid. Rydym yn gwneud hyn i fodloni'r galwadau cynyddol sydd ar y Cyngor ac i sicrhau bod y gwasanaethau yn gynaliadwy yn y dyfodol. Bydd hyn hefyd yn cynnig gwell profiad i'n cwsmeriaid.

Er mwyn cyflawni hyn, mae'r Cyngor wedi cyhoeddi ei [Strategaeth Ddigidol](#) newydd ar gyfer y cyfnod rhwng 2024 a 2030 yn ddiweddar. Nod cyffredinol y Strategaeth yw creu "Ceredigion sy'n Hyderus yn Ddigidol", gan ganolbwyntio ar ddarparu datblygiad digidol cynaliadwy dros y tymor hir ar draws yr holl wasanaethau a chynorthwyo'r strategaeth ddigidol genedlaethol.

Yng ngweledigaeth y Cyngor, gwelir Ceredigion fel sir sy'n hyderus i ddatblygu, arloesi a darparu gwasanaethau digidol mewn partneriaeth â'n cymunedau, sy'n gysylltiedig, yn ymgysylltu ac yn barod i gael budd ganddynt. Bydd ymwreiddio digidol ar draws yr holl wasanaethau a strategaethau yn sicrhau y gallwn ddarparu gwasanaethau arloesol ac effeithlon i bawb.

Wrth gynorthwyo preswylwyr a chymunedau, mae nodau'r Strategaeth yn cynnwys:

- Cynorthwyo'r gymuned i fod yn hyderus yn ddigidol, a'i bod yn gallu manteisio ar a chael budd gan wasanaethau digidol.

- Cynorthwyo darpariaeth gwelliannau cysylltedd digidol ar gyfer y sir gyfan.
- Darparu gwasanaethau TGCh cynaliadwy, cydnerth a diogel i'r cyngor a'i bartneriaid.
- Cynnig mynediad 24/7 i ddinasyddion i wasanaethau trwy Fy Nghyfrif a gwasanaethau ar-lein.

CLIC

Mae Canolfan Cyswllt Cwsmer Ceredigion 'CLIC', yn enghraifft da o sut yr ydym yn defnyddio technoleg Newydd i darparu a gwella profiad cwsmeriaid.

Tîm CLIC yw wyneb a llais Cyngor Sir Ceredigion. Os byddwch, er enghraifft, yn cysylltu â'r Ganolfan Gyswllt i ofyn cwestiwn am finiau, gwirio manylion eich Treth Cyngor neu gyflwyno cais i'r Tîm Tai, byddwch yn dod i gysylltiad â gwasanaeth CLIC.

Mae ein Canolfan Cyswllt Cwsmeriaid yn enghraifft o'r modd y gellid defnyddio technoleg newydd i wella profiad y cwsmer. Canolfan Gyswllt y Cyngor sy'n derbyn ac yn olrhain yr holl ymholiadau cychwynnol a wneir ac mae'n gwneud hynny drwy'r system Rheoli Perthynas â Chwsmeriaid (CRM). Mae hon yn ffordd ymarferol iawn o reoli'r nifer cynyddol o ymholiadau a ddaw i law ac mae'n darparu cyfle i gynnig gwasanaeth o ansawdd uwch sydd wedi'i deilwra gan wella profiad y cwsmer. O ran ein cwsmeriaid:

- Mae'n haws gwneud y cyswllt cychwynnol- dim ond un rhif ffôn ac un cyfeiriad e-bost.
- Mae ein hymgynghorwyr wedi'u hyfforddi i ddelio ag ystod eang o ymholiadau – felly pan fo modd, caiff ymholiadau eu datrys yn ystod y cyswllt cyntaf.
- Ni fydd angen ailadrodd yr un stori bob tro y bydd cwsmer yn ffonio - bydd y wybodaeth yn cael ei chadw ar y system Rheoli Perthynas â Chwsmeriaid (CRM) a bydd y Cyngor felly yn gallu cynnig ymateb cyflymach a mwy pwrpasol wrth ddatrys yr ymholiad.
- Darperir gwasanaethau yn Gymraeg neu yn Saesneg yn ôl eu dewis iaith.

Fy Nghyfrif

Rydym hefyd yn gyffrous i gyhoeddi lansiad o ddau wasanaeth newydd wedi dylunio i wella cyfathrebiad a rhyngweithiad gyda dinasyddion.

Diolch i'r cydweithrediad o dimau yn ein Gwasanaeth Cyswllt Cwsmer, TGCh & Digidol, mae 'Fy Nghyfrif' wedi'i lansio. Mae hyn yn golygu bod gan ddinasyddion mynediad at ffordd gyfleus a cyfeillgar i ryngweithio efo ni, pryd bynnag maent eisiau.

Mae 'Fy Nghyfrif' sydd yn hygyrch o ffon, tabled neu gyfrifiadur yn galluogi defnyddwyr i:

- Gwneud ymholiadau a dilyn ei

chynnydd

- Adrodd materion priffyrdd megis ceudyllau, coed gordo a goleuadau stryd
- Adrodd materion hawliau tramwy cyhoeddus, megis sticil sydd wedi torri neu arwyddion coll
- Gweld pryd mae casgliadau gwastraff i fod a hefyd lawr lwytho copi o'r calendr casglu gwastraff i 2024
- Gweld ei Cynghorydd lleol
- Arwyddo i fyny i'r cylchlythyr ac ymgynghoriadau

Rydym ni hefyd wedi datblygu Cylchlythyr newydd i rannu gyda thanysgrifwyr. Mae'r cylchlythyr yn hyrwyddo'r nifer o wasanaethau yr ydym yn darparu, ac yn rhannu straeon newyddion gyda dinasyddion. Mae modd tanysgrifio i'r cylchlythyr newydd wrth gofrestri ar 'Fy Nghyfrif'.

Mae darparu cyfleoedd i gyfathrebu gyda'r Cyngor yn ddigidol yn darparu mynediad cyfleus i wybodaeth, galluogi adborth a rhyngweithiad cyflym ac yn helpu hybu tryloywder ag atebolrwydd o fewn llywodraeth.

I chwilio allan mwy, mewngofnodwch i [gwefan Fy Nghyfrif](#) y Cyngor.

CYFLAWNIADAU

Yn ystod 2024/25
ymdriniodd ein canolfan
cyswllt cwsmeriaid
(CLIC) â

102,595

Galwad ffôn wedi derbyn yn
ystod y flwyddyn 2024/25

30,906

E-bost wedi ymateb i yn ystod y
flwyddyn 2024/25

106,507

Ysgol Dyffryn Aeron

Ymholiad wedi cofnodi yn
ystod y flwyddyn 2024/25


12%

O galwadau ffôn yn y Gymraeg yn
ystod 2024/25


6,055

Preswyl wedi arwyddo i fyny
i Fy Nghyfrif

Ymholiadau a gofnodwyd yn
ystod y flwyddyn



Cynnydd yn nifer yr
ymholiadau a gofnodwyd yn
ystod y flwyddyn



Llun: Agorodd Ysgol Dyffryn Aeron newydd gwerth £16.3 miliwn yn swyddogol ym mis Mawrth 2025, gan ddarparu cyfleusterau dysgu modern o'r radd flaenaf i 240 o ddisgyblion, ynghyd ag ystod o gyfleusterau modern fel cae astroturf 3G, ardal gemau aml-ddefnydd a chefnogaeth i ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol.

DYLETSWYDD PARTNERIAETH GYMDEITHASOL

Cefndir

Mae Deddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023 (“SPPP”) yn mynnu bod y Cyngor, fel corff cyhoeddus, yn paratoi adroddiad blynyddol i ddangos tystiolaeth o'r ffordd y mae wedi cydymffurfio â'r Ddyletswydd Partneriaeth Gymdeithasol.

Mae Deddf SPPP yn cynnig fframwaith i wella lles pobl Cymru trwy wella gwasanaethau cyhoeddus wrth weithio mewn partneriaeth, hyrwyddo gwaith teg a chaffael cyhoeddus cymdeithasol gyfrifol. Bwriedir iddi gyd-fynd â deddfwriaeth arall, gan gynnwys y Ddyletswydd Gymdeithasol-economaidd a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Mae Deddf SPPP 2023 yn mynnu bod y Cyngor, wrth wneud gwaith datblygu cynaliadwy, yn ceisio consensws neu gyfaddawd gyda'i undebau llafur cydnabyddedig, i'r graddau ag y bo hynny'n rhesymol, wrth osod ei amcanion llesiant (yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015) a gwneud penderfyniadau o natur strategol am y camau rhesymol y maent yn bwriadu eu cymryd i gyflawni'r amcanion hynny.

Adolygiad o Amcanion Llesiant Corfforaethol

Fel rhan o'n cylch adrodd perfformiad blynyddol, ac fel sy'n ofynnol dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, mae Cyngor Sir Ceredigion yn cynnal adolygiad rheolaidd o'i Amcanion Llesiant Corfforaethol. Caiff y broses hon ei chyfuno gyda'n gwaith Hunanasesu

blynyddol, a gyflwynwyd gan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.

Mae'r Amcanion Llesiant Corfforaethol yn galluogi darpariaeth gwasanaethau a fydd yn gwella lles cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol dinasyddion a chymunedau Ceredigion. Datblygwyd yr Amcanion, a'r camau i'w cyflawni, yn ystod 2022 i gyd-fynd â'r Strategaeth Gorfforaethol newydd. Fe'u nodwyd trwy gyfrwng amrywiaeth eang o dystiolaeth, gan gynnwys ymgysylltu â'r cyhoedd, Asesiad Llesiant Ceredigion ac uchelgais y weinyddiaeth wleidyddol.

Yn ystod yr hydref 2023, adolygwyd ein Hamcanion Llesiant Corfforaethol, pan gytunodd y Cyngor y byddent yn parhau i fod yn feysydd blaenoriaeth ar gyfer y Sir ac y byddent yn parhau yn ystod 2024/25.

Fel rhan o'r adolygiad hwn, cynhaliwyd cyfarfod gyda chynrychiolwyr undebau llafur i geisio adborth a chonsensws am gynnwys yr Hunanasesiad ac Adroddiad yr Adolygiad Blynyddol o'r Amcanion Llesiant a Pherfformiad. Ni chodwyd unrhyw faterion ynghylch parhad yr Amcanion yn ystod 2024/25.

Mae'r Adroddiad Hunanasesu yn amlinellu'r camau a gymerwyd gan y Cyngor i gyflawni ei Amcanion Llesiant Corfforaethol a chaiff ei gymeradwyo gan y Grŵp Arweiniol (sy'n cynnwys staff uwch) a'r Cabinet, ond hefyd, caiff ei adolygu'n helaeth gan y Pwyllgor Craffu a'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.

Gweithio mewn Partneriaeth

Mae gan Gyngor Sir Ceredigion berthynas waith ragorol gyda'i phartneriaid sy'n undebau llafur, sy'n ymwneud â gweithgarwch datblygu polisi, cynllunio strategaeth hirdymor a rheoli adnoddau. Isod, gweler enghreifftiau o'u cyswllt ar draws meysydd allweddol:

• Cysylltiadau Diwydiannol

Caiff ein hundebau llafur eu cynnwys yn y broses o ddatblygu polisïau gweithlu yn gynnar, ac ymgysylltir â nhw ar adegau lluosog yn ystod y prosesau cymeradwyo er mwyn sicrhau eu bod yn gallu gwneud cyfraniadau arwyddocaol ac ystyrlon i siapiau ein polisïau.

Cynhelir cyfarfodydd bob pythefnos gyda'r swyddog undeb llawn amser, cynhelir cyfarfodydd bob deufis o'r Fforwm Undebau Llafur Corfforaethol ar y Cyd a chynhelir Fforwm Corfforaethol ar gyfer Gweithwyr o leiaf ddwywaith y flwyddyn gyda Aelodau Etholedig ac Uwch Swyddogion yn bresennol. Mae'r cyfarfodydd yn rhoi cyfleoedd i drafod a mynd i'r afael â materion neu anghydfodau mewn ffordd sy'n cefnogi staff wrth gynnal darpariaeth gwasanaeth. Mae ein hundebau llafur hefyd yn eistedd ar y paneli dilysu ac apelio ar gyfer gwerthuso swyddi, gyda hawliau pleidleisio cyfartal, i gefnogi graddio cyflog teg a chyson. Gweithlu yn Rheoli Newid

Mae ein hundebau llafur yn ymwneud â phob proses rheoli newid, o weithgarwch ymgynghori cynnar am

achosion busnes rheoli newid arfaethedig, i gwblhau'r broses. Mae enghreifftiau o hyn dros y flwyddyn ddiwethaf wedi cynnwys ailstrwythuro ein Gwasanaeth Cyllid a Chaffael a dod â staff dau gartref preswyl at ei gilydd mewn un lleoliad. Rydym yn parhau i weithio gyda phartneriaid mewn undebau llafur i ysgolion er mwyn gwella amseroldeb prosesau rheoli newid ac ymgynghori yn y maes hwn.

Rydym yn ystyried bod ein Hundebau Llafur yn bartneriaid allweddol yn ein hymdrechion i nodi a rhoi sylw i feysydd pryder o fewn gwahanol garfannau ein gweithlu, ac maent wedi cyflawni rolau hollbwysig wrth gynorthwyo ein hymdrechion. Un enghraifft yw'r gwaith a wneir ar y cyd i roi sylw i bryderon amrywiol ar ôl trosglwyddo perchnogaeth cartref gofal preswyl mawr i berchnogaeth y cyngor.

• Rheoli Cyllideb

Mae ein hundebau llafur yn derbyn sesiwn frifio fanwl gan y Swyddog Arweiniol Corfforaethol - Cyllid a Chaffael ar oblygiadau'r setliad cyllideb blynyddol bob blwyddyn o ran dyraniadau gwasanaethau a chyfraddau treth y cyngor arfaethedig.

• Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant

Rydym yn cydweithio'n agos gyda'n partneriaid mewn undebau llafur i gyflwyno polisïau ar gyfer y gweithle er mwyn sicrhau bod y rhain yn hyrwyddo amrywiaeth yn y gweithle, gan fynd i'r afael â gwahaniaethu a/neu aflonyddu, a chynorthwyo gwasanaethau effeithiol ar gyfer preswylwyr Ceredigion.

BLE WNAETHOM NI BLAENORIAETHU EIN CYLLIDEB YN 2024/25

Mae gan Geredigion hanes o osod a chyflawni cyllideb gytbwys yn ogystal â chael bil iechyd glân gan Archwilio Cymru yn ystod archwiliadau ac adolygiadau.

Ar ddiwedd 2024/25 roedd y Cyngor mewn sefyllfa ariannol wydn gyda mantolen gref a nifer o flaenoriaethau allweddol eisoes wedi'u cyflawni yn ystod y flwyddyn megis agor Ysgol Dyffryn Aeron ac agor Canolfan Byw'n Annibynnol Penmorfa .

Fodd bynnag, mae pob awdurdod lleol ar draws Cymru yn wynebu heriau ariannol


sylweddol a ddaw yn sgil yr argyfwng costau byw ac yn fwy diweddar dychwelyd i galedi, sydd ynghyd â galw cynyddol am wasanaethau fel gofal cymdeithasol, yn gosod cryn dipyn. straen ar Gynghorau ledled y wlad.

Hefyd, cawsom gyllid is na'r disgwyl gan Lywodraeth Cymru ac mae gennym y cynnydd lleiaf ar draws Cymru fesul pen o'r boblogaeth, sy'n golygu y bydd angen i'r Cyngor addasu, rheoli gostyngiadau yn

y gyllideb a dod o hyd i ffyrdd newydd o ddarparu gwasanaethau er mwyn cynnal gwasanaethau'r Cyngor yn eu ffurf bresennol.

Roedd cyllideb net Ceredigion ar gyfer 2024/25 yn £193.6 miliwn, gyda 70% yn cael i'w ariannu gan Lywodraeth Cymru a 30% gan dalwyr Treth Cyngor. Mae'r siart isod yn nodi gwariant y Cyngor ar wasanaethau yn 2024/25.

Er mwyn mynd i'r afael â'r diffyg yng nghyllid y Cyngor mae rhaglen o weithgareddau ar waith gan gynnwys gwneud y defnydd mwyaf posibl o adeiladau, trawsnewid ac arloesi o fewn gwasanaethau, buddsoddi yn y gwaith o gyflawni'r Strategaeth Ddigidol newydd a cheisio effeithlonrwydd gweithredol lle bo modd. Ceir rhagor o wybodaeth am sefyllfa cyllideb y Cyngor a'r heriau ariannol yn y [Strategaeth Ariannol Tymor Canolig](#).



Ysgolion & Dysgu Gydol Oes*	30%	(£58.07m)
Porth Cynnal	20%	(£38.72m)
Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol	11%	(£21.42m)
Cyllid a Chaffael	10%	(£20.03m)
Porth Gofal	9%	(£17.54m)
Cyswllt Cwsmer a TGCh	3%	(£6.67m)
Ardollau, Premiwm Treth y Cyngor a Chronfeydd Wrth	3%	(£6.08m)
Grŵp Arweiniol	3%	(£5.45m)
Gwasanaethau Democrataidd	3%	(£5.19m)
Porth Cymorth Cynnar	2%	(£4.07m)
Economi ac Adfywio	2%	(£3.72m)
Polisi, Perfformiad & Diogelu'r Cyhoedd	1%	(£2.52m)
Pobl a Threfnidiaeth	1%	(£2.41m)
Cyfreithiol a Llywodraethu	1%	(£1.69m)

* Gan gynnwys cyllidebau

EIN PERFFORMIAD 2024/25

Sut yr ydym yn Asesu ac yn Meincnodi ein Perfformiad

Mae'r Cyngor yn monitro ac yn meincnodi ei pherfformiad yn rheolaidd fel rhan o'i threfniadau rheoli perfformiad cyfredol. Mae meincnodi perfformiad yn cyfrannu at ein heffethiolrwydd ac effeithlonrwydd wrth alluogi ni i adnabod arferion gorau a chyfleoedd i wella.

Yn **fewnol** rydym yn monitro cyflawni ein cynlluniau busnes ar gyfer y deuddeg gwasanaeth, a cyflawni ein Amcanion Llesiant Corfforaethol.

Yn **allanol**, rydym yn defnyddio nifer o ffynonellau ar gyfer meincnodi rheolaidd. Mae rhain yn Ddangosyddion i Arian Allweddol, Dangosyddion Allweddol y Cyngor a Phroffil Perfformiad a gynhyrchwyd yn annibynnol ar gyfer Awdurdodau Lleol.

Mae'r Cyngor hefyd yn un o nifer o fyrdau

cyhoeddus yng Ngheredigion sydd yn cyfrannu at wella llesiant yn ein cymunedau. Er mwyn mesur ein cyfraniad tuag at y **canlyniadau mwy eang**, rydym yn adolygu ein cyfraniad tuag at y Mynegai Llefydd Llewyrchus Cymru a'r Dangosyddion Llesiant Cenedlaethol. Mae'r tudalennau dilynol yn darparu crynodeb o'r canlyniadau diweddaraf o bob un ffynhonnell a'r dolennau er mwyn chwilio allan mwy.

Perfformiad Cynllun Busnes

Mae ein perfformiad cynllun busnes yn cael ei monitro trwy'r Bwrdd Perfformiad, ac ar sail gyfredol, gan y Grŵp Arweiniol. Ar ddiwedd 2024/25 mae ein perfformiad yn dangos bod 62% o'n mesurau ar darged a 80% o'n hamcanion naill ai'n gyflawn neu'n unol â'r amserlen (gweler y siartiau isod). Mae'r mesurau a'r amcanion oddi ar y targed yn cael eu craffu'n fanylach gan y Grŵp Arweiniol a'r pwyllgor craffu perthnasol.

Cyflawni ein Amcanion Llesiant Corfforaethol

Rydym hefyd yn monitro cyflawni ein Hamcanion Llesiant Corfforaethol yn barhaus. Mae pob un amcan wedi'i chefnogi gan gyfres o nodau neu "tasgau" ar draws gwasanaethau'r Cyngor sydd yn cyfrannu at gyflawni'r amcan a gwella canlyniadau.

Mae'r canlyniadau o 2024/25 yn dangos bod:

- 62% (neu 130) tasg wedi'i chwblhau sydd wedi cefnogi cyflawni'r nodau, gyda 15% neu 32 nod ymhellach ar y gweill ond ar y trywydd ar ddiwedd y flwyddyn.
- Mae hyn yn cynrychioli 77% o'r tasgau sydd nai llai wedi cwblhau neu ar y trywydd, sydd yn uwch na'r 73% o'r flwyddyn

flaenorol.

- Roedd hefyd 46 tasg ar y gweill ond ychydig tu ôl yr amserlen ar ddiwedd y flwyddyn. Bydd rhain yn trosglwyddo i'r flwyddyn newydd.
- Roedd 3 tasg bellach heb gychwyn oherwydd rhai heriau megis newid i flaenoriaethau, deddfwriaethau neu tynnu cyllid yn ôl. Bydd yr achosion yma yn cael i'w adolygu a bydd tasg arall yn cael i'w setio neu i'w diddymu.

Mae'r cynnydd cyffredinol wedi bod yn dda gyda'r rhan fwyaf o'r tasgau wedi'u cyflawni.

CYNNYDD AMCANION LLESIANT CORFFORAETHOL YN YSTOD 2024/25

Wedi Cwblhau (130 tasg)	62%	Ar amser (32 tasg)	15%	Ar ei hôl hi (46 tasg)	23%	Heb cychwyn (3 tasg)	1%
----------------------------	-----	-----------------------	-----	---------------------------	-----	-------------------------	----

CYNNYDD YN ÔL AMCAN 2024/25

Hybu'r Economi, Cefnogi Busnesau a Galluogi Cyflogaeth




Creu Cymunedau Gofgalgar ac Iach




Darparu'r Dechrau Gorau Mewn Bywyd a Galluogi Bobl o Bob Oed i Ddysgu



Creu Cymunedau Cynaliadwy sy'n Fwy Gwyrdd ac sydd wedi'u Cysylltu'n Dda â'i Gilydd



- Ar targed: 101 (62%)
- Oddi ar y targed gan llai na 15%: 24 (15%)
- Oddi ar y targed gan mwy na 15%: 38 (23%)



- Ar amser / wedi cwblhau: 195 (80%)
- Ar y gweill ond ar ei ôl hi: 46 (19%)
- Heb cychwyn / heb cwblhau: 1 (1%)

Sut mae hyn yn cymharu â Blynnyddoedd Blaenorol

Ers y gosodwyd ein Fframwaith Rheoli Perfformiad newydd, mae'r systemau monitro yr ydym yn eu defnyddio i olrhain perfformiad wedi gwella'n sylweddol a gallwn fonitro darpariaeth ein Strategaeth Gorfforaethol mewn ffordd fwy effeithiol.

Mae'r tueddiadau dros y dair blynedd ddiwethaf yn dangos bod cyflawni ein Hamcanion Llesiant Corfforaethol yn parhau i wella, gan godi o 73% y llynedd i 77% yn 2024/25, ac roedd darpariaeth holl dasgau'r cynllun busnes (gan gynnwys swyddogaethau cefn swyddfa) wedi codi o 72% y llynedd i 80% yn 2024/25. Llwyddwyd i gyflawni hyn er gwaethaf yr


heriau parhaus, yn enwedig y pwysau ar gyllidebau, ar draws y sector llywodraeth leol yng Nghymru.

Mae'r gwelliant o ran cyflawni yn gyfuniad o weithgarwch gosod tasgau ar gyfer y Cynllun Busnes sydd â mwy o ffocws, gweithgarwch craffu gwell trwy'r Bwrdd Perfformiad, y broses Cynllunio Busnes sydd wedi cael ei hymwreiddio yn fwy, a fframwaith rheoli perfformiad mwy cadarn yn gyffredinol.

Yr eithriad yw cyflawni targedau Mesur Perfformiad y Cynllun Busnes, a oedd wedi gostwng i 62% yn cyflawni'r targed, o'i gymharu â 72% yn ystod y flwyddyn flaenorol. Rhai o'r rhesymau yw gosod targedau mwy uchelgeisiol wrth i ni barhau i godi safonau, ac effaith materion sy'n

ymwneud â'r gyllideb/adnoddau. Caiff y mesurau perfformio nad ydynt yn cyflawni'r targed eu craffu gan y Bwrdd Perfformio, a byddant yn cael eu galw i mewn i'r pwyllgor craffu perthnasol yn ystod 2025/26 yn ôl yr angen.


Tasgau Cynllun Busnes ar y Targed



Cyflawni Tasgau Amcanion Llesiant Corfforaethol



Mesurau'r Cynllun Busnes ar y Targed



GWERTH AM ARIAN

Mesuriadau Perfformiad Allweddol

Mae'r Cyngor yn defnyddio amrywiaeth o ddangosyddion perfformio i fonitro pa mor dda mae ein gwasanaethau yn perfformio wrth gyrraedd anghenion defnyddwyr gwasanaeth ac er mwyn mesur effeithlonrwydd a gwerth am arian.

Maent yn mesur perfformiad ar draws ystod eang o wasanaethau'r Cyngor gan gynnwys: rheolaeth ariannol, addysg, tai,

gwasanaethau hamdden, rheolaeth gwastraff a glanhau strydoedd.

Gwerth am Arian

Gall Gwerth am Arian cael i'w diffinio fel y perthynas rhwng yr Economi, Effeithlonrwydd ac Effeithlonrwydd. Mae'n term sy'n cael i'w defnyddio i asesu os bod y Cyngor wedi cael y budd mwyaf o'r nwyddau a'r gwasanaethau y mae'n eu caffael ac yn eu darparu o fewn cyfyngiadau'r adnoddau cyfyngedig sy'n wynebu'r Cyngor.


Er enghraifft, dau fesur allweddol o effeithlonrwydd yw casglu Treth y Cyngor a threthi annomestig (busnes). Er bod casglu trethi annomestig yn parhau i fod uwchlaw'r cyfartaledd ar 96.9%, mae casglu Treth y Cyngor ychydig yn is na'r cyfartaledd ar 95.5%.

Mae'r Dreth Gyngor Band 'D' gyfartalog, a ddefnyddir yn aml fel cymharydd rhwng gwahanol Siroedd, yn dangos bod cyfraddau presennol ychydig yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol ledled Cymru sef £2,296 tra bod ein harbedion cronnol a wnaed dros y deng mlynedd diwethaf yn gwneud cyfanswm o £68m drwy ailstrwythuro, prosiectau ailgynllunio a thrawsnewid gwasanaethau, gyda £8m wedi'i cyflawni yn ystod 2024/25.


Roedd gwariant alldro refeniw y pen yn £3,185 am y flwyddyn lawn ddiwethaf a gwariant a gyllidebwyd ar gyfer y flwyddyn gyfredol 2025/26 yn £3,372. Gwariant alldro refeniw yw'r costau gweithredu o ddydd i ddydd sy'n hanfodol i redeg y sefydliad.

Roedd y dasg o osod cyllideb gytbwys yn 2024/25 yn heriol dros ben ond yn gyflawniad sylweddol i dderbyn cytundeb unfrydol.


Cyfraddau casglu'r dreth gyngor




Treth gyngor band D gyfartalog




Cyfraddau casglu ardrethu annomestig




Gwariant alldro refeniw



ARBEDION EFFEITHLONRWYDD A WNAED



ARBEDION EFFEITHLONRWYDD CRONNOL A GYFLAWNWYD GAN GYNGOR SIR CEREDIGION ERS MIS EBRILL 2012



MYNEGAI AMDDIFADEDD LLUOSOG

Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru


Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALIC) yw mesur swyddogol Llywodraeth Cymru o amddifadedd cymharol ar gyfer ardaloedd bach yng Nghymru. Mae'n nodi ardaloedd sydd â'r crynodiadau uchaf o sawl math gwahanol o amddifadedd, sef:

- Incwm
- Tai
- Cyflogaeth
- Mynediad at wasanaethau
- Addysg lechyd
- Diogelwch cymunedol
- Amgylchedd ffisegol

Mae'r Cyngor, gan weithio gyda phartneriaid ar Grŵp Tlodi Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion, yn defnyddio canlyniadau'r Mynegai i helpu i fynd i'r afael â thlodi ac amddifadedd ledled y Sir drwy nodi ble mae pcedi o amddifadedd yn bodoli.

AMDDIFADEDD YN NGHEREDIGION

% o ardaloedd Ceredigion yn y 10% mwyaf difreintiedig yn genedlaethol ar gyfer pob un o wyth parth Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru



Gwyddom o'r canlyniadau fod gan Geredigion ddwy ardal sydd ymhlith yr 20% o ardaloedd mwyaf difreintiedig yn genedlaethol, gweler y siart isod.

Ar ben hynny, mae union hanner (50%) o'r holl ardaloedd yn y sir yn dod o fewn y 10% mwyaf difreintiedig yn genedlaethol o ran Mynediad at Wasanaethau, sy'n adlewyrchu poblogaeth wasgaredig ac amseroedd teithio hirach i wasanaethau hanfodol. Yn y cyfamser, mae 28% o'r holl ardaloedd o fewn y 10% mwyaf difreintiedig o ran Tai, sy'n adlewyrchu stoc tai hŷn, diffyg effeithlonrwydd ynni ac mewn rhai achosion gorlenwi.

Mae Llywodraeth Cymru wrthi'n diweddarau'r Mynegai Amddifadedd Lluosog ac rydym yn rhagweld y bydd y canlyniadau ar gael ddiwedd 2025 neu ddechrau 2026. I gael gwybod mwy am y ffynhonnell ddata allweddol hon ac archwilio eich ardal eich hun, beth am ymweld ag adnoddau Llywodraeth Cymru ar [Fynegai Amddifadedd Lluosog Cymru](#).

CYFRANNU AT LESIANT

Dangosyddion Llesiant Cenedlaethol Cymru

Mae'r 50 [Dangosydd Llesiant Cenedlaethol](#) wedi'i dylunio i gynrychioli'r canlyniadau i Gymru a'i phobl a fydd yn helpu arddangos cynnydd tuag at y 7 Nod Llesiant Cenedlaethol.

Nid ydynt yn ddangosyddion perfformiad penodol i'r Cyngor, maent yn ganlyniadau ledled y sir, mae'r Cyngor, ynghyd a chyrrff cyhoeddus arall yn cyfrannu at.

Fodd bynnag, rydym yn adolygu cyfraniad Ceredigion tuag at y nodweddion yma yn gyfnodol. Cafodd yr ymarfer diweddar o'r math yma i'w gynnal yn Fehefin 2024. Mae data ar gael ar lefel yr awdurdod lleol ar gyfer 39 o'r dangosyddion yma. Mae'r canlyniadau yn dangos bod:


- Ceredigion yn perfformio yn well na'r cyfartaledd yn 25 (neu 64%) o'r dangosyddion yma.
- Ceredigion yn perfformio'r un peth a'r cyfartaledd ar 2 (neu 5%) o'r mesuriadau.
- Mae Ceredigion yn perfformio'n is na'r cyfartaledd mewn 12 (neu 31%) o'r mesurau.

Mae hyn yn awgrymu bod Ceredigion yn gwneud cyfraniad positif tuag at y nodau lesiant cenedlaethol.

Mae'r [Adroddiad Llesiant Cymru](#) flynyddol yn darparu diweddariad ar y cynnydd a waned yng Nghymru tuag at gyflawni'r 7 Nod Llesiant Cenedlaethol ac mae'n tynnu sylw at ganlyniadau'r dangosyddion cenedlaethol diweddaraf.

Mae'r siart uchod ar y dde yn crynhoi cyfraniad Ceredigion tuag at y Dangosyddion Llesiant Cenedlaethol.

CYFRANIAD CEREDIGION AT Y DANGOSYDDION LLESIANT CENEDLAETHOL



Cynlluniau i'r Dyfodol

Mae'r Cyngor yn gweithio'n rhagweithiol gyda Data Cymru a phob un o'r 21 o gynghorau eraill ledled y wlad i gefnogi datblygiad yr Offeryn Data Hunanasesu newydd. Mae'r Offeryn, a ddatblygwyd gan Data Cymru, yn darparu mynediad i ystod eang o ddata perfformiad ar draws gwasanaethau llywodraeth leol.

Bydd gwaith pellach yn digwydd yn ystod 2025 a 2026 i gryfhau'r mesurau a llenwi bylchau mewn data megis asesu gwerth am arian, rheoli asedau ac ymgynghori.


Dilynwyd y dolenni yn yr adran yma i chwilio allan mwy am y ffyrdd gwahanol o feincnodi perfformiad Cyngor Sir Ceredigion yn benodol a'r sir ehangach o Geredigion.

Mae'r tudalennau dilynol yn darparu detholiad o mesuriadau perfformiad allweddol y Sir a'r Gymuned ehangach. ►

MESURIADAU PERFFORMIAD ALLWEDDOL


Dysgu Cymunedol

Nifer y dysgwyr mewn dysgu cymunedol awdurdodau lleol fesul 1,000 o'r boblogaeth gan gynnwys dysgu a ddarperir mewn cydweithrediad â sefydliadau Addysg Bellach (2022/23)
..... Cymru i gyd (5.25)




Ysgolion Cyfrwng Cymraeg

Canran yr ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg (2023/24)
..... Cymru i gyd (29.3%)




Cwynion a Dderbyniwyd gan yr Awdurdod Lleol

Nifer y cwynion a dderbyniwyd fesul 1,000 o drigolion (2023/24)
..... Cymru i gyd (0.35)




Mewn Addysg, Hyfforddiant neu Gyflogaeth

Pobl ifanc Blwyddyn 13 sy'n gadael ysgol mewn addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth (2024)
..... Cymru i gyd (92.9%)




Iaith Gymraeg

% y disgyblion a addysgodd y Gymraeg fel iaith gyntaf (2023/24)
..... Cymru i gyd (21.7%)




Treth y Cyngor

Cyfradd Treth y Cyngor Band D gyfartalog (2025/26)
..... Cymru i gyd (£2,170)




Ddim mewn Addysg, Cyflogaeth na Hyfforddiant

Gadawyr ysgol Blwyddyn 13 y gwyddys nad ydynt mewn Addysg, Hyfforddiant na Chyflogaeth (2024)
..... Cymru i gyd (3.2%)




Cwnsela Ysgol

Nifer y plant a phobl ifanc a gafodd gwnsela yng Nghymru fesul 1,000 o'r boblogaeth 10-18 oed (2023/24)
..... Cymru i gyd (41.9)



Casglu Treth y Cyngor


Canran Treth y Cyngor a gasglwyd (2024/25)
..... Cymru i gyd (95.6%)



Trethi Annomestig

Cyfraddau casglu ardrethru annomestig (2024/25)


..... Cymru i gyd (96.1%)



Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl

Nifer yr anheddau a gafodd eu gwella fesul 10,000 o anheddau (2023/24)


..... Cymru i gyd (48)



Casglu Gwastraff

Y cilogramau o wastraff cartrefi a gynhyrchwyd fesul unigolyn (2023/24)


..... Cymru i gyd (168)



Atal Digartrefedd

% o deuluoedd sydd wedi'u hatal rhag bod yn ddigartref anghyfreithlon (2023/24)

..... Cymru i gyd (58.0%)



Cynllunio

Ceisiadau Cynllunio wedi eu Penderfynu o fewn Amserlenni Statudol ac a Gytunwyd (Ionawr i Mawrth 2025)


..... Cymru i gyd (90.0%)



Ailgylchu

Canran o wastraff a gafodd ei aildddefnyddio, ei ailgylchu neu ei gompostio (2023/24)


..... Cymru i gyd (66.6%)



Rhyddhad Digartrefedd

% yr aelwydydd a gafodd ryddhad llwyddiannus o ddigartrefedd (2023/24)

..... Cymru i gyd (26.6%)



Cynllunio

Amser ar gyfartaledd mewn dyddiau i benderfynu ar geisiadau cynllunio (Ionawr i Mawrth 2025)


..... Cymru i gyd (110)



Tipio Anghyfreithlon

Nifer yr achosion o dipio anghyfreithlon a gofnodwyd fesul 1,000 o'r boblogaeth (2023/24)


..... Cymru i gyd (13.3)



MESURIADAU Y GYMUNED EHANGACH


Gwerth Ychwanegol Crynswth

Gwerth ychwanegol crynswth y pen (cytbwys) (2023)




Gwerth Ychwanegol Crynswth

Newid mewn Gwerth Ychwanegol Crynswth (cytbwys) 2022 i 2023




Cyfradd Gweithgaredd Economaidd

Cyfradd gweithgarwch economaidd (Ionawr 2024 i Rhagfyr 2024)




Cyfradd Cyflogaeth

Cyfradd cyflogaeth Ionawr 2024 i Rhagfyr 2024




Diweithdra

Cyfradd ddiweithdra Ionawr 2024 i Rhagfyr 2024




Cyfradd Geni Busnes

Cyfradd geni net mentrau fesul ardal awdurdod lleol (Demograffeg Busnes 2023, ONS)




Goroesi Busnes

Canran goroesi 2 flwyddyn o fentrau newydd yn 2021 (Demograffeg Busnes 2024, ONS)




Goroesi Busnes

Canran goroesi 5 flwyddyn o fentrau newydd yn 2018 (Demograffeg Busnes 2024, ONS)



Enillion


Tâl wythnosol gros i bob gweithiwr amser llawn yn ôl man preswyllo (£)



Gwirfoddoli

% y bobl sy'n gwirfoddoli'n ffurfiol ac yn anffurfiol (2022/23)


..... Cymru i gyd (30%)



Sgiliau a Chymwysterau

Canran yr oedolion o oedran gweithio sydd wedi cymhwyso i Lefel 4 neu uwch (Y flwyddyn yn diweddu Rhagfyr 2024)


..... Cymru i gyd (46.4%)



Nifer yr Hawlwyr 18-24

Cyfrif hawlwyf fel cyfran o boblogaeth breswyl yr ardal 18-24 oed (Mai 2025)


..... Cymru i gyd (5.1%)



Sgiliau a Chymwysterau

Canran yr oedolion o oedran gweithio sydd wedi cymhwyso i Lefel 2 neu uwch (Y flwyddyn yn diweddu Rhagfyr 2024)


..... Cymru i gyd (87.6%)



Sgiliau a Chymwysterau

% yr oedolion o oedran gweithio heb unrhyw gymwysterau (Y flwyddyn yn diweddu Rhagfyr 2024)


..... Cymru i gyd (7.9%)



Aelwydydd Heb Waith

% yr aelwydydd sy'n ddi-waith ac sydd ag o leiaf un person rhwng 16 a 64 oed (Ionawr i Ragfyr 2022)


..... Cymru i gyd (16.0%)



Sgiliau a Chymwysterau

Canran yr oedolion o oedran gweithio sydd wedi cymhwyso i Lefel 3 neu uwch (Y flwyddyn yn diweddu Rhagfyr 2024)


..... Cymru i gyd (68.6%)



Nifer yr Hawlwyr

Cyfrif hawlwyf fel cyfran o ardal boblogaeth breswyl 16-64 oed (Mai 2024)


..... Cymru i gyd (3.4%)



Ail Gartrefi

Canran yr anheddau sy'n destun premiwm gwag hirdymor / ail gartref (2025/26)

..... Cymru i gyd (2.22%)




MESURIADAU Y GYMUNED EHANGACH

Bodddhad gyda'r Ardal Leol

Canran yr oedolion (16+) sy'n fodlon â'u hardal leol fel lle i fyw (Arolwg Cenedlaethol Cymru 2021/22)


..... Cymru i gyd (88.6%)



Chwaraeon a Gweithgarwch Corfforol

Galw cudd am unrhyw chwaraeon a gweithgaredd hamdden corfforol (2022/23)


..... Cymru i gyd (27%)



Democratiaeth Leol

% y bobl a bleidleisiodd yn etholiadau cyngor Mai 2022 (2022/23)


..... Cymru i gyd (60%)



Iechyd Cyffredinol

Canran y boblogaeth sydd mewn iechyd da neu dda iawn (ONS Cyfrifiad 2021)


..... Cymru i gyd (78.6%)



Amgueddfeydd

% y trigolion sydd wedi ymweld ag amgueddfa yn y deuddeg mis diwethaf (2022/23)


..... Cymru i gyd (31.5%)



Cydluniant Cymunedol

% y bobl sy'n cytuno eu bod yn perthyn i'r ardal; bod pobl o gefndiroedd gwahanol yn cyd-dynnu'n dda; a bod pobl yn trin ei gilydd â pharch (2021/22)


..... Cymru i gyd (64.5%)



Ymddygiadau Iach

Canran y bobl sydd â dau neu fwy o ymddygiadau iach (2021/22 & 2022/23)


..... Cymru i gyd (92.6%)



Gwneud Penderfyniadau

% y bobl sy'n teimlo y gallant ddylanwadu ar benderfyniadau sy'n effeithio ar eu hardal leol (2021/22)


..... Cymru i gyd (29.7%)



Cludiant

% yr aelwydydd sydd â mynediad at 1 car neu fan neu fwy (Census 2021)


..... All Wales (80.5%)



Amseroedd Teithio

% y trigolion sy'n teithio 20km neu fwy i'r gwaith (2021)

..... Cymru i gyd (11.4%)



Cymhareb Fforddiadwyedd Tai

Cymhareb enillion ar sail pris tŷ i breswylfa (2024)

..... Cymru i gyd (5.76)



Incwm Gwaredu Crynswth

Incwm gwario gros aelwydydd y pen (£) (2022 dros dro)


..... Cymru i gyd (£18,652)



Teithio llesol

% y bobl sy'n cerdded 10+ munud neu'n beicio o leiaf unwaith yr wythnos fel cyfrwng teithio (2021/22)


..... All Wales (52%)



Iaith Gymraeg

Gallu pobl tair oed neu hŷn i siarad Cymraeg (Cyfrifiad 2021)


..... Cymru i gyd (17.8%)



Cysylltedd Digidol

Argaeledd Band Eang Ffibr Llawn (Ym mis Gorffennaf 2025)


..... Cymru i gyd (78.8%)



Adeiladu Tai

Cyfanswm yr anheddau newydd a gwblhawyd fesul 1,000 o'r boblogaeth (2024/25)


..... Cymru i gyd (1.45)



Amddifadedd Materol

% yr holl oedolion difreintiedig (2022/23)

..... Cymru i gyd (15.5%)



Ffynonellau:

Mae mesurau perfformiad yn ddata agored ac wedi'u casglu o'r ffynonellau canlynol:

- [StatsCymru](#)
- [Swyddfa Ystadegau Gwladol](#)
- [NOMIS](#)
- [Arolwg Cenedlaethol Cymru](#)
- [Thinkbroadband](#)

Mae'r ffigurau fesur 1,000 o'r boblogaeth a fesul 10,000 aelwyd wedi'i amcangyfrif gan defnyddio [Amcangyfrifon Poblogaeth](#) o'r Swyddfa Ystadegau Gwladol a [Amcangyfrifon Stoc Anheddau](#) oddi wrth Llywodraeth Cymru.

Yr holl ddata a gyflwynir yw'r canlyniadau diweddaraf sydd ar gael ym mis Gorffennaf 2025.

Dweud eich dweud

Rydym yn croesawu eich barn ar yr adroddiad hwn a pherfformiad y Cyngor. Cysylltwch unrhyw bryd.

Cysylltwch â Ni

Y ffordd orau i gysylltu â ni yw drwy gofrestru neu lofnodi i mewn i'ch **Fy Nghyfrif**.

Mae **Fy Nghyfrif** yn eich galluogi i godi ymholiadau a monitro cynnydd ac mae hefyd yn darparu llawer o nodweddion eraill sy'n eich helpu i ryngweithio â ni.

Ewch i <https://www.ceredigion.gov.uk/preswylwr/fy-nghyfrif/>

✉ Post:

Cyngor Sir Ceredigion
Neuadd Cyngor Ceredigion Penmorfa
Aberaeron
Ceredigion
SA46 0PA

☎ Ffôn :

01545 570881

✉ E-bost:

clic@ceredigion.gov.uk

Neu ewch i'r wefan:

www.ceredigion.gov.uk

Mae Fersiwn **Testun Plaen** neu Fersiwn

Hawdd ei Ddarllen o'r ddogfen yma ar gael
o Gyngor Sir Ceredigion

